# Canllaw i Greu Lleoedd

2020

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# Siarter Creu Lleoedd Cymru

Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi cael ei datblygu mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, sy'n cynnwys rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ystod eang o fuddiannau. Mae'r Siarter yn adlewyrchu ymrwymiad cyfunol ac unigol y sefydliadau hyn i gefnogi datblygu lleoedd o ansawdd uchel ar draws Cymru er budd cymunedau.

Wrth lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, rydw i/mae fy sefydliad yn cytuno i gefnogi'r gwaith o greu lleoedd ym mhob maes perthnasol o'm/o'n gwaith, a hyrwyddo'r egwyddorion canlynol wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes:

### Pobl a'r gymuned

Mae'r gymuned leol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd a lles pob person ar y cychwyn. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu ac/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.

### Lleoliad

Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes, ac sydd â chysylltiadau da. Mae lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill yn cael eu cynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen am deithio.

### Symud

Mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau trafnidiaeth, ac osgoi gorfod dibynnu ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol, diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol.

### Defnyddiau cymysg

Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgu defnyddiau a daliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

### Y Parth Cyhoeddus

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth unigryw. Maen nhw wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn hyblyg gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniad cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maen nhw wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol, ac maen nhw'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.

### Hunaniaeth

Mae rhinweddau cadarnhaol, nodedig lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, priodoleddau ffisegol adeiledig a naturiol, ac ymatebir iddynt.

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 04 |
| 2 | Beth yw creu lleoedd? | 06 |
| 3 | Creu lleoedd yn ymarferol | 18 |
| 4 | Pam bod creu lleoedd yn bwysig | 44 |
| 5 | Astudiaethau achos | 51 |
| 6 | Atodiad | 124 |

# 1 Cyflwyniad




Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# 1. Cyflwyniad

Mae creu lleoedd yn golygu cydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau i roi ystyriaeth gynhwysfawr i ddatblygu lleoedd unigryw a llewyrchus yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae creu lleoedd yn derm sy'n cael ei ddefnyddio'n eang ac sydd ag ystyron gwahanol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi'n fanylach beth mae creu lleoedd yn ei olygu, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio yng Nghymru, fel bod gan bawb sy'n ymwneud â llunio'r amgylchedd adeiledig ddealltwriaeth glir. Mae'n cwmpasu, ar lefel uchel, agweddau allweddol ar greu lleoedd y dylid eu hystyried, ac mae'n cyfeirio at ffynonellau Darllen Ychwanegol sy'n rhoi mwy o fanylion am bob un o'r agweddau.

Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (gweler y tu mewn i'r clawr) ac mae wedi'i datblygu mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o blith ystod eang o randdeiliaid a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig. Mae'r grŵp hwn, a adwaenir fel Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru, wedi ymrwymo i'r Siarter i ddangos yr awydd ar y cyd i wella ansawdd lleoedd yng Nghymru. Mae ymchwydd o gefnogaeth i greu lleoedd, a phe byddid yn manteisio ar hyn, gallai arwain at fuddiannau cadarnhaol sylweddol ar gyfer dyfodol yr holl aneddiadau ar draws Cymru.

Ni fydd ystyried pob agwedd ar greu lleoedd yn gynnar yn ychwanegu cost sylweddol at brosiect, ond bydd yn creu mwy o werth. Dylai creu lleoedd helpu i sicrhau bod lleoedd yn gadarn ac yn wydn, gyda manteision parhaol o ran iechyd, lles, lleihau allyriadau carbon a chynaliadwyedd amgylcheddol ehangach. Rhoddir crynodeb o'r ystod o fanteision posibl y dull creu lleoedd yn Adran 4 o'r canllaw. Dylai dull creu lleoedd fod yn hollol gydnaws â nodau a ffyrdd o weithio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Mae creu lleoedd wedi'i ymgorffori mewn cynllunio ar lefel genedlaethol yng Nghymru, ac mae'r canllaw hwn yn ceisio cefnogi ac ymhelaethu ar y polisi a nodir ym *Mholisi Cynllunio Cymru (PCC)*, lle mae creu lleoedd yn thema ganolog.

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at bawb sy'n ymwneud â chreu lleoedd llwyddiannus, gan gynnwys y gymuned leol, dylunwyr trefol, cynllunwyr, penseiri, penseiri tirwedd, datblygwyr, cynllunwyr trafnidiaeth, peirianwyr priffyrdd ac ecolegwyr ymhlith eraill. Mae angen i bob proffesiwn a phob unigolyn sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, datblygu neu reoli lleoedd gydweithio ar bob cam tuag at agenda creu lleoedd gyffredin. Cydnabyddir bod natur lleoedd yn amrywio ar draws Cymru, bod pentrefannau gwledig yn wahanol i ganol trefi, ac y gall coetir fod yn lle, llawn cymaint â sgwâr trefol. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar aneddiadau ar bob graddfa ac ymhob lleoliad sy'n cael eu newid neu eu datblygu o'r newydd.

Mae darnau o astudiaethau achos yn cael eu defnyddio drwy'r ddogfen i enghreifftio gwahanol agweddau ar greu lleoedd. Gallwch weld yr astudiaethau achos llawn yn Adran 5 o'r ddogfen, neu darperir dolenni i ragor o wybodaeth.



# 2 Beth yw creu lleoedd?

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# 2. Beth yw creu lleoedd?

## 2.1 Nodau creu lleoedd

Mae gan y ffordd y mae lleoedd yn cael eu cynllunio, eu dylunio, eu datblygu a'u rheoli y potensial i lunio'n gadarnhaol ble a sut y bydd pobl yn byw, gweithio, cymdeithasu, symud o gwmpas ac yn ymgysylltu. Mae creu lleoedd yn sicrhau bod pob datblygiad neu ymyriad newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu neu wella amgylcheddau lle gall pobl, cymunedau, busnesau a natur ffynnu. Mae'n rhoi pobl wrth wraidd y broses, ac yn arwain at leoedd sy'n lewyrchus, sydd â hunaniaeth glir, a lle gall pobl ddatblygu ymdeimlad o berthyn.

Fel y nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae angen dull holistaidd sy'n ystyried lleoedd cyfan yn hytrach na defnyddiau tir unigol neu bob datblygiad ar wahân. Mae'r cysyniad o greu lleoedd wedi datblygu mewn ymateb i 'ddiffyg lle' o fewn yr amgylchedd adeiledig, lle nad oes gan ddatblygiad newydd hunaniaeth unigryw, cymeriad, ymdeimlad o gymuned neu o gydberchnogaeth. Mae'r gwaith o greu lleoedd wedi tyfu o ran pwysigrwydd wrth i'r cysylltiadau ag iechyd a lles gael eu harchwilio a'u deall yn fwy penodol.

**Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod creu lleoedd yn:**

'ffordd holistaidd o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl yn eu hystyr ehangaf.

Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i amgylchoedd ehangach. Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd, yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu mewn lle ehangach.

Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu at gostau datblygiad ond rhaid wrth feddwl clyfar, amlddimensiwn ac arloesol a'i ystyried cyn gynhared yn y broses â phosib. Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu, gan arwain i fanteision sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygu ffisegol, ac sy'n ymgorffori cydnerthedd ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.'

PPW10, p16

## 2.2 Lle


Er mwyn deall creu lleoedd, mae'n bwysig deall beth yw lle.

Gall lle fod ar wahanol ffurfiau, ac mae'r term yn berthnasol ar wahanol raddfeydd. Er enghraifft, mae lôn, stryd, man cyhoeddus achlysurol, sgwâr ffurfiol neu barc yn gallu bod yn lle, ond gall y term lle gyfeirio hefyd at gymdogaeth ehangach, neu bentref, tref neu ganol dinas. Mae creu lleoedd yn berthnasol ar yr holl raddfeydd hyn, a dylid ystyried effaith unrhyw gynnig ar wahanol raddfeydd.


Mae sawl ffordd o ddiffinio lle. Y ffordd fwyaf perthnasol yn y cyd-destun hwn yw:

- Ardal ddiffiniedig
- Ardal neu gymdogaeth benodol
- Tirwedd
- Lle sydd â chymeriad penodol (Christian Norberg-Schulz, 1980)
- Lle sydd ag ystyr (Sue Clifford, 1997)


Mae'r ddamcaniaeth deall lle yn aml yn priodoli tair cydran allweddol i leoedd da, a dylai creu lleoedd geisio sicrhau bod pob un o'r rhain yn cael sylw:




**Gweithgaredd**
Y gweithgareddau sy'n digwydd mewn lle, a gefnogir gan ddefnyddiau tir, symudiad cerddwyr a beiciau, chwarae a bywyd cymdeithasol yn y parth cyhoeddus a digwyddiadau.





**Ffurf Ffisegol**
Y lleoliad ffisegol sy'n ffurfio'r lle, yn cynnwys y treflun, ffurf adeiledig, tirwedd, topograffi, ecoleg, microhinsawdd a'r parth cyhoeddus.




**Ystyr**
Nodweddion unigryw lle, yn cynnwys cyd-destun, hunaniaeth lleoedd sy'n bodoli eisoes, ymdeimlad unigryw o le, nodweddion adeiledig a naturiol arwyddocaol, cysylltiadau diwylliannol, profiadau synhwyraidd, diogelwch a chynwysoldeb ac ymdeimlad o berthyn.

**Ffigur 1:** Enghreifftiau o wahanol agweddau ar le ar wahanol raddfeydd

Mae esgeuluso unrhyw un o'r tair cydran yn gwanhau ansawdd lle, a dyna pam mae canolbwyntio ar greu lleoedd sy'n ystyried pob agwedd gyda'i gilydd yn hollbwysig.




**Ffigur 2:** Wedi'i addasu o Sense of Place Model, Punter (1991)

## 2.3 Creu lleoedd

Mae creu lleoedd yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i leoedd da ddod i'r amlwg neu ffynnu. Gall creu lleoedd gynnwys datblygiadau newydd, gwelliannau i leoedd neu ymyriadau sy'n bodoli eisoes, fel digwyddiadau sy'n helpu i greu gweithgaredd mewn lle.

Mae creu lleoedd yn ymwneud â sicrhau bod y rheiny sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, adeiladu a chynnal y gwahanol elfennau niferus sy'n creu ffurf, gweithgaredd ac ystyr lle yn gwneud cyfraniad cadarnhaol.

Mae egwyddorion creu lleoedd yn cael eu crynhoi yn Siarter Creu Lleoedd Cymru (gweler y tu mewn i'r clawr). Mae'r rhain yn nodi'r hyn sydd ei angen i helpu i sicrhau bod y ffurf ffisegol, y gweithgaredd a'r ystyr yn cael ystyriaeth. Maen nhw'n tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio a gwneud penderfyniadau'n gynnar, fel penderfynu ar y lleoliad gorau ar gyfer datblygu, a sicrhau bod pob elfen yn cael ei hystyried o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r tabl canlynol yn amlygu rhai o'r meysydd lle mae creu lleoedd yn mynd i'r afael â'r Ffurf Ffisegol, y Gweithgaredd a'r Ystyr, mewn cyferbyniad â dulliau sy'n arwain at ddiffyg llee.

**Tabl 1a:** Rhinweddau creu lleoedd da

| | **Prif rinweddau creu lleoedd da:** | **Pethau i'w hosgoi wrth greu lleoedd:** |
|---|---|---|
| Gweithgaredd<br>**Symudiad**<br><br>**Defnyddiau cymysg** | – Yn cefnogi ystod eang o ddefnyddiau a mannau amlswyddogaethol sy'n ddeniadol i bobl drwy gydol y dydd a gyda'r nos.<br>– Defnyddiau cymysg priodol, sy'n helpu i leihau'r angen am deithio pellteroedd hirach.<br>– Yn cefnogi busnesau lleol a'u cadwyni cyflenwi.<br>– Mae cerdded, beicio, chwarae, cymdeithasu a gwneud ymarfer corff yn weladwy, ac yn cael eu croesawu a'u normaleiddio mewn strydoedd a mannau.<br>– Cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da.<br>– Lleoedd ar gyfer rhyngweithio'n gymdeithasol yn ffurfiol, fel cyfleusterau cymunedol a llyfrgelloedd.<br>– Lleoedd ar gyfer cyfarfod yn achlysurol, fel wrth safleoedd bws, giatiau ysgol, siopau neu ar y stryd.<br>– Cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu bwyd/gerddi cymunedol.<br>– Cymysgedd o ddeiliadaethau a mathau o dai.<br>– Mae gwasanaethu a dosbarthu nwyddau yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n osgoi gwrthdaro ac nad ydynt yn erydu ansawdd lleoedd.<br>– Mae mannau gwyrdd o ansawdd uchel a/neu goedwig drefol yn cydbwyso lleoedd dwysedd uwch. | – Tir un pwrpas sydd â chysylltiadau gwael â lleoedd sy'n bodoli eisoes.<br>– Mynediad gwael at gyfleusterau dydd i ddydd fel siopau, meddygfa, caffis.<br>– Lleoliadau ynysig sydd â chysylltiadau gwael â swyddi a chyfleusterau.<br>– Dibyniaeth ar gerbydau preifat fel y prif ddull o deithio.<br>– Mannau sydd heb bwrpas na hunaniaeth, ac sy'n debygol o ddod yn faich i'w cynnal.<br>– Mannau mae pobl yn teimlo nad oes ganddynt ganiatâd i'w defnyddio.<br>– Diffyg gweithgareddau gyda'r nos.<br>– Mannau sy'n cael eu targedu at un ddemograffeg yn unig. |

**Tabl 1b:** Rhinweddau creu lleoedd da


| | Prif rinweddau creu lleoedd da: | Pethau i'w hosgoi wrth greu lleoedd: |
|---|---|---|
| Ffurf Ffisegol<br>**Lleoliad**<br>**Y Parth Cyhoeddus** | – Datblygu mewn lleoliadau sydd â chysylltiadau da, ac sy'n cefnogi neu'n ategu lleoedd sy'n bodoli eisoes.<br>– Strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n glir.<br>– Strydoedd sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a chwarae.<br>– Mannau gwyrdd o ansawdd uchel, wedi'u dosbarthu'n dda, sy'n cefnogi gweithgaredd corfforol bob dydd, sy'n darparu lleoliad deniadol ac sy'n cefnogi bioamrywiaeth.<br>– Amrywiaeth briodol o fannau sy'n cynnal gwahanol ddefnyddiau.<br>– Defnyddio deunyddiau sy'n gadarn, yn gynaliadwy ac sy'n cyfrannu at gymeriad.<br>– Seilwaith gwyrdd integredig sy'n sicrhau buddiannau wedi'u targedu fel: teithio llesol, lleihau dŵr wyneb, lliniaru llygredd aer, lleihau sŵn, cefnogi bioamrywiaeth, ac/neu leihau'r effaith ynys wres drefol.<br>– Cysylltiadau â natur ar wahanol raddfeydd, gan gynnwys yn agos at ddrws blaen pobl, i'w profi fel rhan o fywyd bob dydd, ac yn nysgu plant drwy chwarae.<br>– Tirwedd sy'n cyfrannu at gymeriad ac atyniad y lle, ac at gynyddu bioamrywiaeth.<br>– Dwysedd sy'n briodol ar gyfer y lleoliad, ac sy'n helpu i gynnal trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol.<br>– Datblygu carbon niwtral, sy'n cefnogi'r agenda datgarboneiddio.<br>– Cysylltedd digidol da, i sicrhau bod pobl yn gallu gweithio o bell.<br>– Adeiladau gwag neu heb eu defnyddio yn cael eu hailddefnyddio lle bo modd, gan goleddu cymeriad adeiladau hanesyddol.<br>– Amgylchedd cynhwysol, nad yw'n cau allan pobl o alluoedd corfforol, oedrannau neu gefndiroedd gwahanol, a lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel.<br>– Cartrefi a gweithleoedd sy'n diwallu anghenion defnyddwyr, ac y gellir eu haddasu ar gyfer y dyfodol.<br>– Mae cysylltiadau teithio llesol yn darparu llwybr mwy uniongyrchol i gyrchfannau allweddol. | – Diffyg unrhyw fannau cyhoeddus diffiniedig.<br>– Mannau dros ben.<br>– Strydoedd a mannau sy'n cael eu dominyddu gan gerbydau.<br>– Dyluniad priffyrdd safonol gyda diffyg tirwedd a dim hunaniaeth unigryw.<br>– Adeiladau nad ydynt yn ymateb i nodweddion unigryw'r safle a'i gyd-destun.<br>– Datblygiad sydd wedi ei ystyried ar ei ben ei hun, heb ymateb i'r ardal ehangach a'r gymuned.<br>– Adeiladau a datblygiadau sy'n dibynnu ar gar, y tu allan i'r dref.<br>– Ystyrir natur fel cyfyngiad gofodol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi drwy liniaru.<br>– Methu â chynllunio a dylunio ar gyfer seilwaith gwyrdd, bioamrywiol, ar ddechrau rhaglenni a phrosiectau.<br>– Dim digon o le ar gyfer coed aeddfed ac elfennau tirwedd eraill.<br>– Dylunio sy'n hwyluso troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a mannau a llwybrau sydd o'r golwg, sy'n teimlo'n anniogel, ac sydd felly'n cael eu tanddefnyddio ac yn colli eu hymdeimlad o berchnogaeth.<br>– Colli rhinweddau'r cymeriad a'r nodweddion unigryw presennol. |

**Tabl 1c:** Rhinweddau creu lleoedd da

| | **Prif rinweddau creu lleoedd da:** | **Pethau i'w hosgoi wrth greu lleoedd:** |
|---|---|---|
| Ystyr<br>**Pobl a Chymuned**<br><br>**Hunaniaeth** | – Mae pobl yn cymryd rhan ystyrlon a chyson dros amser yn y broses o ddatblygu a chyflwyno cynigion er mwyn creu ymdeimlad o berchnogaeth.<br>– Mae iddo hunaniaeth unigryw.<br>– Diogel a chroesawgar.<br>– Cyfleoedd i'r gymuned dyfu a datblygu.<br>– Mae gan bobl ymdeimlad o falchder yn y lle maen nhw'n byw, yn gweithio ac/neu'n treulio'u hamser hamdden ynddo.<br>– Mae'r cynigion yn ystyried ac yn dehongli hanes, treftadaeth, hunaniaeth, diwylliant ac iaith y lle.<br>– Cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.<br>– Yn ystyried cyfansoddiad diwylliannol ac iaith y lle, a pha effaith y gallai datblygiad ei chael arno.<br>– Mae cynrychiolwyr o bob grŵp mae'r penderfyniadau'n effeithio arnynt yn cael eu cynnwys, gan gynnwys pobl ifanc, cymunedau BAME, pobl hŷn a phobl ag anableddau.<br>– Yn hyrwyddo perchnogaeth gymunedol.<br>– Mae pobl yn cael cyfle i bersonoli eu heiddo a'u mannau allanol. | – Dileu nodweddion sy'n gwneud lleoliad yn unigryw.<br>– Diffyg cyfle i gymryd perchnogaeth o adeiladau a mannau, neu i'w personoli.<br>– Datblygu sy'n arwain at ynysu.<br>– Dymchwel ac ailddatblygu adeiladau a nodweddion sy'n bodoli eisoes, heb ystyried eu hadnewyddu neu ailddefnyddio yn gyntaf.<br>– Datblygu yn seiliedig ar dybiaethau am hunaniaeth leol yn hytrach na thrwy ymgysylltu â phobl leol. |

## 2.4 Graddfa creu lleoedd

Mae creu lleoedd yn berthnasol ar bob graddfa o ddatblygu, ar gyfer lleoedd newydd a lleoedd sy'n bodoli eisoes, o ardaloedd gwledig i drefol, a dylid eu hystyried o'r raddfa strategol i lawr i lefel fanwl y cynllunio a'r dylunio. Mae'r agweddau canlynol i gyd yn cyfrannu at greu lleoedd:




**Ffigur 3:** Mae pob un o'r rhain yn agweddau ar greu lleoedd, a dylid eu hystyried gyda'i gilydd

Nid oes fformiwla benodol ar gyfer creu lleoedd. Mae pob lle a set o amgylchiadau yn wahanol, a rhaid troi atynt yn unigol, ond dylid integreiddio pob agwedd ar ddatblygiad gan gynnwys dylunio trefol, tirwedd, ecoleg, seilwaith gwyrdd, symudedd, priffyrdd, cyfleustodau, pensaernïaeth a chelf gyhoeddus.

### 2.4.1 Ystyriaethau cynllunio strategol

Bydd penderfyniadau cynllunio strategol cynnar, gan gynnwys lle y gellid datblygu, yn cael effaith sylweddol ar p'un a ellir creu lleoedd da ai peidio. Gellid camdybio bod creu lleoedd yn ymwneud â dylunio'r parth cyhoeddus yn unig. Er bod strydoedd a mannau llewyrchus a deniadol yn sicr yn agwedd bwysig, ni all parth cyhoeddus sydd wedi'i gynllunio'n dda greu lle gwych ar ei ben ei hun. Mae'r amodau sy'n penderfynu ar lwyddiant lle'n cael eu sefydlu'n llawer cynharach pan ystyrir agweddau fel dewis safle, dwysedd, defnyddiau cymysg, seilwaith gwyrdd a hygyrchedd, a bydd pob un o'r rhain yn effeithio ar lewyrchusrwydd a llwyddiant y parth cyhoeddus. Dylai cynllunio strategol ar lefel ranbarthol neu leol nodi'r lleoliadau gorau, mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd, i gefnogi neu ategu lleoedd sy'n bodoli eisoes.



**Enghraifft**
Mae'r parth cyhoeddus yn Hammarby Sjöstad, Stockholm, Sweden yn fywiog gyda phobl yn cerdded, beicio, eistedd ar feinciau a seddau caffis yn yr awyr agored. Gellir gwneud y gweithgareddau hyn oherwydd dwysedd y datblygiadau cyfagos, sy'n darparu màs critigol o bobl o fewn pellter cerdded a beicio i gynnal busnesau.

Er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ddull creu lleoedd, dylai'r holl waith cynllunio strategol o ran defnydd tir, seilwaith a darparu gwasanaethau ganolbwyntio ar greu lleoedd. Byddai hyn yn sicrhau y byddai cynllunio ar gyfer ysgolion, cyfleusterau iechyd, adnoddau cymunedol, priffyrdd a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn cefnogi cyfleoedd i greu lleoedd. Bydd cynllunio twf neu newid mewn ffordd strategol sy'n ymateb i anghenion a chyfleoedd aneddiadau presennol yn helpu i sefydlu'r amodau cywir ar gyfer creu lle.




Cynllun cysyniad ar gyfer safle strategol 'D' yn y CDLl ar gyfer Abertawe

**Enghraifft**
Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Abertawe yn fframwaith cynllunio strategol arloesol, sy'n cyflwyno gweledigaeth feiddgar o ran creu lleoedd. Mae'r CDLl yn unigryw oherwydd y pwyslais mae'n ei roi ar greu lleoedd fel yr egwyddor ddatblygu bwysicaf ar bob graddfa. Yn benodol, mae'n cydnabod bod darparu lleoedd o ansawdd da sydd wedi'u cysylltu'n dda, yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi llesiant, a gwella iechyd corfforol a meddyliol pobl.

Mae'r CDLl yn rhoi manylion gofynion creu lleoedd safle-benodol a chynlluniau cysyniad ar gyfer ystod eang o safleoedd datblygu ar raddfa strategol. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion ar gyfer nifer o safleoedd tir glas ar draws y Sir, a fydd yn creu cymdogaethau defnydd cymysg newydd ac estyniadau trefol a fydd yn darparu'r rhan fwyaf o gartrefi newydd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion tai Abertawe dros y degawd nesaf a thu hwnt.

Mae'r CDLl yn tynnu sylw at y ffaith mai elfen allweddol o greu lleoedd yw'r profiad o'r lle, ac nid dim ond sut mae'n edrych. Nod y polisïau safle-benodol yn y Cynllun yw darparu lleoedd sy'n gosod lles preswylwyr wrth galon y datblygiad, gyda hunaniaeth unigol gref a chysylltiadau da â gwasanaethau lleol neu wasanaethau newydd ar y safle. Mae'r cynigion hyn yn darparu ar gyfer cyfleoedd realistig i gerdded a beicio, i gysylltu â gwasanaethau a chymunedau, ac i greu ardaloedd diogel a hygyrch ar gyfer hamdden i bob oedran.

Un agwedd allweddol ar greu lleoedd sy'n cael ei phwysleisio yng Nghynllun Abertawe yw'r rôl allweddol mae Seilwaith Gwyrdd (SG) amlswyddogaethol yn ei chwarae o ran sicrhau bod manteision llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol i ddatblygiadau. Mae polisi CDLl strategol ar Seilwaith Gwyrdd yn pwysleisio bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod cysylltiad anorfod rhwng SG a'r dull 'Gwasanaethau Ecosystemau', o ran sicrhau bod datblygiadau'n mabwysiadu dull holistaidd ac integredig o reoli adnoddau naturiol. Mae polisïau'r CDLl, a'r CCA ategol, yn nodi sut y bydd cyfleoedd i gynnal a gwella SG yn gwella bioamrywiaeth, ac y dylid eu hintegreiddio i ddatblygiadau newydd ar bob graddfa.

Mae'r ymrwymiad i greu lleoedd yn CDLl Abertawe yn cael ei amlygu yn yr amrywiaeth o bolisïau a chynigion mae'n eu cynnwys ar gyfer amgylcheddau trefol a gwledig ar amrywiol raddfeydd, sy'n adlewyrchu cymeriad unigryw Abertawe fel canolfan drefol bwysig, gyda chefnwlad wledig enfawr ac AHNE y tu hwnt. Mae creu lleoedd yn berthnasol nid yn unig i greu cymdogaethau newydd cynaliadwy ar raddfa fawr – mae hefyd yn egwyddor arweiniol sydd yr un mor berthnasol ar raddfa leol a hyd yn oed ar lefel plotiau adeiladu o ran llywio datblygiad. Mae CDLl Abertawe yn cael ei ategu gan gyfres o ddogfennau CCA sy'n ymhelaethu ar y gofynion Creu Lleoedd ar gyfer gwahanol leoedd ar wahanol raddfeydd, fel estyniadau i ddeiliaid tai, datblygiadau mewnlenwi, datblygiadau preswyl mawr, adfywio canol dinas, adeiladau uchel ac AHNE Gŵyr.

Mae'r Cynllun yn iawn i bwysleisio bod yn rhaid cydbwyso dyheadau creu lleoedd â safbwynt cryf ar hyfywedd a'r gallu i gyflawni, er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gofynion polisi yn realistig. Mae'r Cyngor wedi pwysleisio bod ymgorffori llawer mwy o weithio mewn partneriaeth a chydweithio â'r sector preifat ar yr agweddau hyn yn hanfodol, gan fod angen i gynllunio strategol ar y raddfa hon fabwysiadu dull datrys problemau amlddisgyblaethol, (e.e. ar gyfer gofynion SDCau, uwchgynllunio ardaloedd twf mawr), os yw am gydbwyso amcanion creu lleoedd yn llwyddiannus â materion hyfywedd a'r gallu i gyflawni. Treuliwyd cryn dipyn o amser mewn trafodaethau a gweithdai gyda hyrwyddwyr safleoedd i gytuno ar Egwyddorion Creu Lleoedd safle-benodol, a sefydlwyd wedyn yn y Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys mabwysiadu dull arloesol o sicrhau arfarniadau cynhwysfawr ar hyfywedd a ariannwyd gan y datblygwyr ar gyfer safleoedd mawr. Roedd hyn yn rhoi llawer iawn o eglurder a hyder ynghylch pa fanteision cymunedol a seilwaith cynhaliol y gallai safleoedd a ddyrannwyd eu darparu. Yn y pen draw, arweiniodd y dull partneriaeth hwn gyda'r sector preifat i bolisïau a chynigion CDLl cyraeddadwy a oedd yn gallu cyflawni newid cadarnhaol a thrawsnewidiol.

https://www.abertawe.gov.uk/cdll

## 2.4.2 Graddfa fawr

Dylid lleoli datblygiadau newydd graddfa fawr, o safleoedd datblygu strategol i estyniadau trefol neu aneddiadau newydd, yn y lle iawn, dylent gael cysylltiadau da â lleoedd sy'n bodoli eisoes, a cheisio sefydlu'r gweithgared a'r hunaniaeth sydd eu hangen i greu lle llewyrchus gyda strydoedd a mannau prysur. Bydd sicrhau bod y defnyddiau cywir yn cael eu cydlynu o fewn rhwydwaith o lwybrau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith gwyrdd wedi'i integreiddio'n gadarnhaol, yn helpu i alluogi patrymau byw cynaliadwy. Ar y raddfa hon, mae egwyddorion dylunio trefol ac uwchgynllunio yn bwysig wrth lunio ffurf ffisegol y lle.



**Enghraifft**

Mae Ashlands yn Portishead yn estyniad trefol graddfa fawr ar hen domen ludw dwy orsaf bŵer ym marina Portishead. Mae'r cynllun ar gyfer y safle, a ddatblygwyd dros 20 mlynedd, wedi darparu 1,650 o gartrefi, defnyddiau cyflogaeth, siopau, bwytai a chaffis yn ogystal â gwarchodfa natur 40 hectar, mannau chwarae a mannau agored.

Datblygwyd y weledigaeth ar gyfer y safle ar y cyd rhwng y datblygwr, y tîm dylunio a thîm prosiect penodedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) trwy gyfres o weithdai dylunio. Roedd y safle'n wastatir di-nod i bob pwrpas, yn cynnwys dyddodion lludw mân o'r hen orsafoedd pŵer a bwerwyd â glo. Felly, roedd angen i'r weledigaeth greu strwythur trefol eglur a chryf fel rhan o gynllun safle cynaliadwy. Cyflwynodd tîm yr ACLl syniadau a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt gyda'r datblygwyr. Yn dilyn y gweithdai hyn, esboniwyd y weledigaeth mewn "Uwchgynllun Creu Gweledigaeth". Roedd hwn yn sail i'r Uwchgynllun Amlinellol a sefydlodd egwyddorion dylunio allweddol y datblygiad. Etifeddiaeth y broses hon yw le llwyddiannus sy'n aeddfedu'n dda gydag ymdeimlad o gymuned.

Gweler yr astudiaeth achos lawn yn Adran 5 o'r ddogfen (t62)

### 2.4.3 Graddfa fach a chanolig

Dylai ymyriadau graddfa lai neu ddatblygiadau mewnlenwi mewn aneddiadau presennol ymdrin â sicrhau bod rhinweddau arbennig y lle presennol yn cael eu nodi, eu cadw a/neu eu gwella yn y cynigion. Dylid dadansoddi cyd-destun ehangach a hanes y lle i lywio cymeriad y cynigion er mwyn cyfoethogi'r lleoliad. Mae ansawdd y parth cyhoeddus, seilwaith gwyrdd a'r potensial ar gyfer integreiddio celf gyhoeddus yn ystyriaethau pwysig. Yr un mor bwysig yw mentrau a ysgogir gan y gymuned i wella lleoedd a bywiogi mannau lle gall cymunedau ddatblygu a chymryd perchnogaeth o'u lleoedd.

## 2.5 Pwysigrwydd creu lleoedd

Mae creu lleoedd yn bwysig gan fod iddo fanteision cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol posibl. Mae manteision creu lleoedd i bobl, y blaned a gwerth yn cael eu harchwilio'n llawnach yn Adran 5 y ddogfen hon. Dylid nodi manteision posibl unrhyw gynnig o'r cychwyn cyntaf, a chyfeirio atynt drwy'r broses gynllunio, dylunio a datblygu. Dylid anelu at greu a hyrwyddo lleoedd sy'n gynaliadwy, yn ddeniadol, yn gymdeithasgar, yn hygyrch, yn fywiog, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar.

# 3 Creu lleoedd yn ymarferol



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# 3. Creu lleoedd yn ymarferol

**Cynnwys y gymuned a deall y lle**

**Cynllun ar gyfer Gweithgaredd**

Cynllunio'n strategol ar gyfer lleoedd newydd neu leoedd sy'n tyfu

Cydlynu anghenion a chyfleoedd cymunedol

Galluogi'r pethau a fydd yn cynhyrchu gweithgaredd mewn lle

Cynnwys teithio llesol

**Sefydlu'r Ffurf Ffisegol**

Sefydlu'r strydoedd a'r mannau lle bydd bywyd y lle yn digwydd

Uwchgynllunio, dylunio trefol, dylunio tirwedd

**Cefnogi Ystyr**

Digwyddiadau

Mentrau dan arweiniad y gymuned

Celf gyhoeddus

**Addasu dros amser**

Bydd lleoedd yn newid, ac yn gorfod addasu dros amser

Bydd ystyr yn datblygu ac yn newid dros amser

**Ffigur 4:** Elfennau sy'n cyfrannu at greu lleoedd yn ymarferol


## 3.1 Cynnwys y gymuned a deall y lle

EGWYDDORION CREU LLEOEDD: **POBL A CHYMUNED** | **HUNANIAETH**

Cyn ymgymryd ag unrhyw ymyriad mewn lle newydd neu le sy'n bodoli eisoes, mae'n bwysig bod nodweddion unigryw'r lleoliad, ei gyd-destun, ei gymeriad, ei dreftadaeth a'i ddiwylliant yn cael eu deall. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi nodweddion ffisegol, yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys. Dylid cynnwys y gymuned yn barhaus drwy gydol y broses hefyd.

### 3.1.1 Cynnwys pobl

Mae creu lleoedd yn rhoi pobl wrth galon y broses. Dylai lleoedd sy'n cael eu creu neu eu haddasu gefnogi iechyd a lles y rheiny sy'n byw, yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â nhw i gydlynu anghenion a chyfleoedd y gymuned gyfan. Dylai'r gymuned fod yn rhan o'r broses o gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd. Drwy ddatblygiadau adeiladu ar archeb, hunan-adeiladu a chydweithredol, efallai y bydd cyfleoedd hefyd i bobl fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio ac adeiladu eu cartrefi ac/neu eu gweithleoedd eu hunain.




**Ffigur 5:** Bwrdd gwybodaeth i'r gymuned

Dylid ystyried cyfleoedd i gynnwys y gymuned leol ar ddechrau'r broses creu lleoedd hefyd, gan fod ei chynnwys yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i nodi a mynd i'r afael ag anghenion, pryderon, syniadau, dyheadau a chymeriad y gymuned leol. Mae cymryd rhan yn helpu i ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn mewn lle hefyd.




**Enghraifft**

Canolfan gelfyddydol a diwylliannol yw Tŷ Pawb, Wrecsam, a leolir mewn neuadd farchnad a maes parcio aml-lawr presennol yng Nghanol Tref Wrecsam. Mae'n cynnwys orielau celf, stondinau marchnad, man perfformio, canolfan ddysgu, caffis a bariau, stiwdios ac ystafelloedd cyfarfod ar gyfer artistiaid a staff yr oriel.

Yn y camau cynnar, roedd rhai pobl leol, yn enwedig y masnachwyr marchnad presennol, ychydig yn elyniaethus ac yn nerfus tuag at y syniad o ddod â chanolfan gelfyddydau newydd i'r adeilad a'r dref. Yn erbyn y cefndir hwn, aeth tîm y prosiect ati i ddatblygu lle a rhaglen a allai fod yn fwy defnyddiol i'r dref. Daeth model diwylliannol newydd i'r amlwg, sy'n ymateb i bryderon pobl leol mewn ffyrdd ystyrlon, ac sy'n gosod y celfyddydau mewn lleoliad ehangach.

Roedd cynnwys y gymuned yn rhan annatod o'r prosiect, o'r cychwyn cyntaf nes iddo gael ei gwblhau, a nawr, yn ei weithgareddau o ddydd i ddydd. Gweithiodd disgyblion ysgolion cynradd ar y patrymau a dorrwyd i mewn i'r blychau arddangos Siop//Shop; lluniwyd meinciau i neuadd y farchnad gan fyfyrwyr coleg lleol; bu grŵp gwaith coed wrthi'n turnio coesau'r bwrdd trestl ar gyfer Sgwâr y Bobl; a chymerodd aelodau o'r cyhoedd ran mewn gweithdai i greu graffigwaith ar y stoliau. Mae aelodau o'r cyhoedd a masnachwyr y farchnad yn rhan o'r panel sy'n dewis yr artist i ddylunio'r gwaith celf blynyddol ar gyfer yr hysbysfyrddau mawr sydd wedi'u lleoli yn Wal Pawb.

Roedd llawer o fasnachwyr yn croesawu'r ethos cydweithredol newydd yn llwyr, gan gyflwyno gwahanol agweddau ar eu cynnig manwerthu safonol, er enghraifft masnachwr bwyd yn cynnal gweithdai pitsa yn y sgwâr bwyd, a masnachwyr eraill yn cymryd rhan mewn llwybr celf lle'r oedd gwrthrychau'n cael eu mewnosod yn eu stondinau. Mae ethos y model celfyddydau newydd hwn wedi adeiladu ar ddefnyddioldeb gweithgareddau'r farchnad a'r meysydd parcio i wneud celf yn rhan o fywyd bob dydd pobl. Mae wedi rhoi cyfle i fasnachwyr y farchnad adfywio'u cynnig ac ail-gryfhau hunaniaeth marchnad y dref.

Gweler yr astudiaeth achos lawn yn Adran 5 o'r ddogfen (t92)

Mae digwyddiadau ac ymyriadau yn yr amgylchedd adeiledig yn gallu bod yn fecanwaith da ar gyfer cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn lle penodol. Dylai'r broses ymgysylltu geisio cyrraedd cymysgedd eang a chynrychioliadol o bobl, yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Mae sefydlu rhaglen barhaus o ddigwyddiadau yn gallu helpu i greu ymdeimlad o gymuned mewn lle newydd ac/neu hyrwyddo integreiddio â chymuned sy'n bodoli eisoes. Mewn llawer o achosion, mae'n bwysig symbylu'r gymuned a mynd i'r afael â'r bobl sydd mewn lle cyn i ymyriadau ffisegol gael eu cynnig a'u gweithredu.

Dylai'r gymuned barhau y gael ei chynnwys drwy gydol unrhyw brosiect, datblygiad neu ymyriad a thu hwnt.



Cynlluniau ar gyfer dyfodol defnydd cymysg y safle



Safle diffaith wedi ei neilltuo ar gyfer y gymuned

**Enghraifft**

Prosiect Stryd Reilffordd, Sblot, Caerdydd

Datblygwyd cynlluniau i drawsnewid darn o dir diffaith yn fan cymunedol bywiog gan sefydliad di-elw lleol, Green Squirrel, mewn partneriaeth â chymunedau Sblot ac Adamsdown, Caerdydd. Mae Green Squirrel wedi bod yn cynnal gweithgareddau byw gwyrdd ar draws Caerdydd ers 2012. Eu gweledigaeth yw helpu i adeiladu cymunedau cryf, cysylltiedig a chynaliadwy drwy gynnig cyfleoedd creadigol a chynhwysol ar gyfer datblygu a threfnu sgiliau dan arweiniad y gymuned.

Parc cyhoeddus a cae chwarae bach oedd y safle, ond fe'i caewyd oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ers ei gau, roedd y lle'n llawn chwyn ac yn denu tipio anghyfreithlon. Gyda chymorth cynghorwyr lleol a'r Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol, llwyddodd Green Squirrel i sicrhau'r tir at ddefnydd y gymuned yn hytrach na gwerthu'r safle i ddatblygwr.

**Mae'r cynigion ar gyfer y safle'n cynnwys:**

- Adeilad, wedi'i gynllunio mewn partneriaeth â'r gymuned, ac wedi'i greu o gynwysyddion llongau wedi'u hailgylchu. Bydd yn darparu dau le ar gyfer gweithdai, hyfforddiant, digwyddiadau cymdeithasol, cyfarfodydd grŵp a gweithgareddau, ynghyd â chegin fach, a man awyr agored.
- Wyth pod busnes mewn cynwysyddion llongau sy'n darparu gweithdai a swyddfeydd fforddiadwy ar gyfer mentrau cymdeithasol a busnesau cynaliadwy yn y gymuned.
- Rhandir cymunedol bach gyda gwelyau uchel, man tyfu sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, cyfleusterau compostio, cychod gwenyn, tŷ gwydr a chytiau potiau ar gyfer hyfforddi a datblygu sgiliau garddwriaethol.
- Mannau awyr agored hyblyg, sy'n ystyriol o fywyd gwyllt ar gyfer dysgu, ymweliadau ysgol, chwarae, gweithgareddau cymdeithasol ac ymlacio.

Datblygwyd y cymysgedd arfaethedig o ddefnyddiau mewn cydweithrediad â'r gymuned drwy nifer o ddigwyddiadau ac ymgynghori ar-lein a gydlynwyd gan Green Squirrel, ac yn dilyn archwiliad o'r cyfleusterau lleol presennol er mwyn osgoi dyblygu. Roedd nifer dda o bobl yn bresennol yn yr ymgynghoriadau, ac ymgysylltodd dros 1200 o aelodau o'r gymuned dros ddwy flynedd. Er mwyn deall effaith bosibl y prosiect yn llawn, mae Green Squirrel wedi siarad hefyd â:

- 19 o sefydliadau cymunedol lleol ac ledled Caerdydd, gan gynnwys Sefydliad Tai Cymunedol Caerdydd, Growing Street Talk, Oasis Caerdydd, Grow Cardiff, Keep Splott Tidy, a Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol Links.


Digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned



Mewnbwn pobl leol i'r cynigion

- Busnesau lleol gan gynnwys Viridor, Celsa, The Bone Yard a Network Rail.
- Cynghorwyr lleol ac adrannau perthnasol o gyngor Caerdydd (Priffyrdd, Rheoli Rhwydweithiau, Gwasanaethau Chwarae Plant, Ailgylchu a Gwastraff).
- Prosiectau tebyg sy'n bodoli eisoes mewn lleoliadau eraill i ddysgu o'u profiad.

Derbyniwyd cymorth hefyd gan bobl a allai gyfrannu'r sgiliau cywir i'r prosiect, yn cynnwys tîm a oedd â phrofiad o gychwyn a rhedeg stiwdios busnes mewn cynwysyddion llongau mewn rhan arall o Gaerdydd, a phenseiri i benderfynu sut i wneud y gorau o'r lle oedd ar gael a pharatoi cais cynllunio. Ffurfiwyd grŵp cynghori prosiect gyda phobl leol sy'n rhannu eu sgiliau ac sy'n sicrhau bod y prosiect yn aros ar y trywydd iawn.

Sicrhawyd cyllid i alluogi cynlluniau i symud y safle yn ei flaen gan Sefydliad y Co-Op a Chynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Byddant yn chwilio am ragor o gyllid i gyflawni'r datblygiad arfaethedig.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.railwaystreet.co.uk

**Darllen pellach:**

> Taith tuag at Ymgyfraniad, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

> Pecyn Cymorth Tiroedd Ysgolion, Chwarae Cymru

> Cynllunio i Gymunedau, Cymorth Cynllunio Cymru


> Place Plans Guidance

> The Craft of Collaborative Planning

> Enabling Healthy Placemaking 2020, RTPI

## 3.1.2 Dadansoddi lle

Dylai creu lleoedd ymateb i nodweddion unigryw lleoliad a'i gyd-destun. Dylid cynnal dadansoddiad trylwyr i ddeall y nodweddion hyn, a datblygu ymateb priodol iddynt. Ceir canllaw manwl i ddadansoddi safleoedd a chyd-destun mewn canllaw ar wahân gan Lywodraeth Cymru – gweler y ddolen yn yr adran Darllen Pellach.



**Ffigur 6:**
Diagram dadansoddi safle



Diagramau dadansoddi safle yn archwilio perthynas y safle â'r anheddiad presennol.

**Enghraifft**

Mae cynigion datblygu ar gyfer 33 o gartrefi ar safle hen fferm laeth yn Lawrenni, ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro, hefyd yn cynnwys unedau gweithdy newydd ar gyfer busnesau bach, sgwâr pentref newydd, a gwell cysylltiadau i gerddwyr o amgylch y pentref presennol. Yn sgil y gwaith o symud y fferm laeth, gadawyd safle tir llwyd sylweddol yn y pentref ac fe glustnodwyd hwn ar gyfer tai yng Nghynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dyluniwyd y cynllun gan Emmett Russel Architects (ERA) drwy gystadleuaeth a drefnwyd gan RSAW a RIBA.

O'r cychwyn cyntaf, sylwodd ERA fod a wnelo cymeriad y pentref gymaint â'r tirwedd o'i gwmpas a'r ffordd yr oedd golygfeydd wedi'u fframio, ag â'r adeiladau eu hunain. Dechreuodd eu dadansoddiad drwy fwrw golwg gofalus ar y tirwedd a hanes y pentref.



Golygfa o'r cynigion o Broad Lane

Ffurfiwyd egwyddorion dylunio'r cynllun ar sail cyd-destun y safle a hanes y pentref. Roedd y penseiri'n awyddus i ddefnyddio elfennau o'r pentref presennol neu ei orffennol yn unig, wrth ddatblygu'r egwyddorion dylunio ar gyfer ei ddyfodol. Mae'r egwyddorion dylunio allweddol yn cynnwys:

**Golygfeydd a Fistâu** - Mae golygfeydd allweddol o dirwedd unigryw Lawrenni wrth wraidd y cynigion. Mae'r safle'n cynnig cyfle i greu man cyhoeddus newydd yng nghanol y pentref, gyda golygfeydd tuag at Afon Cresswell a golygfa wedi'i fframio i gyfeiriad tŵr yr eglwys.

**Llwybrau Dethol a Mannau Cyhoeddus** - Mae prif gyfleusterau cyhoeddus Lawrenni wedi'u gwasgaru o amgylch cyrion y pentref. Drwy greu llwybrau newydd i gerddwyr ar hyd y llwybrau dethol sy'n cysylltu'r lleoedd hyn, gallai'r man sydd wrth galon y cynllun newydd greu ffocws newydd ar gyfer bywyd y pentref. 'Sgwâr y Pentref' newydd.

Gweler yr astudiaeth achos lawn yn Adran 5 o'r ddogfen (t102)

**Darllen Pellach:**

- > Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle
- > Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol
- > Place Plans Guidance

## 3.2 Cynllunio ar gyfer gweithgarwch

EGWYDDORION CREU LLEOEDD: **LLEOLIAD** | **SYMUDIAD** | **DEFNYDDIAU CYMYSG**

Un o nodau creu lleoedd yw creu lle ble mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd lleol, gyda pharth cyhoeddus llewyrchus, lle gall pobl gyrraedd lleoedd yn hawdd heb ddibynnu ar gerbydau preifat, a lle gall pobl ddod i adnabod ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau cynllunio cynnar sy'n dechrau penderfynu ar lefel posibl y gweithgaredd mewn lle.

### 3.2.1 Lleoliad

Mae penderfyniadau cynnar ynghylch ble y bydd datblygiad yn digwydd yn hanfodol i'r potensial ar gyfer creu lleoedd. Mae'n rhaid i leoedd newydd feddu ar y potensial ar gyfer cysylltiadau da â lleoedd sy'n bodoli eisoes, neu fod ar raddfa digon sylweddol fel y byddant yn hunangynhaliol ac yn cefnogi bywyd a gweithgaredd. Dylai datblygiadau newydd geisio cefnogi a gwella ansawdd, cysylltedd a hyfywedd lleoedd presennol, yn hytrach na chystadlu yn eu herbyn.

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn hanfodol i greu lleoedd yn llwyddiannus. Dylent adlewyrchu'r cyd-destun lleol, arwain twf ac adfywio, a nodi'r lleoliadau gorau ar gyfer datblygiadau newydd. Dylid integreiddio proses o ddadansoddi a deall y potensial i greu lleoedd mewn lleoliadau penodol â'r weledigaeth a'r broses o ddethol safleoedd. Ceir canllawiau pellach yn yr adran Creu Lleoedd Strategol ym Mholisi Cynllunio Cymru.

**Darllen pellach:**

> Polisi Cynllunio Cymru

> Urban Design Compendium

> Ymddiriedolaethau Natur Cymru: Seilwaith Gwyrdd. Catalydd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

## 3.2.2 Symudiad

Ni fydd lleoedd da yn dibynnu ar ddefnyddio ceir preifat. Dylai preswylwyr a defnyddwyr gael dewis o foddau symud a fydd yn eu galluogi i leihau'r defnydd o geir preifat a'r berchnogaeth ohonynt. Bydd lleihau perchnogaeth a'r defnydd o geir yn helpu i leihau allyriadau carbon, a bydd angen llai o le ar gyfer parcio, gan alluogi strydoedd a mannau o ansawdd gwell a datblygiadau mwy cryno. Dylid galluogi hyn drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo datblygiadau sy'n canolbwyntio ar dramwy a leolir yn agos at ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus dda, a chysylltiadau teithio llesol da.




**Ffigur 7:** Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, Polisi Cynllunio Cymru 10

**Darllen pellach:**

- > Polisi Cynllunio Cymru
- > Manual for Streets
- > Living Streets Resources
- > Teithio Llesol: Canllawiau Dylunio, Llywodraeth Cymru
- > Transport for a Green Recovery, RTPI
- > Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol



**Enghraifft**
Mae Goldsmith Street, Norwich yn ddatblygiad gan Mikhail Riches Architects, a enillodd Gwobr Stirling RIBA 2019. Mae'n cynnwys 50 o dai unigol a 50 o fflatiau ar ddwysedd o 84 o anheddau'r hectar, ond mae gan bob eiddo'i ddrws blaen ei hun ar y stryd a'r uchder mwyaf yw tri llawr. Mae mannau gwyrdd wedi'u hymgorffori, ac maen nhw'n cysylltu â strydoedd a pharc y tu hwnt i'r safle, mae'r lleoedd parcio ar y stryd ac mae'r strydoedd yn 14m o led, sy'n fwriadol gul.

### 3.2.3 Dwysedd

Dylai dwysedd y datblygiad gyfrannu at fàs critigol o bobl i gynnal gwasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae lleoedd dwysach nid yn unig yn ddefnydd mwy effeithlon o dir, ond maen nhw hefyd yn helpu i ddarparu'r màs critigol o bobl i gefnogi parth cyhoeddus mwy bywiog a rhagor o ddefnydd cymysg. Rhaid cynllunio lleoedd dwysedd uwch i fod yn briodol ar gyfer y lleoliad, a does dim rhaid iddynt fod yn adeiladau uchel. Mae terasau, tai tref a blociau isel o fflatiau i gyd yn ddefnyddiol wrth ddatblygu ar ddwysedd uwch, gan sicrhau bod yna ddrysau sy'n agor i'r stryd a pherthynas agos rhwng anheddau a'r strydoedd a'r mannau cyfagos. Bydd y dwyseddau uchaf yn fwyaf priodol mewn lleoliadau sy'n agos at aneddleoedd a/neu leoliadau sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol da iawn.



**Ffigur 8:** Mae adran ganol y diagram hwn yn tynnu sylw at ddatblygiad ar raddfa sy'n gallu cynnig dwyseddau uwch a chynnal lleoedd o safon

Mae'n bwysig darparu digon o fannau amwynder cyhoeddus a phreifat sy'n cynnwys seilwaith gwyrdd a lle i gael y cyfle i wneud ymarfer corff, garddio/tyfu, chwarae a chynnal gweithgareddau cymunedol. Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys defnyddio tir yn effeithlon ar gyfer draenio cynaliadwy, priffyrdd a pharcio. Mae'r agweddau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir cynnal ansawdd bywyd da ar ddwysedd uwch. Gallai mannau gwyrdd a rennir o ansawdd uchel gynnig defnydd mwy priodol a hyblyg o leoedd, lle mae'r cyfleoedd ar gyfer mannau amwynder preifat yn brin.

**Darllen pellach:**

> Urban Design Compendium

## 3.2.4 Defnyddiau cymysg

Enghreifftiau o'r mannau defnydd cymysg arfaethedig





**Enghraifft**

Mae datblygiad defnydd cymysg yn cael ei ddarparu ar lain o dir o tua 43 hectar a oedd wedi'i ddatblygu o'r blaen o amgylch Doc Rhif 1 ar Lannau'r Barri. Mae'r safle wedi'i leoli rhwng canol tref y Barri i'r gogledd-ddwyrain, Ynys y Barri i'r de ac Ardal Gadwraeth yr Hen Harbwr a'r Barri (Morol) i'r de-ddwyrain. Mae mynediad da i feicwyr a cherddwyr o ganol y dref a'r ardaloedd cyfagos, ac mae tair gorsaf reilffordd (Doc y Barri, Tref y Barri ac Ynys y Barri) yn agos at y safle.

Mae'r datblygiad defnydd cymysg yn darparu:

- Tua 1700 o gartrefi teuluol a fflatiau newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy
- Canolfan Ardal Newydd - man masnachol llawr gwaelod ar gyfer bwytai a bariau
- Cyfleusterau Cymunedol - Ysgol Gynradd Newydd, Campws Coleg Caerdydd a'r Fro, Canolfannau Meddygol
- Mannau agored cyhoeddus a hamdden lleol, sy'n cynnwys chwaraeon dŵr
- Defnyddiau manwerthu
- Ailddatblygu Tŷ Pwmp Rhestredig (campfa, fflatiau, bwyty a chaffi/bar)
- Gwesty a bwyty newydd
- Datblygiad defnydd cymysg unedau cynhwysydd yn y Sied Nwyddau

Cyflwynwyd y prif gais amlinellol gan gonsortiwm o 3 adeiladwr tai blaenllaw. Roedd y caniatâd, a roddwyd yn 2012, yn sicrhau'r defnyddiau cymysg i'w cyflawni ochr yn ochr â'r datblygiad preswyl yn unol ag amodau cynllunio a rhwymedigaethau cynllunio adran 106. Roedd y rhain yn gofyn am fwy na dim ond neilltuo'r tir at ddibenion masnachol, a fyddai'n dibynnu ar fuddsoddi hapfasnachol ar y farchnad. Yn hytrach, defnyddiwyd elfen breswyl y cynllun i ddarparu cymhorthdal ar gyfer gosod unedau masnachol ar y safle mewn Canolfan Ardal a fyddai'n cael ei hadeiladu yn unol â manyleb 'cragen a chraidd' a'i marchnata cyn dyddiad sbarduno cytunedig, gan gyfyngu ar feddiannu unedau tai ychwanegol. Drwy gydol y gwaith adeiladu, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos â'r datblygwyr i sicrhau bod y defnyddiau cymysg hyn, sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r tai ar y safle. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol rôl bwysig o ran cynnal uniondeb elfen defnyddiau cymysg y datblygiad, a sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni.


Yn Ardal ehangach y Glannau, mae'r Cyngor wedi bod mewn partneriaeth â datblygwyr ac eraill i sicrhau amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys gwesty, bwytai, campfa, caffis, bariau, siopau, man hamdden a swyddfeydd. Mae cynlluniau ar gyfer datblygu Campws Coleg ac ysgol gynradd yn mynd rhagddynt yn dda.

Delweddau: Canolfan Ardal Glannau'r Barri (cyfeirnod cynllunio 2017/01356/RES).

Dylid osgoi ardaloedd defnydd sengl o blaid defnyddiau cymysg wedi'u hintegreiddio'n dda, sy'n darparu cartrefi, swyddi, seilwaith cymdeithasol, siopau a gwasanaethau y gellir cerdded iddynt yn hawdd, gyda chysylltiadau beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn helpu i greu bywiogrwydd drwy gydol y dydd, yn cefnogi parth cyhoeddus prysur, ac yn darparu cyfle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol sydd â manteision o ran llesiant. Dylid annog busnesau lleol, annibynnol i gefnogi lleoedd sydd â hunaniaeth unigryw.

Dylai datblygiadau newydd ystyried y ddarpariaeth bresennol o siopau a gwasanaethau yn yr ardal, yn ogystal â'r angen lleol. Mewn rhai lleoliadau ac ar gyfer datblygiadau llai, gall yr ystod o ddefnyddiau posibl fod yn gyfyngedig, felly mae'n bwysig eu bod wedi'u lleoli i sicrhau'r budd mwyaf posibl. Er enghraifft, mae ysgol yn cynhyrchu gweithgareddau, yn enwedig os yw'n darparu ar gyfer defnyddiau cymunedol eraill hefyd. Mae lleoli'r ysgol yng nghanol y gymuned neu rhwng cymuned newydd ac un sy'n bodoli eisoes, yn gallu helpu i greu gweithgaredd ac uno'r cymunedau.

Dylid defnyddio defnyddiau graddfa fach hyd yn oed i sicrhau'r budd mwyaf posibl. Er enghraifft, gall blwch post, safle bws a mainc, os ydynt wedi'u cynllunio a'u lleoli'n dda, ffurfio man achlysurol lle gall pobl ryngweithio â'i gilydd.



**Ffigur 9:** Gall ystyriaeth a threfniant gofalus o ran elfennau cymdogaeth cyffredin helpu i greu lle dymunol a allai gefnogi rhyngweithio cymdeithasol

**Darllen pellach:**

- > Urban Design Compendium
- > High Streets Task Force





Ar y brig ar y chwith: Unedau byw/gweithio. Ar y brig ar y dde: Man canolog a rennir. Uchod: Yr Olygfa o'r Gogledd

**Enghraifft**

Mae The Paintworks yn gynllun preswyl a masnachol defnydd cymysg, ar safle tir llwyd sy'n edrych dros Afon Avon ym Mryste. Mae'n cynnwys 210 o gartrefi a fflatiau, 11 uned fyw-gweithio, a 6700 metr sgwâr o fannau masnachol. Mae'r datblygiad wedi'i adeiladu ar bodiwm, sy'n caniatáu i rwydwaith o strydoedd cerddwyr, llwybrau, sgwariau cyhoeddus a chyrtiau i wasanaethu'r defnyddiau preswyl a gwaith.

Er mwyn creu cymuned amrywiol a chynaliadwy, mae'r datblygiad yn darparu ystod eang o wahanol fathau o dai, deiliadaethau a meintiau, sy'n cynnwys unedau byw-gweithio a llety fforddiadwy ar rent. Mae natur defnydd cymysg y cynllun yn creu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer cyfleusterau, yn cynnwys siopau a chaffis, yn ogystal â mannau masnachol. Mae mannau awyr agored wedi'u gosod yn ofalus er mwyn rhoi'r budd mwyaf posibl i breswylwyr a gweithwyr fel ei gilydd. Mae'r defnyddiau cymysg yn darparu defnydd 24/7 o'r datblygiad, gyda busnesau bach wedi ymsefydlu mewn cymuned leol.

Gweler yr astudiaeth achos lawn yn Adran 5 o'r ddogfen (t82)

### 3.2.5 Cymysgedd o fathau preswyl

Dylid hyrwyddo cymysgedd o ddeiliadaethau, mathau o dai a meintiau tai i gynnal cymuned amrywiol ac atal gwahanu neu ynysu. Gall cyd-letya, hunan-adeiladu ac adeiladu ar archeb helpu i hyrwyddo mwy o berchnogaeth ar le. Mae cymysgedd o breswylwyr yn gallu helpu i gynnal amrywiaeth o weithgareddau cymunedol a pharth cyhoeddus bywiog. Dylai pob preswylydd gael mynediad at barciau a mannau cyhoeddus.



**Ffigur 10:** Gellir darparu ar gyfer gwahanol fathau a meintiau preswyl mewn stryd, i helpu i gefnogi cymuned gymysg

### 3.2.6 Lloriau gwaelod bywiog

Mae'r rhyngweithio rhwng y defnyddiau mewn adeilad a pharth cyhoeddus yn hanfodol i gefnogi mannau bywiog, cyfforddus a diogel. Dylid hyrwyddo ffenestri a drysau blaen sy'n agor ar y stryd i ddarparu gweithgaredd a gwyliadwriaeth naturiol. O ran datblygiadau defnydd cymysg, dylai defnyddiau llawr gwaelod gweithredol integreiddio'n gadarnhaol â'r parth cyhoeddus. Ni fydd gweithgaredd dwysedd uchel yn bosibl nac yn ddymunol ym mhob ardal, ond dylid ei dargedu i gefnogi ac elwa ar fannau sydd â mwy o ddefnydd a bywyd cyhoeddus. Mewn ardaloedd eraill, gall blaen stryd tawelach fod yn fwy priodol, ond mae goruchwyliaeth naturiol yn dal i fod yn bwysig.



**Ffigur 11:** Mae defnyddiau llawr gwaelod gweithredol yn help i fywiocáu'r stryd

**Darllen Pellach:**

> Secured by Design

## 3.3 Sefydlu'r ffurf ffisegol

EGWYDDORION CREU LLEOEDD: **Y PARTH CYHOEDDUS** | **HUNANIAETH**

Mae creu lleoedd yn creu neu'n nodi mannau lle gellir cynnal bywyd cymunedol a rhyngweithio cymdeithasol. Mae angen digon o ofod cyhoeddus wedi'i leoli'n dda ac wedi'i gynllunio'n dda i gynnal bywyd lle, rhoi'r cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd a datblygu ymdeimlad o gymuned. Er mwyn cefnogi hunaniaeth y lle, dylai'r mannau hyn fod yn unigryw o ran eu dyluniad, ac adlewyrchu eu lleoliad, eu hanes a/neu eu diwylliant.

### 3.3.1 Strydoedd


Mae dyluniad y strydoedd mewn lleoedd newydd neu leoedd sy'n bodoli eisoes yn hanfodol bwysig. Dylid hyrwyddo 'gwerth lle' strydoedd a lleihau effaith cerbydau. Dylai cynllun a dyluniad strydoedd hyrwyddo teithio llesol, cysylltedd a manteisio ar gyfleoedd gorsafoedd a safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus. Mae integreiddio tirwedd a seilwaith gwyrdd, gan gynnwys draenio cynaliadwy, i strydoedd yn gallu cyfrannu at gymeriad y stryd yn ychwanegol at fanteision amgylcheddol.

Mae angen ystyried parcio ochr yn ochr â dyluniad strydoedd a mannau. Dylai nifer y mannau parcio fod yn briodol i leoliad a natur y datblygiad. Dylid ystyried mesurau i leihau nifer y lleoedd sydd eu hangen, yn ogystal â chysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, fel clybiau ceir. Dylid ystyried cymysgedd o drefniadau parcio gan gynnwys ar y stryd, ar y plot, cyrtiau parcio bach a garejis/cysgodfannau ceir er mwyn atal cerbydau rhag dominyddu strydoedd a mannau, a chaniatáu parhad o ran blaenau strydoedd.

Mae newidiadau i strydoedd presennol yn gallu darparu'r cyfle i wella'r lleoedd maen nhw'n mynd drwyddynt. Dylai gwelliannau i strydoedd gynnwys blaenoriaethu trafnidiaeth gyhoeddus, a dylai gwelliannau i'r tirwedd caled a meddal, ac ystyried ymylon a throthwyon ategu teithio llesol.



**Ffigur 12:** Enghreifftiau o strydoedd preswyl sy'n cyfrannu at hunaniaeth y lle – Loftus Garden Village, Casnewydd (Ch) a Grangetown, Caerdydd (Dd)3




**Ffigur 13:** Enghraifft esboniadol o sut y gall dylunio strydoedd a gwaith parth cyhoeddus helpu i drawsnewid lle i symud cerbydau yn lle i bobl

**Darllen pellach:**

> Manual for Streets

> Building for a Healthy Life

> Agor Strydoedd ar gyfer Chwarae

> Secured by Design

### 3.3.2 Mannau cyhoeddus

Mannau cyhoeddus yw'r mannau ble mae bywyd cyhoeddus lle yn cael ei gynnal a lle gall rhyngweithio cymdeithasol hanfodol ddigwydd. Dylid ystyried bod pob math o fannau cyhoeddus yn werthfawr wrth greu lleoedd, gan gynnwys sgwariau, parciau, corneli strydoedd, griniau pentrefi, mannau tyfu a rennir, neu goetiroedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Dylid dylunio mannau cyhoeddus mewn ymateb i'r anghenion a'r cyfleoedd a ganfuwyd yn y gymuned, ac i'r asesiad o bwy fydd yn defnyddio'r lle. Mae ansawdd ac amlder mannau gwyrdd yn aml yn bwysicach i lesiant ac ansawdd yr amgylchedd na chyfanswm cyffredinol y mannau. Dylid integreiddio egwyddorion dylunio trefol da â dylunio tirwedd er mwyn creu amgylcheddau diogel, cyfforddus a chroesawgar.

Dylid darparu parciau a mannau chwarae mewn lleoliadau priodol, ond ni ddylid cyfyngu'r potensial ar gyfer chwarae aml-genhedlaeth i fannau chwarae dynodedig yn unig; yn wir, efallai na fydd angen mannau chwarae penodol o gwbl. Os yw pob man cyhoeddus wedi'i gynllunio i fod yn addas i blant, gallant ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan bob aelod o'r gymuned.

Ni ddylai seilwaith gwyrdd fod yn ôl-ystyriaeth, dylid ei ystyried ar gam cynnar, strategol, a'i integreiddio ar bob graddfa gan gynnwys mewn strydoedd. Dylid mynd i'r afael yn gadarnhaol â chyfleoedd i integreiddio gofynion systemau draenio cynaliadwy (SDCau) a gwella bioamrywiaeth, gyda mewnbwn gan arbenigwyr proffesiynol yn integreiddio â thirffurfiau'r datblygiad i greu llif o seilwaith gwyrdd drwy'r safle. Dylid manteisio ar bob cyfle i integreiddio SDCau â dylunio tirwedd i gynnal llwybrau teithio llesol, cyfleoedd chwarae a chelf gyhoeddus i greu seilwaith gwyrdd unigryw, deniadol a defnyddiadwy sy'n gwella'r ymdeimlad o le.

Mae cynnal a chadw yn ystyriaeth bwysig wrth ddylunio'r parth cyhoeddus, ond ni ddylai fod yn ffactor sy'n cyfyngu'n sylfaenol ar ddarparu parth cyhoeddus o ansawdd uchel. Mae ystyriaeth gynnar o gynigion tirwedd a seilwaith gwyrdd a rheolaeth hirdymor, gyda chefnogaeth pensaer tirwedd, yn hanfodol ar gyfer creu cynllun cynaliadwy gyda gwaith cynnal a chadw hylaw a chost-effeithiol. Dylid archwilio cyfleoedd i gynnwys y gymuned mewn rheoli a chynnal a chadw drwy ymgysylltu'n gynnar â'r gymuned, a thrwy gydlynu parhaus. Dylid osgoi ffioedd rheoli gormodol. Rhaid cydlynu cyfundrefnau cynnal a chadw gan awdurdod lleol, corff cymeradwyo SDCau (SAB), ac unrhyw gwmni preifat neu gymunedol yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod ansawdd cyffredinol y lle yn cael ei gynnal.

**Darllen pellach:**

- Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (TAN 12)
- Urban Design Compendium
- Pecyn Cymorth Creu Mannau Chwarae Hygyrch, Chwarae Cymru
- Secured by Design
- Understanding and Supporting the Play Experience in Cities, RTPI, 2019
- Building with Nature
- Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy




**Enghraifft**

Mae Loftus Garden Village yn ddatblygiad o 250 o gartrefi yng Nghasnewydd, De Cymru. Fe'i datblygwyd gan Pobl, sef landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae'n cynnwys cymysgedd o eiddo 1,2,3 a 4 ystafell wely, gyda 60% wedi'u cadw fel cartrefi fforddiadwy.

Un o egwyddorion dylunio allweddol y cynllun oedd creu tirwedd cynaliadwy sy'n chwarae rhan flaenllaw wrth ddiffinio cymeriad y datblygiad, ac sy'n rhoi pwyslais ar fanteision cymdeithasol ac ecolegol. Y weledigaeth ar gyfer y safle oedd 'Pentref Gardd', a oedd, yn unol â'r mudiad Garden City gwreiddiol, yn ceisio dwyn ynghyd y goreuon o weithgareddau'r dref a harddwch cefn gwlad.

Mae'r cynllun yn cynnwys dau barc, dwy ardd lysiau a strydoedd gwyrdd, sy'n cynnwys coed stryd ac ymylon gwyrdd, y mae pob un ohonynt wedi'u cynllunio i gael rôl gymdeithasol yn y datblygiad. Mae'r mannau'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys mannau i symud ar hyd llwybrau dethol ac fel llwybrau hamdden/cerdded cŵn, eistedd, ymlacio, chwarae, garddio cymunedol, digwyddiadau grŵp neu ddysgu.

Mae gan denantiaid y rhan cydweithfa dai o'r datblygiad gytundeb rheoli gyda Pobl i reoli rhai gwasanaethau tai, yn cynnwys cynnal a chadw mannau agored cymunedol ar draws y pentref gardd.

Gweler yr astudiaeth achos lawn yn Adran 5 o'r ddogfen (t52)

### 3.3.3 Cymeriad

Dylai'r adeiladau a'r strwythurau sy'n rhan o le fframio'r strydoedd a'r mannau gwag, a chyfrannu at gymeriad y lle. Dylai'r dull pensaernïol ystyried sut i ymateb i gymeriad presennol neu hanesyddol lle, cyflwr y safle, nodau a gweledigaeth y datblygiad arfaethedig, a'r uchelgeisiau o ran cynaliadwyedd amgylcheddol. Gellir mynegi cymeriad trwy gyfrwng ffurf, graddfa, cyfrannau, deunyddiau, manylion a chyfleoedd ar gyfer personoli.





**Enghraifft**

Mae Gorsaf Bwmpio'r Barri, a adeiladwyd yn ystod y 1880au, wedi'i hadnewyddu a'i hailddatblygu'n gynllun defnydd cymysg ffyniannus sy'n cynnwys bwyty, campfa, siop goffi a 15 o fflatiau byw-gweithio. Ystyriwyd bod yr ardal allanol yn gyfle i greu darn pwysig o barth cyhoeddus o flaen yr adeilad, oedd yn briodol i, ac yn gysylltiedig â gorffennol diwydiannol yr adeilad.

Mae'r Pump House yn Adeilad Rhestredig Gradd II, ac yn dirnod lleol pwysig gyda'i simnai 42 fetr fawreddog. Canolbwyntiodd y tîm dylunio ar weithio gyda'r strwythur presennol a'i gadw fel ag yr oedd lle bynnag y gallent, gyda'r ailddatblygu yn digwydd o fewn cyfyngiadau'r llinell doeau a'r agoriadau ffenestri presennol. Roedd y tîm dylunio'n awyddus i ganiatáu i'r adeilad sefydlu a dylanwadu ar y lle terfynol, yn hytrach na diwygio'r adeilad i gydweddu â'r defnyddiau bwriadedig. Roedd ymyriadau sensitif yn caniatáu i'r defnydd newydd o'r adeilad eistedd o fewn yr adeiledd presennol a mwynhau mannau gwag a chymeriad yr adeilad.

Gweler yr astudiaeth achos lawn yn Adran 5 o'r ddogfen (t73)

Fel yr amlygwyd yn yr adran flaenorol, mae'r strydoedd a pharth cyhoeddus yn cyfrannu'n sylweddol hefyd at gymeriad lle, a dylent weithio mewn harmoni â'r adeiladau, y tirwedd a'r nodweddion naturiol i helpu i greu natur unigryw.

**Darllen pellach:**

> Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (TAN 12)

> Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle

> Urban Design Compendium

> Egwyddorion Cadwraeth, Cadw

> Nodweddion Hanesyddol, Cadw

> Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru

> LANDMAP, Cyfoeth Naturiol Cymru

> Countryside Agency and Scottish Natural Heritage, 2002. Landscape Character Assessment.

## 3.4 Cefnogi ystyr

EGWYDDORION CREU LLEOEDD: **POBL A CHYMUNED** | **HUNANIAETH**

Mae'r ystyr sy'n gysylltiedig â lle yn datblygu ac yn newid dros amser. Mae amrywiaeth o ffyrdd o gefnogi datblygiad ystyr ac ymdeimlad o gysylltiad â lle. Mae mentrau sy'n dod â gweithgareddau i fannau yn rhan bwysig o greu lleoedd. Mae hyn yn gallu amrywio o ddigwyddiadau cyhoeddus graddfa fawr, i ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol graddfa fach fel strydoedd chwarae neu erddi cymunedol.

### 3.4.1 Digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u rhaglennu

Mae digwyddiadau yn y parth cyhoeddus yn ffordd dda o ddod â phobl at ei gilydd, a gallant helpu i adfywio mannau cyhoeddus presennol ac bywiogi mannau cyhoeddus newydd. Gallant gynnwys ystod eang o ddefnyddiau untro, rheolaidd neu barhaol fel marchnadoedd, gwerthwyr stryd, strydoedd chwarae, neu berfformwyr stryd. Dylid ystyried digwyddiadau i ysgogi gweithgareddau mewn man, ochr yn ochr â'r defnydd o'r man o ddydd i ddydd, a bod yn hyblyg i ganiatáu i'r man ymaddasu.

**Darllen pellach:**

> Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd






**Enghraifft**

Sefydlwyd y prosiect Playing Out gan gymdogion o Fryste, Alice Ferguson ac Amy Rose, a ddechreuodd drwy hwyluso sesiynau Playing Out yn eu stryd eu hunain. Mae Playing Out bellach yn gwmni buddiannau cymunedol. Eu gweledigaeth yw bod plant ar draws y DU yn gallu chwarae'n ddiogel ar y strydoedd lle maen nhw'n byw.

Mae ffordd breswyl yn cael ei chau i draffig yn ystod digwyddiad chwarae allan, i sicrhau diogelwch a rhyddid i'r cyfranogwyr symud; mae rhieni a gofalwyr yn gyfrifol am eu plant eu hunain. Mae'r pwyslais ar chwarae rhydd, distrwythur ac fel arfer, mae pobl yn dod â'u teganau eu hunain fel rhaffau sgipio, beiciau a sgwteri. Mae'r plant yn cael y lle a'r caniatâd i chwarae ar y stryd, tra bod oedolion yn cael cyfle i gyfarfod a dod i adnabod eu cymdogion yn well a chael profiad o stryd heb geir. Bwriedir iddo fod yn sbardun i adfer chwarae ar y stryd fel rhan arferol ac iach o fywyd bob dydd yn ein dinasoedd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/prosiectaustrydoedd

### 3.4.2 Mentrau dan arweiniad y gymuned

Ni ddylid anwybyddu gwerth mentrau llai dan arweiniad y gymuned. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi datblygu cymunedol, a gallant gysylltu'n uniongyrchol â gwelliannau yn yr amgylchedd adeiledig ac â gallu'r gymuned i ofalu am gynnal y parth gyhoeddus.





**Enghraifft**

Marchnad stryd fisol yw Marchnad yr Uplands, sy'n gwerthu amrywiaeth o gynnyrch Cymreig gan gynnwys eitemau wedi'u gwneud â llaw a bwyd ffres.

Cychwynnwyd y fenter gan yr asiantaeth adfywio, Urban Foundry, yn 2013 gyda'r nod o ddangos rhinweddau mannau cyhoeddus mewn ardal sy'n cael ei rheoli gan geir fel arfer. Sefydlwyd a chynhaliwyd y farchnad gyda'r ffocws ar werthwyr crefftau o ansawdd uchel a fyddai'n helpu i wella arlwy diwylliannol yr ardal a chynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant ar fusnesau lleol, sy'n hybu bywiogrwydd economaidd-gymdeithasol. Ers hynny, mae 'trefoli dros dro' yn derm sydd wedi cael ei fathu ar gyfer mentrau o'r fath.

Gweithiodd Urban Foundry gyda grŵp o bobl leol, gan gynnwys busnesau lleol, Cynghorwyr lleol ac aelodau o'r gymuned, i greu'r farchnad. Yn ystod y broses ymgynghori, bu ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol, y gwahanol asiantaethau statudol, darpar stondinwyr, a'r gymuned leol, a ffurfiwyd menter gymdeithasol i gyflwyno'r fenter.

Roedd Marchnad yr Uplands yn llwyddiant ysgubol o'r dechrau – dyblodd o ran maint o fewn ei mis cyntaf, ac mae'n denu cannoedd o siopwyr bob mis. Mae'r diwrnod marchnad bellach yn nodwedd gadarn o'r ardal leol – mae'n cyfrannu at greu cyffro yn yr ardal, gyda manwerthwyr lleol yn adrodd am gynnydd sylweddol i'w masnach. Rhestrwyd y farchnad fel un o'r 10 prif farchnad stryd yn y DU ac ers hynny, mae'r fenter wedi datblygu i sefydlu marchnadoedd misol rheolaidd ym Marina Abertawe ac yn y Mwmbwls, Port Talbot a Glyn-nedd, marchnad fwyd stryd yn nau gampws Prifysgol Abertawe, ynghyd â llu o ddigwyddiadau untro eraill.

Fe wnaeth y fenter greu menter gymdeithasol gynaliadwy, sydd wedi creu swydd amser llawn i fyfyriwr newydd raddio, ac sy'n darparu man i gynhyrchwyr crefftau werthu eu nwyddau. Mae'n gweithredu heb gymhorthdal, yn gyfan gwbl o'r incwm a enillir. Yn ogystal, mae'n parhau i lwyddo fel mecanwaith sy'n bywiocáu mannau cyhoeddus ac yn eu (hail)greu fel lleoedd pobl, lle mae cymunedau lleol yn dod at ei gilydd bob mis, ac mae hynny'n helpu i hybu bywiogrwydd cymdeithasol a masnachol y stryd siopa leol yn yr Uplands.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.uplandsmarket.com/

### 3.4.3 Celf gyhoeddus

Ni fydd gosodiadau celf ar eu pen eu hun yn creu lleoedd gwych. Fodd bynnag, mae ymgysylltu ag artistiaid i nodi a chynnal rhaglen integredig o fentrau yn gallu ychwanegu gwerth sylweddol at ddatblygiad, a chreu'r cyfle i gynnwys y gymuned yn ystyrlon, yn ogystal â gwella hunaniaeth a'r ymdeimlad o berchnogaeth.



**Ffigur 14:** Enghraifft o gelf gyhoeddus yn Ashlands, Portishead, lle bu Strategaeth Gelf Gyhoeddus a Grŵp Llywio Celf Gyhoeddus yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o osodiadau

## 3.5 Addasu dros amser

Bydd lleoedd yn newid yn gyson, ac mae angen iddynt fod yn ddigon cadarn i addasu dros amser. Y lleoedd sydd yn cael eu creu heddiw fydd etifeddiaeth cenedlaethau'r dyfodol. Gall y ffordd mae strydoedd a mannau'n cael eu defnyddio gan y gymuned newid, a dylai eu ffurf ffisegol fod yn gadarn ac yn hyblyg i ganiatáu ar gyfer hyn. Wrth i bobl ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn mewn lle, bydd cyfleoedd i fynegi hyn yn ffisegol yn helpu i wella hunaniaeth y lle. Mae hyn yn gallu bod o fewn eiddo, gerddi blaen neu fan cyhoeddus.

Dylid cynllunio a dylunio lleoedd i fod yn wydn ac yn ymatebol i newid, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys integreiddio seilwaith gwyrdd, tirwedd sy'n ymateb i'r hinsawdd, mesurau sy'n ymateb i lifogydd, ac ecosystemau gwydn, ond hefyd, sicrhau bod y seilwaith cymunedol yn ei le i alluogi cymunedau i ddarparu cymorth yn wyneb her.

Mae cartrefi a mannau gwaith hyblyg, a lle sy'n caniatáu'r cyfle i ehangu a'r hyblygrwydd i grebachu, yn bwysig yng nghyd-destun patrymau gweithio a byw newidiol. Mae cael y cyfle i aros mewn eiddo neu gymdogaeth sy'n gallu ymaddasu, yn hytrach na gorfod symud, yn helpu i greu cymuned gryfach.

**Darllen pellach:**

> Plan the World we Need, RTPI, 2020

## 3.6 Sgiliau creu lleoedd

Nid rôl na chyfrifoldeb unrhyw un proffesiwn neu grŵp yw creu lleoedd. Mae'n aml yn ymwneud ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yr amgylchedd adeiledig, sy'n cynnwys dylunwyr trefol, cynllunwyr, penseiri, penseiri tirwedd, datblygwyr, cynllunwyr trafnidiaeth, peirianwyr priffyrdd ac ecolegwyr, yn ogystal â'r gymuned leol. Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â llunio'r amgylchedd adeiledig fod yn ymrwymedig i greu lleoedd, ac weithio gyda'i gilydd ac yn greadigol i gyflawni hyn. Mae cydweithio ar draws disgyblaethau'n hanfodol ar gyfer creu lleoedd.

Mewn rhai achosion, bydd mentrau creu lleoedd yn cael eu cychwyn gan y gymuned, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Efallai y bydd gan adrannau cynllunio neu adfywio awdurdodau lleol rôl i'w chwarae o ran cefnogi a galluogi'r broses. Mewn achosion eraill, yn enwedig ar gyfer datblygiadau mawr, bydd y broses yn cynnwys y sector cyhoeddus a phreifat, a dylai amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a'r awdurdod cynllunio lleol weithredu fel gwarcheidwaid a hyrwyddwyr creu lleoedd.

Mae gan y gymuned rôl bwysig i'w chwarae, ond efallai y bydd angen sgiliau ac adnoddau penodol i helpu i ysgogi egni a syniadau'r gymuned. Felly, gall arbenigwyr sy'n ymgysylltu â'r gymuned wneud cyfraniad pwysig weithiau. Yn y tymor hir, dylid annog a galluogi'r gymuned i gyfrannu at ofalu am y lle a'i gynnal.

**Darllen pellach:**

> Enabling Healthy Placemaking, RTPI, 2020

> Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau

> Healthy Placemaking, Design Council, 2018






**Enghraifft**

Yn 2012, cynigiodd trigolion Grangetown yng Nghaerdydd adnewyddu pafiliwn bowlio gwag a grîn fowlio oedd yn dirywio'n gyflym mewn parc lleol poblogaidd. Cafodd partneriaeth rhwng grwpiau trigolion, Prosiect Pafiliwn Grange, Gweithredu Cymunedol Grangetown a Phorth Cymunedol Prifysgol Caerdydd ei ffurfioli yn 2014, i brofi syniadau'r preswylwyr ar gyfer ailddatblygu Pafiliwn a Grîn y Grange fel lle sy'n eiddo i'r gymuned.

Fel ardal fwyaf amrywiol Cymru o ran ethnigrwydd, cryfder Grangetown, yn ôl y trigolion, oedd ei hamrywiaeth a'i hymdeimlad o gymuned, a nodwyd yr awydd am fan lle gallai nifer o gymunedau ddod at ei gilydd, ond tynnwyd sylw at yr heriau enbyd hefyd, yn cynnwys diffyg amwynderau caffi/toiledau mewn parciau cymdogaeth poblogaidd, y prinder mannau gwyrdd ar gyfer ysgolion tirgloëdig, a'r heriau ehangach a amlygwyd gan safle'r ardal yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog.

Pan sicrhawyd trwydded dros dro yn 2016, galluogwyd dros 3,000 o drigolion i ddefnyddio Pafiliwn a Grîn y Grange. Ers hynny, mae dros 150 o fentrau a awgrymwyd ac a arweiniwyd gan drigolion Grangetown wedi mynd yn eu blaen, gan gynnwys clybiau gwaith cartref, Fforwm Ieuenctid Grangetown, gardd gymunedol, cefnogaeth iechyd meddwl gan gymheiriaid, caffi technoleg, therapi celf, grŵp ffrindiau a chymdogion, hyfforddiant criced a phêl-droed gyda mentora gan gymheiriaid, a sesiynau chwarae.

Lansiwyd gweithgareddau awyr agored a mentrau gwyrdd drwy bartneriaethau ag amrywiaeth o sefydliadau lleol a chenedlaethol. Mae digwyddiadau untro a blynyddol wedi helpu i fywiogi Pafiliwn y Grange a phrofi ei hyfywedd ar gyfer ailddatblygu dan berchnogaeth gymunedol hirdymor.

Arweiniodd y digwyddiadau datblygu partneriaeth hyn at ffurfio Sefydliad Corfforedig Elusennol Pafiliwn y Grange (SCE), sefydliad ag aelodaeth breswyl o 60% gyda chymorth trefniadol gan Brifysgol Caerdydd, Coleg Caerdydd a'r Fro, Tai Taf, RSPB Cymru a Chlwb Rotari Bae Caerdydd. Mae SCE Pafiliwn y Grange wedi sicrhau Prydles 99 mlynedd a gyda'i gilydd, maen nhw wedi codi £1.9 miliwn gan amrywiaeth o gyllidwyr. Gan weithio gyda'r penseiri Dan Benham ac IBI Group, bydd gan y Pafiliwn y Grange ailgynlluniedig dri man mawr y gellir eu bwcio at ddefnydd y gymuned, caffi dan arweiniad busnes lleol, toiledau cyhoeddus, ystafell ddosbarth awyr agored, a thirwedd sy'n cynnwys man digwyddiadau awyr agored, gerddi glaw a draenio trefol cynaliadwy, gwelyau uchel, a gardd a pherllan beillio.

Ers 2013, mae dros 680 o fyfyrwyr Pensaernïaeth israddedig ac ôl-raddedig, yn ogystal â myfyrwyr a staff Busnes, Cynllunio a Daearyddiaeth, Meddygaeth, Gwyddorau Gofal Iechyd, Gwyddorau Cymdeithasol, Athroniaeth a Newyddiaduraeth, wedi cydweithio â'r Porth Cymunedol i gefnogi ailddatblygu Pafiliwn y Grange fel rhan o'u hymchwil a'u dysgu.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: https://www.cardiff.ac.uk/cy/community-gateway/our-projects/community-meeting-places/grange-gardens-bowls-pavilion

## 3.7 Cost a gwerth creu lleoedd

Nid yw creu lleoedd yn rhywbeth ychwanegol sy'n costio mwy o arian mewn datblygiad – mae'n ddull cynhwysfawr o gynllunio a dylunio lleoedd sy'n cynnwys yr holl ystyriaethau am yr hyn sy'n creu lle gwych, ac a fydd yn gwneud y cyfraniad gorau a mwyaf arwyddocaol at ansawdd y lle ar gam cynnar. Os ymgymerir â'r broses hon, nid oes rheswm i greu lleoedd gostio mwy o arian, ond mae'n bwysig caniatáu amser ar gyfer cynllunio, dylunio ac ymgysylltu. Pan fo'n berthnasol, gellir defnyddio'r gofynion ar gyfer mannau agored, SDCau, teithio llesol ac addysg cysylltiedig â datblygiad yn greadigol ac yn effeithiol, i gyfrannu at greu lleoedd. Fodd bynnag, gall mwy o wariant mewn rhai meysydd gyflwyno manteision sylweddol o ran ansawdd y lle, ac iechyd a lles y gymuned.

Rhoddir amlinelliad o rai o fanteision creu lleoedd yn nhermau gwerth yn Adran 4 y canllaw hwn. Nid yw rhai o'r manteision o ran cost o reidrwydd yn cael eu cyflawni ar unwaith, fel manteision iechyd sy'n lleihau cost gofal iechyd. Felly, dylid defnyddio dull hirdymor a chydweithredol yn unol â ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gweithio ar draws disgyblaethau ac ar draws adrannau awdurdodau lleol yn cyflwyno'r gwerth mwyaf i brosiect. Dylai penderfyniadau strategol pwysig fel buddsoddi mewn addysg, iechyd, trafnidiaeth a gwasanaethau cymunedol, a lleoliad y rhain, ganolbwyntio ar greu lleoedd, gan fod gan hyn y potensial i effeithio'n sylweddol ar y gweithgaredd mewn lle, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol.



# 4 Pam bod creu lleoedd yn bwysig

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# 4. Pam bod creu lleoedd yn bwysig

Mae egwyddorion creu lleoedd yn helpu i greu a chynnal lleoedd gwell. Mae pwysigrwydd creu lleoedd yn cael ei ganfod yn y manteision y gall eu cynnig a'r heriau y gall eu hosgoi. Mae creu lleoedd yn hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, datblygiadau defnydd cymysg, mannau cyhoeddus, seilwaith cymunedol a hunaniaeth, sy'n gallu cael effaith bositif ar bobl a'r blaned, ac ar werth ariannol datblygiad neu ardal leol. Mae'r tabl canlynol yn nodi rhai o'r manteision allweddol y gall gwahanol agweddau ar greu lleoedd eu cynnig. Mae'n gipolwg ar ymchwil a thystiolaeth sy'n datblygu ac yn tyfu'n barhaus.

**Tabl 2:** Manteision creu lleoedd

| Egwyddor creu lle | Pobl | Y blaned | Gwerth Ariannol |
|---|---|---|---|
| **Pobl a'r Gymuned** | Mae cael mynediad at gyfleusterau cymunedol yn gallu helpu lles pobl a'u hymdeimlad o berthyn, helpu pobl i ffynnu a lleihau unigrwydd ac ynysu.<br><br>Mae cynnwys y gymuned leol mewn datblygiadau newydd yn gallu creu perchnogaeth, perthyn a chysylltiad â lle.<br><br>Mae cynnwys pobl sydd yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain, yn sicrhau bod yr holl anghenion a safbwyntiau gwahanol yn helpu i lywio penderfyniadau | Mae lleoli ysgolion, meysydd chwarae, parciau a chyfleusterau gofal iechyd o fewn pellter cerdded, pellter beicio neu daith ar drafnidiaeth gyhoeddus o breswylfeydd, yn gallu helpu i leihau allyriadau carbon, gan fydd pobl yn llai tebygol o yrru rhwng eu cartrefi a'r amwynderau hyn. | Mae ysgolion sy'n agos at gartrefi newydd yn denu darpar brynwyr, yn ogystal â chynyddu nifer yr ymwelwyr mewn ardal. Mae dylunio a chyflwyno parth cyhoeddus o ansawdd uchel yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r ardal hefyd.<br><br>Mae cynnwys y gymuned leol yn caniatáu i'r datblygiad fod yn fwy cydnaws ag anghenion y gymuned, a allai arbed arian dros amser.<br><br>Mae integreiddio gwahanol agweddau ar ddatblygiad fel tai, trafnidiaeth, addysg o dan ymbarél creu lleoedd, yn gallu helpu cyrff cyhoeddus i arbed adnoddau. |

| Egwyddor creu lle | Pobl | Y blaned | Gwerth Ariannol |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad** | Mae lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda yn cefnogi ac yn gwella cymunedau sy'n bodoli eisoes.<br><br>MMae cael lleoedd diogel a dymunol i'w cyrraedd ar droed, gan gynnwys cyfleusterau hamdden, mannau agored, siopau a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn golygu bod gan bobl hŷn lefelau uwch o weithgaredd corfforol.[2] | Mae creu lleoedd yn defnyddio tir yn effeithlon.<br><br>Mae lleoli datblygiadau mewn mannau sydd â chysylltiadau da yn lleihau'r angen am deithio.<br><br>Gall creu cymdogaethau traffig isel helpu i leihau'r defnydd o geir. Gall traffig sydd wedi'i ddadleoli ddiflannu'n llwyr o ardal, wrth i yrwyr addasu llwybrau ac ymddygiad, fel osgoi'r ardal, defnyddio mathau gwahanol o drafnidiaeth, neu hyd yn oed ganslo teithiau.[3]<br><br>Mae lleoliad datblygiadau yn gallu lleihau difrod i'r amgylchedd naturiol.<br><br>Bydd ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes yn helpu i leihau'r 126 miliwn o dunelli o wastraff adeiladu yn y DU bob blwyddyn.[4] | Mae creu lleoedd yn creu mannau sydd â chysylltiadau da, ac yn cefnogi canolfannau sy'n bodoli eisoes, sy'n golygu llai o seilwaith priffyrdd, sy'n arwain i gostau is. |
| **Symudiad**<br>Cerdded | Dywedir bod pobl sy'n cerdded neu'n beicio i'r gwaith yn elwa o lesiant meddwl gwell, o'u cymharu â'r rheiny sy'n teithio mewn car.[5]<br><br>Gall gwella'r stryd fawr ar gyfer cerdded arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n stopio, eistedd a chymdeithasu.[6]<br><br>Gall dyluniad ffyrdd arwain i lai o ddamweiniau traffig – gall ffyrdd uchel, lledaenu rhannau o balmentydd, lonydd troi i'r dde pwrpasol, a bolardiau gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch ar y ffyrdd i gerddwyr a beicwyr.[7]<br><br>Amcangyfrifir bod byw mewn cymdogaeth sy'n hybu gweithgaredd yn darparu 32 i 59% o'r 150 munud o weithgaredd corfforol wythnosol a argymhellir ar gyfer oedolion.[8] | Mae cymdogaethau y gellir cerdded iddynt yn cynnig cyfleoedd i leihau teithio mewn ceir.[9] | Y 'Gymhareb Cost a Budd' gyfartalog ar gyfer prosiectau cerdded a beicio yw 13.1, sy'n golygu bod gwerth £13 o fuddiannau'n cael eu dychwelyd i'r economi am bob £1 sy'n cael ei gwario ar gerdded a beicio.[10]<br><br>Dros fis, mae pobl sy'n cerdded i'r stryd fawr yn tueddu i wario mwy na phobl sy'n gyrru i'r stryd fawr.[10]<br><br>Gan fod pobl sy'n cerdded i'r gwaith yn adrodd mwy o fodlonrwydd swydd, mae hyn yn cynyddu'r cyfraddau cadw staff, sy'n lleihau'r gost i fusnesau.[11] |

| Egwyddor creu lle | Pobl | Y blaned | Gwerth Ariannol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Symudiad** Beicio | Mae beicio i'r gwaith yn gallu gostwng lefelau straen, yn ogystal â gwella iechyd meddwl.[12]<br><br>Mae seilwaith sy'n darparu llwybrau cynhwysol sydd wedi'u cynllunio a'u cysylltu'n dda i weithleoedd, ysgolion ac amwynderau cymdeithasol, gyda phalmentydd a chroesfannau diogel, yn gallu cefnogi cerdded a beicio a chynyddu'r lefelau gweithgaredd corfforol ymhlith pob grŵp oedran.<br><br>Mae cyfyngiadau cyflymder is fel 20 mya mewn ardaloedd preswyl neu lle mae presenoldeb uchel o gerddwyr, yn gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel ac felly, yn fwy tebygol o gerdded a beicio.[13] | Mae beicio'n ffordd carbon isel o deithio. | Mae bod yn gorfforol egnïol yn lleihau'r peryglon o ordewdra a chyflyrau cronig – costiodd anweithgarwch £35 miliwn i'r GIG yng Nghymru yn 2015.[14]<br><br>Gall man parcio beiciau ddarparu sawl gwaith yn fwy o wariant adwerthu fesul metr sgwâr na'r un ardal o barcio ceir.[15] |
| **Symudiad** Trafnidiaeth Gyhoeddus | Mae defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer sgyrsiau â dieithriaid, a all gael effaith bositif ar iechyd meddwl.[16] | Mae seilwaith a llwybrau sy'n darparu cyfleoedd ac opsiynau trafnidiaeth carbon is, fel beicio, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn gallu lleihau'r defnydd cyffredinol o garbon. | Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol yn creu cyfleoedd busnes ger gorsafoedd a safleoedd bysiau, yn ogystal â chynnydd ym mhrisiau tai yn y cyffiniau.[17]<br><br>Mae mannau parcio beiciau diogel yn haws ac yn fwy cost effeithiol i'w hymgorffori mewn mannau llai sy'n bodoli eisoes na pharcio cerbydau. |

| Egwyddor creu lle | Pobl | Y blaned | Gwerth Ariannol |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiau Cymysg** | Mae cymdogaethau cyflawn a chywasgedig gydag ysgolion, parciau, cyfleusterau gofal iechyd ac amwynderau lleol eraill yn y canol, yn arwain i lefelau uwch o weithgaredd corfforol, gan y bydd pobl yn tueddu i gerdded neu feicio o'r un lle i'r llall.<br><br>Mae amgylcheddau sydd wedi'u cynllunio'n dda, gyda defnyddiau cymysg, rhwyddineb cerdded a beicio, amwynderau hygyrch, mannau gwyrdd a mannau cymdeithasol i gwrdd â phobl, i gyd yn gallu effeithio ar allu ac awydd pobl i gerdded i leoedd, a helpu pobl hefyd i fyw yn annibynnol wrth iddynt heneiddio.[18]<br><br>Mae gosod amwynderau lleol wrth galon datblygiadau newydd yn bywiocáu'r parth cyhoeddus, gan fod mwy o gyfleoedd i bobl gymysgu, integreiddio a tharo ar ei gilydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a llesiant cymuned.<br><br>Mae datblygiadau cymysg a chysylltedd digidol yn gallu helpu i leihau anghydraddoldebau, drwy sicrhau bod gwasanaethau a swyddi ar gael i bob cymuned.<br><br>Mae sicrhau mynediad at wasanaethau, ysgolion a chyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Mae amgylchedd bwyd lleol sy'n hyrwyddo dewisiadau bwyd iachach yn gwella iechyd, yn cefnogi pwysau iach, ac yn lleihau'r peryglon y bydd pobl yn datblygu cyflyrau cronig hirdymor. Mae dewisiadau bwyd llai iachus yn gysylltiedig ag ennill pwysau ac arferion bwyta gwael ymysg plant.[19] | Mae cymdogaethau cyflawn a chywasgedig gydag ysgolion, parciau, cyfleusterau gofal iechyd ac amwynderau lleol eraill yn y canol, yn golygu bod llai o bobl yn gorfod defnyddio'u ceir er mwyn mynd o un lle i'r llall, sy'n arwain at leihau allyriadau carbon.<br><br>Mae datblygiadau dwysedd uwch a mwy cryno, sy'n cefnogi defnyddiau cymysg, yn ddefnydd mwy effeithlon o fannau. | Gall adeiladu cyfleusterau manwerthu a chyflogaeth yn gynnar yn natblygiad cynllun helpu i gyfrannu at ymdeimlad o le, gan y bydd pobl yn tueddu i fynychu'r ardal. Gallai'r bobl sy'n mynychu'r ardal gynyddu gwerth y datblygiad.<br><br>Mae cynnwys mannau manwerthu a chyflogaeth mewn datblygiadau newydd yn gallu darparu cyfleoedd i fusnesau lleol a busnesau llai i ymsefydlu.<br><br>Mae buddsoddiadau treftadaeth ddiwylliannol yn cael effaith bositif ar brisiau tai.[20] |

| Egwyddor creu lle | Pobl | Y blaned | Gwerth Ariannol |
|---|---|---|---|
| **Y Parth Cyhoeddus** | Mae mynediad i barciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd, gwlyptiroedd a rhandiroedd, ac ymgysylltu â'r rhain, yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd positiff. [21 22 23]<br><br>Gall cynnwys mannau chwarae a pharciau i blant mewn datblygiadau newydd greu mannau diogel o ansawdd da i blant chwarae ynddynt mewn amgylchedd cyfoethog.<br><br>Mae mwy o bobl yn chwarae allan am fwy o amser mewn mwy o leoedd, yn gallu gwella cydlyniant cymunedol a chryfhau cydberthnasau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br><br>Mae mannau gwyrdd trefol lliwgar a diddorol yn helpu i feithrin ymdeimlad o falchder, yn ysgogi ysbryd cymunedol, ac yn hyrwyddo cymdeithas sifil.[26] | Gall cynnwys coed a mannau gwyrdd mewn mannau cyhoeddus gynyddu capasiti storio carbon y cynllun, yn ogystal â lleihau lefel y dŵr wyneb sy'n rhedeg i ddraeniau, a lliniaru eithafion gwres a gwynt.[26]<br><br>Mae ymgorffori mannau gwyrdd mewn datblygiad yn creu'r potensial i gynyddu cynefinoedd a bioamrywiaeth.<br><br>Mae atebion tirwedd i reoli dŵr yn gallu helpu i fynd i'r afael â llifogydd. | Gall creu mannau lle gall pobl hŷn gadw'n egnïol, a strydoedd wedi'u cynllunio'n dda, leihau eu risg o gwympo. Mae cwympiadau yn gost enfawr i iechyd a gofal cymdeithasol.[24]<br><br>Mae cynnwys elfennau dylunio ffyrdd sy'n arwain at strydoedd mwy diogel i gerddwyr, yn gallu arbed arian oherwydd y gostyngiad mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.[25]<br><br>Gellir cynllunio strydoedd a mannau cyhoeddus sydd wedi'u dylunio'n dda fel y byddant yn hawdd ac yn gost-effeithiol i'w cynnal. |
| **Hunaniaeth** | Gall gweithgareddau, celf gyhoeddus, a digwyddiadau fod yn ffordd effeithiol o greu hunaniaeth leol a mwy o ymdeimlad o gysylltiad rhwng pobl a'r lle.<br><br>Mae ystod eang o brofiadau positif sy'n cynnwys perthyn, ymgysylltu, lles cymdeithasol, a mwy o gysylltiad â lle yn gysylltiedig â chadwraeth treftadaeth yn y gymuned.[27 28] | Mae gerddi cymunedol, parciau a mannau gwyrdd yn gallu helpu preswylwyr i feithrin cysylltiadau cymdeithasol, yn ogystal ag ymgysylltu â natur a'r amgylchedd cwmpasol.<br><br>Mae ailddefnyddio ac ailwampio adeiladau sy'n bodoli eisoes mewn lle, yn ddull datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn gallu atgyfnerthu hanes a hunaniaeth lle hefyd. | Mae preswylwyr sydd ag ymdeimlad cryf o berthyn a balchder yn eu 'lle' neu eu hardal yn fwy tebygol o ofalu amdani, a gallai hyn yn ei dro, arwain at ostyngiad mewn costau cynnal a chadw hirdymor. |

## Cyfeiriadau:


1. https://pdf.euro.savills.co.uk/uk/residential---other/spotlight-the-value-of-placemaking-2016.pdf

2. Barnett, D.W., Barnett, A., Nathan, A. *et al.* Built environmental correlates of older adults' total physical activity and walking: a systematic review and meta-analysis. *Int J Behav Nutr Phys Act* 14, 103 (2017) doi:10.1186/s12966-017-0558-z https://ijbnpa.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12966-017-0558-z#citeas

3. https://www.livingstreets.org.uk/media/3844/lcc021-low-traffic-neighbourhoods-detail-v9.pdf

4. https://www.architectsjournal.co.uk/news/introducing-retrofirst-a-new-aj-campaign-championing-reuse-in-the-built-environment

5. https://www.nice.org.uk/News/Article/commuting-by-walking-or-cycling-can-boost-mental-wellbeing

6. Hall S, King J, Sajjad F, Morris C, Mehra R, Lewis H, Martin H, Meyer M, Seguin P and Worrel M (2017) High streets for all. We Made That and LSE Cities for Greater London Authority. https://www.london.gov.uk/sites/default/files/high_streets_for_all_report_web_final.pdf

7. http://democracy.cityoflondon.gov.uk/documents/s92190/RDR%20Strategy%20Appendix%201.pdf

8. Public Health England.Spatial planning for health. An evidence resource for planning and designing healthier places. [Online] 2017. Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729727/spatial_planning_for_health.pdf

9. Cardiff & Vale University Health Board.Moving forwards: Healthy travel for all in Cardiff and the Vale of Glamorgan. Annual Report of the Director of Public Health for Cardiff and Vale of Glamorgan 2017.[Online] 2017. Available at: http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/DPH%20Annual%20Report%202017.pdf

10. http://content.tfl.gov.uk/walking-cycling-economic-benefits-summary-pack.pdf

11. Chaterjee K (2017) Commuting and wellbeing. University of the West of England https://www1.uwe.ac.uk/et/research/cts/researchprojectsbytheme/influencingbehaviours/commutingandwellbeing.aspx

12. https://www.cyclescheme.co.uk/employers/employer-updates/cycling-revolution-causes-drop-in-alcohol-and-t

13. https://gov.wales/20mph-task-force-group-report

14. Public Health Wales, 2017. What is Physical Inactivity Costing NHS Wales? Cardiff: Public Health Wales NHS Trust. Available at: https://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW%20Physical%20Activity%20%28Wales%29E.pdf

15. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/509587/value-of-cycling.pdf

16. https://www.bbc.co.uk/news/world-48459940

17. https://www.buyassociation.co.uk/2018/03/09/house-prices-commuter-stations-rise-people-move-afield/

18. Arup. Cities Alive: Designing for Ageing Communities.2019. https://foresight.arup.com/publications/ageing-communities/

19. Public Health England.Spatial planning for health. An evidence resource for planning and designing healthier places. [Online] 2017. Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729727/spatial_planning_for_health.pdf

20. https://blogs.lse.ac.uk/businessreview/2017/12/06/the-value-of-investing-in-historic-buildings/

21. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/904439/Improving_access_to_greenspace_2020_review.pdf

22. https://www.rtpi.org.uk/media/1470/promoting-healthy-cities-full-report-2014.pdf

23. Public Health England 2020 'Improving access to greenspace. A new review for 2020' London: Public Health England. Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/904439/Improving_access_to_greenspace_2020_review.pdf

24. https://www.gov.uk/government/publications/falls-applying-all-our-health/falls-applying-all-our-health

25. http://democracy.cityoflondon.gov.uk/documents/s92190/RDR%20Strategy%20Appendix%201.pdf

26. Ambra Pedretti Burls – UK UNESCO Man and the Biosphere Urban Forum (2010), The multifunctional values of therapeutic green spaces.

27. https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1353829216300235

28. https://historicengland.org.uk/content/heritage-counts/pub/2019/heritage-and-society-2019/

29 Natural resources Wales. 2016. Tree Cover in Wales' Towns and Cities. Full report. P127, Appendix 1. https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/green-spaces/urban-trees/?lang=en



# 5 Astudiaethau achos

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# 5. Astudiaethau achos

Mae detholiad o astudiaethau achos wedi cael eu crynhoi i dynnu sylw at y ffordd y mae gwahanol agweddau ar greu lleoedd wedi'u mabwysiadu ar gyfer prosiectau o wahanol raddfeydd. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r agweddau a amlygwyd ym mhob un o'r astudiaethau achos:

| **Astudiaeth achos** | **Gwybodaeth Sylfaenol** |
|---|---|
| Loftus Garden Village, Casnewydd | – Preswyl<br>– 250 o gartrefi, 60% yn dai fforddiadwy<br>– Safle tir llwyd |
| Ashlands, Portishead | – Defnydd cymysg<br>– 1,650 o gartrefi, defnyddiau cyflogaeth, siopau, bwytai, caffis, gwarchodfa natur<br>– Safle tir llwyd |
| Pumphouse, Y Bari | – Defnydd cymysg<br>– Bwyty, campfa, siop goffi, 15 o fflatiau byw-gweithio<br>– Ailddatblygu |
| Paintworks, Bryste | – Defnydd cymysg<br>– 210 o gartrefi, 11 o unedau byw/gweithio/masnachol<br>– Safle tir llwyd |
| Tŷ Pawb, Wrecsam | – Defnydd cymysg<br>– Canolfan gelfyddydau a diwylliannol, neuadd farchnad, canolfan ddysgu, caffis, bariau<br>– Ailddatblygu |
| Lawrenny, Sir Benfro | – Defnydd cymysg<br>– 33 o gartrefi, gweithdai busnesau bach, sgwâr y pentref<br>– Safle tir llwyd |
| Canol Tref Cil-y-coed, Sir Fynwy | – Defnydd cymysg<br>– Cartrefi, masanch, defnyddiau cymunedol, y parth cyhoeddus, teithio llesol |

**Tabl 3:** Trosolwg o astudiaethau achos

# **Loftus Garden Village,** Casnewydd

**Lleoliad:**
Telford Street, Casnewyddt

**Awdurdod Lleol:**
Cyngor Dinas Casnewydd

**Cleient:**
Grŵp Pobl

**Tîm Dylunio/Adeiladu:**
Alan Baxter,
Lovell Partnership Ltd.,
Hammond Architectural

**Dyddiad cwblhau:**
Medi 2018

**Gwerth y contract:**
£27M

**Arwynebedd y safle:**
16 erw

**Gwobrau:**
Enillydd, Gwobr Datblygiad y Flwyddyn – Gwobrau Tai Cymru 2017

Datblygiad Preswyl Gorau'r Flwyddyn – Gwobrau Eiddo Insider Wales 2016

Enillydd, Gwobrau Iechyd a Diogelwch Rhanbarthol a Chenedlaethol Lovell, 2017

Ar Restr Fer Prosiect y Flwyddyn: Gwobr Adeiladau – Adeiladu Rhagoriaeth yng Nghymru

Lle agored cyhoeddus canolog





Mannau gwyrdd wedi'u tirlunio'n dda a deniadol

**Mae Loftus Garden Village yn ddatblygiad preswyl o 250 o gartrefi yng Nghasnewydd, De Cymru. Fe'i datblygwyd gan Pobl, sef landlord cymdeithasol cofrestredig ac fe'i dyluniwyd gan Alan Baxter Architects. Mae'n cynnwys cymysgedd o eiddo 1, 2, 3 a 4 ystafell wely a ddyluniwyd mewn steil celf a chrefft gyda 60% wedi'u cadw fel cartrefi fforddiadwy. Mae cysyniad cynllun y Garden Village yn cynnig strydoedd wedi'u tirlunio'n dda, dau barc a rhandiroedd llysiau. Mae'r rhwydwaith strydoedd yn cysylltu'n agos â'r stryd o amgylch ond mae tirlunio ac arddull bensaernïol yn ei gosod ar wahân i weddill yr ardal.**

## Datblygu'r weledigaeth

Y weledigaeth, o'r dechrau'n deg, oedd i'r cynnig hwn greu 'Pentref Gardd' yng Nghasnewydd. Roedd hyn yn seiliedig ar Gynllun Symudiadau Gardd-ddinas Ebenezer Howard a geisiodd ddwyn ynghyd y gorau ymhlith gweithgareddau'r dref gyda harddwch cefn gwlad. Ar y pryd, roedd yn ymateb i amodau'r trefi a'r dinasoedd yn ystod y chwyldro diwydiannol, oedd yn ddwys, yn llygredig ac yn frwnt gydag ychydig iawn o wyrddni, awyr iach a heulwen.

Cynigiodd y syniad o Ardd-ddinas fel anheddiad newydd oedd â'r canlynol: "Manteision bywyd mwyaf egnïol a gweithgar y dref gyda holl harddwch a phleser cefn gwlad". Mewn egwyddor, dyma beth oedd Pobl, y datblygwr, yn ceisio'i gyflawni ar y safle gyda'r datblygiad tai cymdeithasol newydd hwn.

Letchworth oedd yr Ardd-ddinas gyntaf i gael ei datblygu i'r egwyddorion hyn, a ddyluniwyd gan Parker ac Unwin o 1903 ymlaen.

Llywiwyd y weledigaeth ar gyfer y datblygiad hwn yn uniongyrchol gan Letchworth Garden City. Yn ystod ymweliad safle â Letchworth, gofynnwyd i dîm y prosiect ystyried pa agweddau ar yr ardd-ddinas sydd fwyaf perthnasol ar gyfer y safle yng Nghasnewydd. Ffurfiwyd y weledigaeth gyffredinol o hyn.

**Mae Pentref Gardd Casnewydd:**

- **Yn teimlo fel…** Lle croesawgar a gwyrdd yng Nghasnewydd lle bydd trigolion o bob oedran yn mwynhau cerdded, chwarae a rhyngweithio yn y strydoedd, y parciau a'r gerddi maen nhw'n ymfalchïo ynddynt, gan alluogi ymdeimlad cryf o gymuned.
- **Yn edrych fel…** Amrywiaeth o gartrefi syml, cymesur o gymeriad bytholwyrdd, gan ffurfio cefnlen syml i dirwedd o goed stryd, ymylon gwyrdd, gerddi blaen llawn blodau, gerddi llysiau a gwrychoedd.
- **Yn gweithredu fel…** Lle o adnoddau a chyfrifoldebau ar y cyd, lle mae trigolion a pherchnogion yn cymryd rôl arweiniol wrth ffurfio a chynnal eu cymdogaeth. Lle sy'n chwarae rôl allweddol yng nghymdogaeth ehangach Corporation Road.




Ymateb y tîm prosiectau i Ardd-ddinas Letchworth

## Deall ac ymateb i'r safle a'r cyd-destun

Y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer datblygu'r uwchgynllun oedd cynnwys egwyddorion a nodweddion dylunio Gardd-ddinas Letchworth yn ogystal ag enghreifftiau o Gymru fel Rhiwbeina yng Nghaerdydd. Yn gwmni i hyn oedd ymchwil i gyd-destun lleol y safle a'r gymdogaeth, fel graddfa, ffurf drefol, tirwedd a nodweddion cymdeithasol. Cynhaliwyd hyn gan dîm y prosiect a oedd yn cynnwys penseiri tirwedd, ecolegwyr, ymgynghorwyr sŵn, arbenigwyr llifogydd a geotechnegol.

Datgelodd yr adolygiad gwaelodol nifer o gyfleoedd a chyfyngiadau dylunio trefol ar gyfer y datblygiad, gan gynnwys:


– Dod â hen safle ffatri sydd bellach yn segur i ddefnydd a gwella ymddangosiad cyffredinol yr ardal;
– Gwella cysylltiadau ar draws y safle i gael gwell cysylltedd rhwng y strydoedd amgylchynol a'r cyfleusterau cymunedol ar Corporation Road;
– Ymestyn y rhwydwaith o fannau gwyrdd a llwybrau cerdded trwy'r safle, a'i gysylltu â'r afon a thu hwnt;
– Darparu parciau a gerddi llysiau newydd y gellir eu defnyddio ar gyfer addysg, hamdden a chydlyniant cymdeithasol;
– Defnyddio Parc Busnes Phoenix a'r rhandir gwag cyfagos ar gyfer datblygu'r safle a chynnig cyfleoedd am hyfforddiant a chyflogaeth leol;
– Ymestyn cymeriad gwyrdd y pentref gardd yn y strydoedd amgylchynol i wella lleoliad y datblygiad;
– Creu amgylchedd byw mwy cynaliadwy gan ddarparu amrywiaeth yn y farchnad dai leol;
– Mae amodau tir yn gwahardd systemau draenio trefol cynaliadwy
– Mae parth cyfyngiadau sŵn o 12m yn bresennol ar hyd y rheilffordd;
– Pryderon ynghylch cerbydau'n torri trwy ffyrdd gan atal rhwydwaith strydoedd hollol athraidd;
– Rhaid i glirio ac adfer safleoedd arsylwi diogelwch adar nythu; ac
– Mae halogiad yn sgil etifedd defnydd ffatri'r safle'n gofyn am adferiad ac ystyriaethau peirianyddol arbennig.



Cynllun tirwedd



Cynllun symud




Cynllun Cyfleoedd




Uwchgynllun esboniadol

## Ymglymiad cymunedol a rhanddeiliaid

Roedd tîm y prosiect yn sicr y byddai eu dull 'Pentref Gardd' yn cael ei dderbyn yn dda gan yr awdurdod lleol a thrigolion lleol. Fodd bynnag, roedden nhw'n ymwybodol hefyd bod angen iddynt wneud y mwyaf o fanteision y datblygiad i'r gymuned leol ac felly cyflawnon nhw ymgynghoriad helaeth ar sut gallai hyn gael ei gyflawni. Diwygiwyd yr uwchgynllun nifer o weithiau ac fe'i cyflwynwyd yn ôl i'r gymuned hyd nes y gellid canfod yr ateb 'orau'. Dangosir hyn orau gan y trefniadau mynediad ar y safle, a aeth trwy nifer o newidiadau, yn sgil pwysigrwydd, sensitifrwydd a phryderon lleol yn ymwneud â hygyrchedd ac effaith traffig.

Dechreuodd y datblygiad dylunio ar gyfer y mynediad gydag adolygiad o'r caniatâd cynllunio amlinellol presennol a ddangosodd lwybr trwodd dwyrain-gorllewin a dim mynediad i gerbydau o Corporation Road. Cadarnhaodd y weledigaeth ar gyfer y datblygiad y dylai porth newydd i Corporation Road gael ei greu a chael lefel uchel o athreiddedd ar gyfer y safle. Fodd bynnag, amlygodd ymgynghoriad blaenorol bryderon pobl leol mewn perthynas â cholli preifatrwydd ac effaith traffig ar eu strydoedd, ac felly cadwyd y cysylltiadau gyda'r strydoedd presennol i isafswm. Gwrthodwyd y cynllun cyntaf oherwydd creodd ffordd torri trwodd o'r dwyrain i'r gorllewin trwy'r safle datblygu.

Cyflwynwyd nifer o ddiwygiadau i'r gymuned leol cyn i'r ateb terfynol gael ei benderfynu arno. Symudodd hyn i ffwrdd o gael trefniadau mynediad agored neu gaeedig syml, ond ceisiodd gyflawni amcanion y datblygiad trwy fesurau meddalach rheoli traffig a roddwyd ar waith i rwydwaith athraidd yn bennaf. Galluogodd hyn fuddiannau rhwydwaith athraidd, fel cysondeb o ran ffurf a symudiadau trefol, osgoi ffyrdd osgoi, symudiadau troi, problemau parcio neu bobl yn mynd ar goll, gan gyflwyno datblygiad newydd wedi'i integreiddio'n dda a lleihau effaith traffig amhriodol ar ychydig strydoedd.

Oherwydd yr agweddau cymdeithasol ar Weledigaeth y Pentref Gardd, roedd Pobl am gydnabod a dathlu'r pwysigrwydd chwaraeodd y safle yn hanes Casnewydd a'r DU. Roedd stori Ruby Loftus a'r cyfraniad a wnaeth hi a'i chydweithwyr i hyrwyddo rôl menywod wrth gefnogi ymdrech y rhyfel yn yr hen ffatri ordnans ar y safle hwn, yn haeddu cael ei chofio. Defnyddiodd Pobl hyn fel ysbrydoliaeth ar gyfer llawer o agweddau ar y prosiect gan gynnwys cynyddu'r cyfleoedd i fenywod yn y sector adeiladu. O'r 22 lleoliad prentis a grëwyd ar hyd y prosiect, hyd yma mae 3 ohonynt wedi bod yn fenywod. Gweithion nhw'n agos hefyd gyda Chymunedau yn Gyntaf Casnewydd i sicrhau bod mentrau hyfforddiant a chyflogaeth yn cael eu targedu at bobl oedd angen cymorth pellach i droi at gyfleoedd gwaith.



Ffotograff o'r awyr o'r safle cyn adeiladu

## Prif egwyddorion dylunio

Ar sail y weledigaeth, crëwyd set benodol o egwyddorion dylunio sy'n trosi'r weledigaeth i gyd-destun penodol y safle.

Mae'r egwyddorion dylunio hyn yn cynnwys:

– Creu datblygiad sy'n integreiddio'n dda gyda'r strydoedd amgylchynol a'r gymuned ac sy'n darparu mynediad i amwynderau lleol.

– Creu tirwedd gynaliadwy sy'n cymryd rôl arweiniol wrth ddiffinio cymeriad y datblygiad newydd. Bydd y dirwedd yn amlweithredol gyda phwyslais ar rolau cymdeithasol ac ecolegol.

– Creu tai sy'n edrych fel cartrefi a byddant ar ffurf draddodiadol a ysbrydolwyd gan symudiad yr Ardd-ddinas, gan gyfuno'r rhain gyda safonau cynaliadwyedd cyfoes ac ystafelloedd golau ac agored.

– Creu lle sy'n rhoi'r gymuned wrth wraidd y datblygiad gyda lleoedd wedi'u dylunio i feithrin rhyngweithio, baclhder a rheolaeth gan drigolion lleol a chan ddarparu ar gyfer cymuned gymysg.

– Creu datblygiad gwirioneddol gynaliadwy trwy ddefnyddio mesurau goddefol wedi'u sefydlu'n dda ac osgoi atebion gordechnegol neu gymhleth.

– Creu rhwydwaith symudiadau athraidd sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach ac sy'n taro cydbwysedd rhwng defnyddwyr modurol a heb fod yn fodurol.

Oherwydd y weledigaeth glir a rgyfer y safle a thrwy ddadansoddi ei chyd-destun, chwalwyd yr egwyddorion hyn gan dîm y prosiect yn set o nodau ac amcanion wedi'u diffinio'n glir ac yn dda. Mae a wnelo cysyniad yr Ardd Bentref â mwy nag agweddau 'ffisegol' y lle, ond mae'n cynnwys ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd hefyd. Roedd Pobl felly'n awyddus iawn i sicrhau bod yr ystyriaethau cymdeithasol-economaidd hyn yn cael eu cynnwys a'u cynnal trwy'r broses ddatblygu gyfan.

## Hwyluso gweithgarwch o fewn y cynllun

Mae'r cynllun yn cynnwys dau barc, dwy ardd lysiau a strydoedd gwyrdd, sy'n cynnwys coed stryd ac ymylon gwyrddion. Ffurfiant asgwrn cefn cysyniad tirwedd ehangach, sy'n treiddio'r datblygiad cyfan ac sydd wedi'u dylunio i gael rôl gymdeithasol yn y datblygiad.

Rôl gymdeithasol y dirwedd yw cefnogi nifer o weithgareddau dynol, adeiladu cymunedau, iechyd a lles. Mae cysyniad y dirwedd a pharth y cyhoedd yn cefnogi gweithgareddau angenrheidiol, fel darparu lle i symud, fel mynd i'r gwaith, siopa neu gerdded y ci. Yn hynny o beth, dyluniwyd parth y cyhoedd i ddarparu modd o symud yn rhwydd trwy rwydwaith athraidd, croesfannau gwastad a deunyddiau arwyneb caled.

Mae cysyniad y dirwedd a pharth y cyhoedd hefyd yn creu amgylchedd sy'n cefnogi gweithgareddau dewisol, fel lle i fynd am dro, eistedd ar draeth yn mwynhau'r haul, darllen neu fwyta. Mae'r cynllun yn darparu amgylcheddau atyniadol yn y parciau a'r strydoedd ar gyfer y gweithgareddau hyn, yn ogystal â'r gerddi preifat y mae gan bob tŷ fynediad iddynt. Anogir y gweithgareddau trwy greu amgylcheddau dymunol ym mharth y cyhoedd, trwy goed stryd yn darparu cysgod yn yr haf a gwrychoedd glas a gerddi blaen llawn planhigion yn cynnig amgylchedd cyfoethog a dymunol. Mae'r parciau'n darparu lle i eistedd, hamddena ac i fynd am dro ynddynt.

At hynny, dyluniwyd y dirwedd a pharth y cyhoedd i gefnogi gweithgareddau cymdeithasol, fel chwarae plant, garddio cymunedol, digwyddiadau grŵp neu ddysgu. Anogir garddio cymunedol yn y gerddi llysiau a'r parciau ac i gefnogi ffordd o fyw gweithgar ac iach, rhyngweithio cymunedol a darparu ffynhonnell ddysgu, yn enwedig i blant.

Mae fframwaith y dirwedd yn estyn allan y tu hwnt i ffin y safle, gan gysylltu'r datblygiad â Pharc Lysaght gyda'i feysydd chwarae ac offer chwarae ffurfiol ac o'r fan honno i rwydwaith adloniadol ehangach y llwybrau troed glan afon. Mae hyn yn annog rhyngweithio rhwng y trigolion newydd a rhai'r gymuned ehangach sy'n bodoli.









Amrywiaeth o ran cymysgedd a mathau o dai

## Prif ffactorau sy'n cyfrannu at greu lleoedd da

Roedd datblygu gweledigaeth gref o gwmpas cysyniad y Pentref Gardd yn allweddol i sefydlu beth oedd angen i'r datblygiad ei gyflawni a sut byddai'n edrych. Gallai hyn gael ei ystyried yn weledigaeth dan arweiniad ymagwedd at ddatblygu gan nad oedd cynseiliau lleol i sefydlu cynllun pentref gardd yng Nghasnewydd. Gwnaeth y dymuniad gan Pobl i gyflwyno cynllun gyda manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach, eu harwain at fabwysiadu dull pentref gardd, a lywiodd yn ei dro'r egwyddorion dylunio a'r uwchgynllun.

Datblygwyd llawlyfrau arfer gorau yn ystod cam adeiladu'r datblygiad ac fe'u cyflwynwyd i dîm y safle i sicrhau dealltwriaeth glir o 'sut mae da'n edrych' a'r lefelau ansawdd oedd yn ddisgwyliedig. Cafwyd 'meincnodi' hefyd, a oedd yn cynnwys ffotograffau cyn ac wedyn o ddiffygion a adroddwyd ac a gwblhawyd. Gwnaeth y rhain, ynghyd â chynlluniau o fathau o dai a dewisiadau cwsmeriaid, gynorthwyo'r tîm gweithrediadau i gyflawni'r lefelau ansawdd disgwyliedig.

Mae Pobl yn cydnabod mai rhan o greu llwyddiant cymdeithasol tymor hir pentref gardd yw rheoli parth y cyhoedd a'r lleoedd cyfagos yn ofalus. Mae gan Pobl ymrwymiad tymor hir i gynnal parth cyhoeddus ansawdd uchel trwy gyfyngu ar rai o'r newidiadau y gall lesddeiliaid ymgymryd â nhw trwy gytundebau, fel cynnal gerddi blaen a rheoleiddio meysydd parcio. Bydd Pobl hefyd yn chwarae rôl weithgar lle gallai fod angen cymorth ar drigolion i gynnal a chadw'r gerddi blaen, er mwyn osgoi unrhyw sbardun i waethygiad mewn ansawdd. Ni chaiff y Lle Agored Cyhoeddus ei fabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol ond caiff ei reoli gan ddau arddwr a gyflogir gan Pobl, er mwyn gallu cynnal ansawdd uchel parhaus y lleoedd hyn.

Mae'r datblygiad yn dangos y gall Creu Lleoedd ymwneud â mwy na dim ond agweddau ffisegol y lle ond mae hefyd yn cynnwys 'cynaliadwyedd cymdeithasol'. Yr amcan ar gyfer y datblygiad hwn oedd cyflawni lefel uchel o integreiddio cymunedol, ymdeimlad cryf o berchnogaeth leol a hunanreolaeth tymor hir.

Mae'r weledigaeth hon o ddarparu gwell bywyd trwy stiwardiaeth tymor hir, asedau ar y cyd a rheolaeth gymunedol o'r asedau hynny yn rhan o strategaeth Pobl o greu lle cymdeithasol gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, archwiliwyd a gweithredwyd nifer o wahanol fesurau:

- Cymysgedd o wahanol ddeiliadaethau ar draws y datblygiad, gyda nifer uchel o gartrefi'n aros o fewn rheolaeth Pobl.
- Archwilio'r cyfleoedd ar gyfer cydletya. Cydweithiodd Pobl gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi cynhwysiant cynllun cydletya yn y gymdogaeth.
- Meithrin a chefnogi grwpiau cymunedol wrth reoli a defnyddio'r parciau a'r gerddi, y ganolfan gymunedol, ailgylchu, compostio ac ati.
- Creu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth wrth reoli'r ystâd.
- Creu canolfan gymunedol newydd.
- Integreiddio gyda'r gymuned leol sy'n bodoli, a gyflawnwyd trwy ymgynghori gyda'r trigolion lleol ac yn enwedig gyda'r rhai sy'n byw ar y strydoedd nesaf at y safle

.

## Agweddau mwyaf llwyddiannus y datblygiad

Roedd gan Pobl weledigaeth uchelgeisiol i ailddffinio'r hyn allai gael ei gyflawni wrth gyflenwi cartrefi newydd yng Nghasnewydd. Cymeron nhw ardal o dir segur mewn ardal heriol o Gasnewydd ac roedden nhw am greu lle y byddai pobl yn dyheu i fyw ynddo. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, roedd angen iddynt fod yn feiddgar a gwneud llawer mwy na dim ond adeiladu cartrefi ansawdd uchel, wedi'u dylunio'n dda.

Mynegon nhw eu bod nhw am sefydlu amgylchedd lle gallai'r gymuned ffynnu, gan roi cymaint o bwyslais ar yr amgylchedd allanol â'r cartrefi eu hunain. Mae'r swm helaeth o dirlunio ym Mhentref Gardd Loftus wedi gofyn iddynt fabwysiadu dull arloesol, moesegol o reoli a chynnal a chadw, gan ddiogelu'r weledigaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy.

Mae Pentref Gardd Loftus yn ddatblygiad o 250 o gartrefi gyda 60% yn cael eu dosbarthu fel rhai fforddiadwy. Mae'n gynllun amlddeiliadaeth sy'n llwyr gyfuno rhent cymdeithasol, canolradd a marchnad gyda chartrefi at ddibenion gwerthiant llwyr a chydberchnogaeth. Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys cyfran o gartrefi cydweithredol, fel rhan o Brosiect Peilot Llywodraeth Cymru. Canolbwyntiodd y datblygiad yn llwyr ar fodloni ystod gyfan o amcanion tai strategol Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol, mae'r rhain yn cynnwys:

- Ansawdd, safonau lle, cynaliadwyedd a hyblygrwydd y cartrefi.
- Mwyhau buddiannau cymunedol ym mhob agwedd ar y prosiect.
- Yr angen i wneud mwy gyda llai o grant cyhoeddus.
- Cyflwyno ystod eang o atebion tai i bobl leol.



Tai sy'n edrych dros barc wedi'i dirlunio



Golygfeydd stryd a chysylltiadau cryf



Mannau cymdeithasol ar hyd y datblygiad

# **Ashlands,** Portishead

**Lleoliad:**
Portishead

**Awdurdod Lleol:**
Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf

**Cleient:**
Crest Nicholson/ Persimmon Homes

**Dyddiad cwblhau:**
Wedi cwblhau

**Ffynhonnell ariannu:**
Preifat





Pentref pysgota morol

**Mae Ashlands yn Portishead yn estyniad trefol preswyl graddfa fawr ar hen domen ludw dwy Orsaf Bŵer ym marina Portishead. Gwnaeth cau'r gweithfeydd hyn arwain at y safle datblygu tir llwyd mwyaf yn ne orllewin Lloegr. Datblygwyd y dull a'r weledigaeth dylunio ar gyfer Dociau Portishead yng nghanol i ddiwedd y 1990au. Ar y pryd, adlewyrchodd y symud at ddull gyda mwy o ffocws ar ddylunio i gymunedau preswyl newydd. Mae'r cynllun a ddatblygwyd dros 20 mlynedd wedi arwain at 1,650 o gartrefi, defnyddiau cyflogaeth, siopau, bwytai a chaffis yn ogystal â gwarchodfa natur 40 hectar, ardaloedd chwarae a mannau agored.**

## Datblygu'r weledigaeth

Ceisiodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddefnyddio'r broses gynllunio fel ysgogwr i gyflawni dyluniad o lefel uchel yn natblygiad Ashlands. Roedden nhw'n cydnabod pwysigrwydd angen y datblygwyr i gael caniatâd ar amryw gamau'r broses gynllunio a bod dylunio yn broses 'esblygiadol' sy'n mynd yn fanylach ar bob cam.

Felly, cadarnhaodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddull "Amser i Ddylunio", oedd yn seiliedig ar weithio ar y cyd gyda'r datblygwyr er mwyn cytuno gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion dylunio'r cynllun. Yna byddai'r Awdurdod yn defnyddio'r broses gynllunio trwy ganiatadau cynllunio a chytundebau Adran 106, i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni a'u hintegreiddio yn y cynllun adeiledig.

Datblygwyd y weledigaeth ar gyfer y safle ar y cyd rhwng y datblygwr, y tîm dylunio a thîm prosiect ymroddedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol, trwy gyfres o weithdai dylunio. Roedd y safle'n wastatir di-nod i bob pwrpas, yn llawn dyddodion lludw mân o'r hen orsafoedd pŵer wedi'u tanio gan lo. Felly, roedd angen i'r weledigaeth greu strwythur trefol eglur a chryf fel rhan o gynllun safle cynaliadwy. Cyflwynwyd syniadau gan dîm yr Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn cychwyn darlunio, ac fe'u trafodwyd a chytunwyd gyda'r datblygwyr. Yn dilyn y gweithdai hyn, gosodwyd y weledigaeth mewn "Uwchgynllun Darlunio". Ffurfiodd hyn sail i'r Uwchgynllun Amlinellol a sefydlodd egwyddorion dylunio allweddol y datblygiad.

Wedyn, cynhaliwyd cylch arall o weithdai i ddistyllu egwyddorion yr uwchgynllun darlunio hwn yn gyfres o uwchgynlluniau is-ardal manylach. Rhannodd yr uwchgynlluniau is-ardal hyn y safle'n nifer o ardaloedd a chanolbwyntion nhw ar faterion megis; defnyddiau tir, rhwydwaith symudiadau, mannau cyhoeddus, nodau pensaernïol a gosodiad y cynllun. Ffurfiodd yr uwchgynlluniau is-ardal hyn sail i Gais y Materion a Gedwir yn Ôl.

Oherwydd y broses "Amser i Ddylunio", gweithredodd y Weledigaeth a'r egwyddorion dylunio law yn llaw, llifodd un o'r llall ac yn dilyn hynny, yn uniongyrchol i'r ceisiadau cynllunio a'r cynllun terfynol. Dyma oedd y brif nod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrth ymgymryd â'r broses hon gan fod pob egwyddor dylunio wedi'u cytuno gan bob un o'r rhanddeiliaid o'r dechrau'n deg.

Byddai unrhyw ymgais gan ddatblygwr i newid, yn ei hanfod, y dull dylunio y manylir arno yn yr uwchgynlluniau darlunio neu is-ardal yn cael eu gwrthod yng ngham y cais cynllunio. Ar yr un achlysur ddigwyddodd hyn, gollyngwyd yr apêl ddilynol gan yr Arolygiaeth Gynllunio gyda "stori gefn" y broses uwchgynllunio yn elfen bwysig o'r gollyngiad.

Oherwydd y dull cydweithredol rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol, y datblygwyr a'r dylunwyr wrth gytuno'r prif egwyddorion dylunio ar bob cam o'r datblygiad, cyflawnwyd trawsnewidiad llyfn trwy'r broses gynllunio.



Moryd Hafren

Gweithdai Datblygwyr/Dylunwyr/Awdurdod Cynllunio Lleol

↓

Uwchgynllun darlunio (Cam y cais amlinellol)

↓

Gweithdai Datblygwyr/Dylunwyr/Awdurdod Cynllunio Lleol

↓

Uwchgynlluniau is-ardal

↓

Ceisiadau materion a gedwir yn ôl

↓

Monitro

Y dull "Amser i Ddylunio"

**"Roedd y broses gynllunio'n hanfodol i gyflwyno'r weledigaeth oherwydd y dull "Amser i Ddylunio" mewn camau, Cytundebau Adran 106, parhad tîm yr Awdurdod Cynllunio Lleol a pharodrwydd yr Awdurdod i fod yn rymus wrth i heriau i'r dull uwchgynlluniau/ uwchgynlluniau is-ardal godi."**

Kedrick Davies (Dylunydd Trefol yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer Ashlands 1998-2008)

## Deall ac ymateb i'r safle a'r cyd-destun

TClustnodwyd y tir ar gyfer datblygiad Ashlands yn y cynllun lleol felly roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol eisoes yn gyfarwydd iawn â'r safle ei hun a'r cyd-destun amgylchynol. Cyn i'r gwaith ar ddatblygiad Ashlands ddechrau, adeiladwyd ystâd breswyl newydd i gyfeiriad y de o'r safle. Nid oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn hapus â natur generig a diffyg ymdeimlad o le'r ystâd hon, ac felly roedd osgoi ailadrodd ei gamgymeriadau yn brif yrrwr o ran eisiau cyflawni dyluniad ansawdd uchel i'r Ashlands.

Ffurfiodd safle'r Ashlands ran o Orsaf Bŵer Portishead ac felly roedd yn 'llechen lân' gan mwyaf gydag unrhyw bwyntiau cyfeirio cyd-destunol ar ymyl y safle. Defnyddiwyd cyfres o ymweliadau i ddeall y safle a'r ardal o'i amgylch a defnyddiwyd gwybodaeth hanesyddol i benderfynu ar y defnyddiau gwreiddiol a chyd-destun y safle.

Oherwydd diffyg nodweddion y safle, daeth yr amgylchedd a'r ymatebion ar yr ymylon yn bwysicach i'r tîm dylunio. Roedd y prif ystyriaethau ar ffin y safle'n cynnwys golygfeydd a'r cysylltiadau allan dros Foryd Hafren a Gwarchodfa Natur Portbury Wharf newydd ei chreu. Rhoddwyd pwyslais i'r ffordd y byddai'r cynllun yn cael ei ymgorffori yn Portishead a'r safleoedd datblygu cyfagos eraill. Nodwyd lleoliadau cyfleusterau lleol newydd fel ysgolion a siopau i helpu uno ac integreiddio cymunedau presennol a mwy newydd.

Gweithiodd y weledigaeth o'r safle gyda'r cyd-destun cyfyngedig lle bo'n bosibl ond daeth y gweithdai rhwng y tîm dylunio a'r Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd â chyd-destun newydd ar gyfer y cynllun. Cymerwyd hyn o ffynonellau hanesyddol ar ffurf griniau pentref, goleudai, pentrefi pysgota a datblygiadau wrth y dociau.



Uwchgynllun yr is-ardal


Ardaloedd datblygu adfywiad Portishead


Uwchgynllun amlinellol


Uwchgynllun y fframwaith

## Ymrwymiad y gymuned a rhanddeiliaid

Daeth hi'n glir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fod maint y prosiect cyffredinol gymaint fel nad oedd angen penodi rheolwr prosiect er mwyn i gynllun dan arweiniad uwchgynllun lwyddo. Roedd y rheolwr prosiect hwn yn gyfrifol am sicrhau ymateb amserol a chydlynol gan bob adran cyngor perthnasol a'r cysylltiadau ar gyfer y prif gwmnïau datblygu oedd ynghlwm. Cam cyntaf y rheolwr prosiect oedd sefydlu grŵp craidd o swyddogion oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o reoli datblygu, priffyrdd a chludiant, adrannau dylunio cyfreithiol a threfol gydag arbenigedd perthnasol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyson rhwng grŵp y prosiect a chynrychiolwyr y datblygwyr gyda chydweithwyr o wasanaethau eraill y Cyngor yn mynychu os oedd yr agenda'n gofyn am hynny. Roedd y ddau brif gwmni datblygu oedd ynghlwm yn dangos dull cadarnhaol o gyflawni datblygiad o ansawdd, a ddarluniwyd gan y buddsoddiad difrifol mewn celf gyhoeddus a'u parodrwydd i ymgysylltu â Chyngor y Dref.

Arweiniodd y dull "Amser i Ddylunio" at gronni gwybodaeth er mwyn i gynrychiolwyr yr Awdurdod Cynllunio Lleol a phobl leol allu gweld sut roedd y cynllun yn datblygu. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar bob cam o'r broses o gam y Cynllun Datblygu, yn ystod y Darlunio a'r Uwchgynllunio Is-ardal ac wedyn pan gyflwynwyd ceisiadau cynllunio.

Mae'r dull "Amser i Ddylunio" yn esiampl dda o bartneriaeth, lle mae'r gymuned, y datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn symud ymlaen gyda gweledigaeth ar y cyd. Rhoddodd hyn hyder rhwng pawb i symud y prosiect yn ei flaen a dealltwriaeth  o ba egwyddorion a chanlyniadau oedd angen eu cyflawni gan y datblygiad. Galluogodd y gweithdai cyson i bawb gael dweud eu dweud a chyfrannu at weledigaeth gyffredinol y cynllun.

Mae Barton Willmore, oedd yn rhan o uwchgynllunio'r cynllun, wedi paratoi dogfen sy'n asesu llwyddiant y cynllun o'r enw "Exploring Community - The Ashlands, Portishead". Fel rhan o hyn, cynhaliwyd nifer o gyfweliadau swydd ôl-alwedigaeth gydag amryw drigolion lleol. Mae hyn yn cyflwyno golwg gadarnhaol iawn o'r Ashlands gan y trigolion sy'n byw yno gyda rhai manteision allweddol yn cael eu disgrifio fel:

- Cymysgedd da o gymuned, oherwydd ystod o fathau o dai, fflatiau a chartrefi gofal.
- Cael cyfleusterau pob dydd fel siopau, ysgol, caffis a Swyddfa Bost gerllaw, gyda chymorth llwybrau cerdded diogel a deniadol i'w cyrraedd.
- Rhwydwaith da o fannau agored cyhoeddus, y gellir eu defnyddio ar gyfer ystod o weithgareddau ac sy'n cynnwys ardaloedd chwarae a chelf gyhoeddus.
- Y llwybrau beicio a cherdded diogel a chyfleus, yn enwedig yn cysylltu i mewn a thrwy'r warchodfa natur ac ar hyd Moryd Hafren.
- Mae'r dyluniad pensaernïol a ysbrydolwyd gan y lleoliad glan môr yn rhoi hunaniaeth amlwg i'r ardal.



Cynllun symud

## Egwyddorion dylunio allweddol

Canolbwyntiodd dull yr Awdurdod Cynllunio Lleol a dylunwyr ar gyflawni dylunio trefol da a chreu lleoedd trwy strydoedd o safon a mannau cyhoeddus ar hyd y datblygiad.

Roedd y diffyg nodweddion ar y safle'n golygu bod rhaid 'creu' cymeriad ac ymdeimlad o le ar y safle. Cyflawnwyd hyn trwy gyfres o ardaloedd cymeriad, lleoedd lleol a graddfa fach lle byddai dylunio a phensaernïaeth yn cael ffocws. Mae'r ardaloedd cymeriad yn cynnwys:

- **The Avenue** - mynedfa ffurfiol, llydan gyda choed;
- **Grîn y Pentref** - grîn pentref Seisnig mwy anffurfiol a hamddenol wrth wraidd y datblygiad;
- **Tir Comin y Pentref** - lle agored mawr wedi'i fywiogi gan ardal chwarae a llethrau wedi'u tirlunio;
- **Sgwâr y Pentref** - Sgwâr drefol fach sy'n darparu unedau adwerthu a chyfleuster gofal ychwanegol; a
- **Datblygiad Glan Môr** - ardal ddwysach a thalach sy'n mwyhau'r golygfeydd allan i'r foryd ac yn adlewyrchu pensaernïaeth glan môr Brydeinig ochr yn ochr ag adeilad tirnod 'goleudy'.

Nid yw'r ardaloedd cymeriad yn gwasgaru ar draws y safle cyfan ond maen nhw wedi'u crynodi ar hyd y prif lwybr ac ardaloedd allweddol y safle. Mae datblygiad y tu allan i'r ardaloedd hyn yn symlach o ran graddfa, cymeriad a defnydd materol. Mae hyn wedi helpu creu cyfres amlwg ac eglur o leoedd trwy'r datblygiad.

Canolbwyntiodd y prif egwyddorion dylunio hefyd ar ffiniau'r safle ac fe'u hintegreiddiwyd i'r cyd-destun o amgylch. Roedd hyn yn cynnwys ystyriaethau o ran sut byddai pobl yn mynd at y safle ac yn symud trwyddo. Roedd y cysylltiadau i gerddwyr a beiciau ar flaen hyn fel ag yr oedd sefydlu llwybr bysiau trwy galon y cynllun.


Edrych dros y Comin


Parc chwarae a chelf gyhoeddus y Comin

## Hwyluso gweithgarwch o fewn y cynllun

Arweiniodd y penderfyniad dylunio i greu cyfres o ardaloedd cymeriad ar hyd prif lwybr y cynllun at grynodiad o weithgareddau yn yr ardaloedd hyn. Ar y cyfan, caiff yr ardaloedd cymeriad eu ffurfio o gwmpas lleoedd agored cyhoeddus, gan gynnwys ardaloedd chwarae a chelf gyhoeddus ac maen nhw'n darparu ffocws ar gyfer y gymuned. Mae'r llwybr bysiau'n rhedeg ar hyd y prif lwybr hwn gydag arosfannau bysiau'n tueddu i gael eu goruchwylio'n dda ac o flaen y tai amgylchynol, gan alluogi ar gyfer perthynas agos rhwng y trigolion a'r lle ei hun. Gall y cyfuniad a'r crynodiad hwn o ddefnyddiau, cyfleusterau a dewisiadau dylunio, pob un mewn un ardal, arwain at leoedd gweithgar iawn ac a ddefnyddir yn dda.

Dyluniwyd y cynllun hefyd i hwyluso gweithgareddau a rhyngweithio rhwng pobl trwy:

– Goruchwylio llwybrau cyhoeddus i greu amgylcheddau diogel

– Mae'r ddwy ysgol ar ymyl y datblygiad er mwyn annog integreiddio rhwng trigolion Ashland a'r rhai o'r ardal ehangach

– Cysylltiadau da o'r datblygiad i'r warchodfa natur ac ar hyd Moryd Hafren.

– Mae'r llwybrau cludiant cyhoeddus yn dilyn mannau agored allweddol a chyfleusterau lleol, gan annog defnydd gan drigolion lleol.

– Cysylltiadau da i gerddwyr yn ôl i Farina a chanol tref Portishead.

Mae'r ardal yn ardal breswyl gan mwyaf, ond mae cartref gofal ychwanegol ac unedau adwerthu bach gyda Swyddfa Bost wedi'u lleoli yn sgwâr y pentref. Trwy roi'r Swyddfa Bost a'r siop nesaf at y cyfleuster gofal ychwanegol, mae'r dylunwyr yn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf o'r cyfleusterau hyn gan mai'r rheiny sydd fwyaf hygyrch i'r ystod ehangaf o drigolion. Mae hyn yn creu cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau ac yn annog ystod eang o bobl i ddod i mewn i sgwâr y pentref a'i defnyddio.


Personoli lle agored cyhoeddus


Stryd stablau


Defnyddio lliw mewn lleoliadau allweddol

## Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at greu lleoedd da

Hwyluswyd datblygiad y safle gan ddull cynllunio gweledigaethol a galfaneiddiodd y system gynllunio i gyflwyno'r adfywiad sylweddol angenrheidiol. Dilynwyd dull amlweddog oedd yn cynnwys defnyddio Polisïau Cynllun Lleol cefnogol, gweithgorau, tîm Awdurdod Cynllunio Lleol ymroddedig a gweledigaeth gytûn ac uwchgynlluniau is-ardal i sicrhau strategaeth datblygu gydlynol. Mae'r dull yn esiampl dda o bartneriaeth; cymuned, datblygwr ac awdurdod lleol yn symud ymlaen gyda gweledigaeth ar y cyd, ac felly'n cyflwyno elfennau allweddol o'r cynllun a datblygiad safon uchel cyffredinol.

Mae angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddeall anghenion y datblygwyr ac mae bod yn hyblyg yn ei ddull yn allweddol hefyd. Gwnaeth hyblygrwydd gyda'u safonau dylunio priffyrdd eu hunain a chael swyddogion priffyrdd yr Awdurdod Lleol yn rhan o'r tîm datblygu ymroddedig helpu i greu hierarchaeth unigryw o strydoedd a lleoedd. Roedd hyn yn cynnwys:

– Mabwysiadu strydoedd arwyneb ar y cyd cul

– Peidio â rhoi ar waith y pellter o 20m rhwng ffenestri trigiannol ar draws ardaloedd parth y cyhoedd

– Lleihau gwelededd blaen wrth gyffyrdd

– Llai o ofynion parcio

– Modurdai'n cael eu cyfrif yn fannau parcio

– Mabwysiadu priffyrdd gyda phalmentydd ar un ochr yn unig

Roedd y rhain yn ffactorau allweddol wrth gyfrannu at yr ystod o ardaloedd cymeriad a'r strydoedd, lonydd a stablau cydgysylltiedig culach, sy'n darparu llawer o gymeriad ac ymdeimlad o le'r cynllun. Petai'r safonau priffyrdd arferol wedi'u glynu wrthynt, byddai'r datblygiad cyffredinol yn edrych yn llawer mwy generig gyda'r un strydoedd a lleoedd yn cael eu hailadrodd ar hyd y safle.





Sgwâr y pentref

## Agweddau mwyaf llwyddiannus y datblygiad

Barn ar y cyd pawb sydd ynghlwm â'r cynllun yw bod y broses "Amser ar gyfer Dylunio" wedi gweithio'n dda iawn. Teimlir oherwydd y pwysau gwaith cyffredinol, gallai rhai meysydd o'r cynllun fod wedi'u gwella, petai mwy o amser ac adnoddau wedi bod. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae Ashlands wedi cyflwyno'r hyn roedd wedi bwriadu ei gyflawni o ran dyluniad trefol ac roedd yn un o'r cynlluniau Tai Eco mwyaf yn y DU.

Cyflymodd y dull hwn hefyd gyflwyniad y cynllun i'r datblygwyr gan eu bod nhw eisoes wedi buddsoddi yn yr egwyddorion dylunio ac roedd ganddynt yr hyder y byddai eu dyluniadau'n cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Wrth i'r tîm adeiladu'r lefel o fanylder trwy'r broses, gallai ymgysylltiad â'r rhanddeiliaid gael ei wella a mwy o gonsensws i fuddsoddi yn y datblygiad gan bawb sydd ynghlwm a phobl Portishead gael ei gyflawni.

Roedd y gydnabyddiaeth fod dyluniad yn broses esblygiadol a bod angen amser i ddatblygu hyn yn hanfodol i'r dull 'Amser i Ddylunio'. Roedd yr ymrwymiad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ddelio'n gyflym â'r Uwchgynllun Darlunio wrth i'r datblygwr dderbyn bod y broses yn gam allweddol yn y broses hon. Cafwyd croniad o ymddiriedaeth a pharch rhwng y gwahanol bartïon a dyna oedd y sail a grëwyd gan y gweithdai dylunio a wnaeth hefyd hwyluso'r dull hwn. Mae parodrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol/Awdurdod Priffyrdd i fabwysiadu'r ystod o briffyrdd hefyd yn elfen bwysig yn y gwaith cyflwyno a gynorthwywyd gan y Peiriannydd Priffyrdd sy'n rhan hanfodol o dîm prosiect yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Gwnaeth dirprwyo celf gyhoeddus i Grŵp Llywio Celf Gyhoeddus ymroddedig hefyd oruchwylio'r gwaith o gyflawni amodau cynllunio cysylltiedig oedd yn llwyddiant mawr hefyd. Cyflymodd y broses a chynyddodd amrywiaeth ac ystod y celfyddydau cyhoeddus yn yr ardal, hwyrach na fyddai'r pwyllgor cynllunio wedi'i gyflawni.

**"O gael ychydig iawn o gyd-destun safle uniongyrchol o bwys mawr, roedd y gallu i greu lle newydd yn llai cyfyngedig nag oedd yr achos mewn ardaloedd eraill."**

Kedrick Davies (dylunydd trefol yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer Ashlands 1998-2008)



"Hoelion Cwympedig"



"Pum Gwryd Llawn"



“Pryd y Gwnawn ni’n Tri Gwrdd Eto?”

# **Pumphouse,** Y Barri


**Lleoliad:**
Y Barri, Bro Morgannwg

**Awdurdod Lleol:**
Cyngor Bro Morgannwg

**Cleient:**
LoftCo.

**Tîm dylunio:**
Ellis Williams Architects






Uwchgynllun adfywio'r Ardal Arloesi

**Adeiladwyd Gorsaf Bwmpio'r Barri yn ystod y 1880au i ddarparu pŵer hydrolegol i ddociau'r Barri. Gwelodd dirywiad y dociau yn ystod yr 20fed Ganrif yr adeilad yn dadfeilio cyn iddo gael ei restru ym 1992 fel un o'r ychydig dai pwmpio sydd ar ôl yng Nghymru. Yn dilyn adnewyddiad o'r adeilad gan Gyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru, mae DS Properties (Loftco. erbyn hyn) wedi ailddatblygu'r adeiladu yn gynllun defnydd cymysg ffyniannus. Mae'r adeilad a ddyluniwyd gan Ellis Williams Architects (EWA) yn lletya bwyty, campfa, siop goffi a 15 fflat byw/gweithio. Crëwyd sgwâr o flaen y Pump House, a ddyluniwyd fel ystafell awyr agored ac mae'n rhoi'r rhyddid i'r sgwâr gael ei defnyddio ar gyfer nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â defnyddwyr yr adeilad neu'r Barri'n gyfan gwbl.**

## Datblygu'r weledigaeth

Mae'r Pumphouse yn ffurfio rhan o Ardal Arloesi Glannau'r Barri, a hwyluswyd gan bartneriaeth rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru. Y weledigaeth wreiddiol ar gyfer yr Ardal Arloesi oedd sefydlu ardal drefol sy'n cynnwys cymysgedd o ddysgu, cyflogaeth, twristiaeth, hamdden a defnyddiau preswyl sy'n ychwanegu at y Glannau. O ganlyniad, roedd y weledigaeth ehangach a nodau'r safle eisoes wedi'u cytuno arnynt, a lywiodd ac a ddylanwadodd ar yr hyn yr oedd angen i'r tîm dylunio ei gyflawni yn y Pumphouse ei hun.

Mae'r Pump House yn Adeilad Rhestredig Gradd II, yn dirnod lleol pwysig gyda'i simnai uchel 42 metr mawreddog, ac mae'n un o'r ychydig adeiladau tai pwmpio hydrolegol sy'n weddill yng Nghymru. Felly, canolbwyntiodd y tîm dylunio ar gadw'r adeilad yn union fel ag yr oedd gyda'r ailddatblygiad yn digwydd o fewn cyfyngiadau'r llinell to presennol ac agoriadau'r ffenestri. Roedd y tîm dylunio'n awyddus i alluogi'r adeilad i sefydlu a dylanwadu ar y lle terfynol, yn hytrach na diwygio'r adeilad i weddu i ddefnyddiau bwriadedig.


Rhoddodd y cleient y dasg i'r tîm dylunio greu ystod o ddefnyddiau masnachol A3/arlwyo ar y llawr gwaelod, gydag unedau byw/gweithio uwchben a lle parcio ceir cymesur ar y safle.


Roedd darparu unedau byw/gweithio'n gofyn am roi lloriau newydd i mewn i'r adeilad, a fyddai'n newid cyfaint gwag yr ochr fewnol, sy'n rhan bwysig o hanes a chymeriad yr adeilad. Roedd EWA yn awyddus i gadw profiad yr uchder llawn hwn mewn ardaloedd allweddol.

Bwriad EWA oedd gweithio gyda'r strwythur presennol a'i gadw ble bynnag y bo'n bosibl. Gwneud ymyriadau sensitif a alluogodd y defnyddiau newydd o'r adeilad i eistedd o fewn y gwead presennol a mwynhau lle a chymeriad yr adeilad.

**"I ni, rydyn ni'n cadw edrych ar yr adeilad sy'n dylanwadu ar y cynllun, yn na cheisio dylanwadu ar yr adeilad."**

Simon Bastion, LoftCo





Cynigion mewnol

## Deall ac ymateb i’r safle a’r cyd-destun


Treuliodd y tîm dylunio amser yn deall yr adeilad a sut mae’n eistedd yn ei gyd-destun ac yn dylanwadu arno. Gan fod yr adeilad yn rhan o gynllun adfywio’r ardal arloesi, roedd angen iddynt hefyd ddeall beth fyddai cyd-destun yr adeilad yn y pendraw a sut mae’n ffurfio rhan o’r weledigaeth newydd ar gyfer y glannau.

Saif y Pump House mewn safle amlwg yn Ardal Uwchgynllun yr Ardal Arloesi, ar ben y dociau ac uwch eu pen. O’r tu allan i’r adeilad, ceir golygfa dda tuag allan at y dociau.

Cydnabyddodd y tîm dylunio bwysigrwydd yr adeiladau i’r lleoliad lleol a sut mae’n sefyll yng nghanol yr ardal ehangach. Roedd angen iddynt ystyried ardaloedd allanol y safle i helpu creu cysylltiadau a symudiad rhwng y gwahanol ddefnyddiau. Nodwyd sgwâr wrth y fynedfa i’r adeilad i ymddwyn fel canolfan gymdeithasol a gweledol ar gyfer yr ardal arloesi a helpu i ddenu pobl i mewm i’r adeilad.

Cyhoeddwyd Datganiad Cynllunio gan Fro Morgannwg fel rhan o’r ymarfer marchnata ar gyfer ailddatblygiad y safle, a nodwyd bod… *“Diddordeb arbennig yr hen pumphouse yn bensaernïol ac yn hanesyddol ond mae cymeriad yr adeilad yn bennaf o ganlyniad i’w ffurf bensaernïol a natur ei adeiladwaith. Ystyrir felly ei bod hi’n hollbwysig y dylai ochr allanol yr adeilad barhau fel y greadigaeth wreiddiol. Bydd estyniadau i’r adeilad ond yn cael eu hystyried yn amodol ar gyfiawnhau eu heffaith yn llawn yn erbyn diddordeb arbennig yr adeilad.”*

Roedd llawer o’r paramedrau ar gyfer datblygu eisoes wedi’u penderfynu gan bobl eraill, felly gadawyd i’r tîm dylunio archwilio ac asesu beth allai a beth ddylid ei wneud gyda’r adeilad ei hun.





Cynllun cyfleoedd a chyfyngiadau

## Ymwneud y gymuned a rhanddeiliaid

Ar ddechrau'r prosiect, ymdrechodd y datblygwyr, LoftCo, i ymgysylltu â'r gymuned leol wrth ailddatblygu'r Pumphouse. Fel datblygiad masnachol yn bennaf, roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â pherchnogion busnes lleol a'r gadwyn gyflenwi leol. Gwnaed hyn gan gredu bod cynllun yn dechrau gyda chymunedau lleol a dylai gynnwys y gweithredwyr busnes lleol sy'n rhan o'r gymuned dan sylw. Yn ei dro, byddan nhw'n ymgysylltu ac yn cyfrannu mwy at y datblygiad oherwydd, o lwyddo, bydd y bobl sy'n defnyddio ac yn rhedeg y busnesau y tu mewn i'r adeiladau'n elwa arno.

Awgrymodd y cynigion dylunio cychwynnol a gyflwynwyd i Gyngor Bro Morgannwg bod yr adeilad presennol yn cael ei gadw, gyda lloriau canolradd newydd yn cael eu rhoi i mewn i alluogi ar gyfer darparu unedau byw/gweithio ar y lloriau uchaf, pob un yn cael eu cysylltu gan risiau 'drwm' allanol nodweddiadol. Lletyodd hyn risiau yn troi o gwmpas lifft i ddarparu mynediad i'r adeilad mewn ffordd weladwy iawn. Roedd disgwyl i'r drwm hefyd gael ei orchuddio mewn rhannau o wydr fertigol, wedi'u mowldio, a'i galluogodd i loywi fel llusern yn y nos, gan ddarparu "arwydd" newydd i'r adeilad, bod yna swyddogaeth gyhoeddus i'r cynllun. Pan gyflwynwyd y cynigion hyn i Gomisiwn Dylunio Cymru, mynegwyd pryderon ynghylch y nodwedd drwm hon. Edrychodd EWA eto ar yr egwyddorion cyntaf ar y natur o ddynodi'r fynedfa i'r defnyddiau newydd, a chaniatáu i bobl fynd i mewn a mynd i lefelau'r lloriau newydd. Casglon nhw y gallai'r drwm gael ei dynnu i ffwrdd yn unol â sylwadau'r Comisiwn, a chanfuwyd dull cylchredeg mewnol taclus a alluogodd gwell diogelwch a ffordd o wahanu mynediad i drigolion a defnyddwyr y bwytai. Creodd hyn fynedfa oedd yn fwy unol â'r adeilad presennol ac a adeiladodd ar yr egwyddor y dylai'r adeilad ei hun ddylanwadu ar y cynllun a pheidio â chyflwyno nodweddion newydd neu ddieithr.



Cynllun dadansoddi'r safle


Cynllun lleoliad y safle

## Egwyddorion dylunio allweddol

Ymateb cychwynnol LoftCo i'r adeilad oedd ail-greu fformat a gyflwynwyd yn llwyddiannus ar brosiectau diwydiannol hanesyddol eraill yn eu portffolio. Ystod o ddefnyddiau masnachol - A3/arlwyo ar y llawr gwaelod, gydag unedau byw/gweithio uwchben, gyda maes parcio cymesur ar y safle.

Ystyriodd EWA mai'r her dylunio fwyaf oedd goresgyn y materion cylchredeg fertigol i'r lefelau lloriau newydd mewn ffordd sensitif, a wnaed yn anos gan y gwahaniaeth mewn lefelau rhwng Ystodau'r Gogledd a'r De. Yn ogystal, sut i ddangos i'r cyhoedd arfaethedig weithgarwch masnachol i'r amgylchedd di-oed, heb gyfaddawdu cyfanrwydd yr adeilad gwreiddiol.

Ystyriwyd yr ardal allanol yn gyfle i greu darn pwysig o barth cyhoeddus sy'n briodol ac yn ymwneud â gorffennol diwydiannol yr adeilad. Mae ei safle ym mlaen yr adeilad yn lleoliad allweddol oherwydd mae modd ei weld a mynd ato o'r Doc.

Yr allwedd i LoftCo oedd galluogi maint yr adeilad i sefyll ar ei ben ei hun gan mai dyma un o'r adeiladau adfywio mwyaf arwyddocaol yn y Barri. Ymhlith y problemau i'w datrys oedd sut y byddai'n ffitio i mewn ac yn ychwanegu at yr Ardal Arloesi ehangach a goresgyn yr her rhwng lefelau parcio priodol a bodloni anghenion y busnesau a'r defnyddwyr lleol.




Sgwâr


## Hwyluso gweithgarwch o fewn y cynllun

O'r cychwyn, cysyniad y prosiect oedd rhoi ystod o ddefnyddiau ychwanegol i mewn i'r adeilad. Mae hwn bellach yn cynnwys bwyty, caffi, campfa ac unedau byw/gweithio. Mae'r defnyddiau hyn yn ychwanegu at ei gilydd ac yn sicrhau lefel o ddefnydd yn yr adeilad ac o'i amgylch yn ystod y dydd a'r nos. Mae trigolion yr unedau byw/gweithio'n defnyddio ac yn cefnogi'r amryw gyfleusterau yn yr adeilad ochr yn ochr â phobl yn dod i mewn i ddefnyddio'r cyfleusterau o'r ardal ehangach.

Crëwyd sgwâr newydd o flaen y Pumphouse, wedi'i fframio gan ddwy adain yr adeilad presennol. Mae hwn yn lle agored cyhoeddus mawr ar gyfer yr ardal arloesi a bydd yn ganolfan i'r Pumphouse ond hefyd i'r ardal ehangach. Mae dyluniad y dirwedd yn pwysleisio'r lle hwn fel ystafell awyr agored ac yn caniatáu i'r sgwâr gael ei defnyddio ar gyfer nifer di-ri o weithgareddau sy'n gysylltiedig â defnyddwyr yr adeilad neu'r Barri i gyd.

Mae mynediad i gerddwyr i'r Pumphouse yn cysylltu ag uwchgynllun ehangach yr ardal arloesi, gan gysylltu ochr y dociau i'r dwyrain ac adeilad y BSC i'r gorllewin. Ystyrir y parcio o gwmpas y sgwâr yn ofalus er mwyn sicrhau bod cerddwyr a cherbydau'n cael eu cadw ar wahân i wneud y mwyaf o'r teimlad o le trefol i gerddwyr.





Unedau byw/gweithio

## Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at greu lleoedd da


TMae'r prosiect hwn wedi adfer ac ail-bwrpasu adeilad rhestredig hanesyddol a thirnod lleol ar gyfer cymuned y Barri a Chymru, i ddod yn ganolfan gymdeithasol i'r ardal leol.

Cred LoftCo. fod creu lleoedd da yn cynnwys defnyddio dull holistaidd a modern o ran sut mae pobl yn byw, gweithio a chwarae'n gyffredinol. Maen nhw'n cydnabod bod yna angen cyffredinol i leihau'r defnydd o geir a gobeithio y gall y prosiect hwn wasanaethu fel model i bobl eraill o ran sut i gyflwyno safle defnydd cymysg cynaliadwy. Ni all lleoedd fforddio cael swyddfeydd mewn un ardal a chwarae mewn un arall ac edrych i fyw rhywle arall er mwyn cyflawni hyn. Bu goresgyn y materion hyn a chreu lleoedd i bobl fyw, gweithio a chwarae ynddynt yn allweddol i lwyddiant y Pumphouse. Mae wedi arwain at gynllun defnydd cymysg bywiog gyda busnesau ffyniannus a thrigolion hapus.

Gwnaeth LoftCo. yn siŵr eu bod yn cysylltu'n llwyr gyda'r tîm dylunio i sicrhau bod y cynllun yn addas i'r diben. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod anghenion masnachol y busnes yn cael eu bodloni o ran gofynion lle, parcio a chael sail gwsmeriaid addas yn lleol ac o fewn yr ardal ehangach. Roedd anghenion trigolion yr unedau byw/gweithio hefyd yn allweddol a sut byddant yn rhyngweithio 'chwarae' gyda'r busnesau. Gall hyn fod yn ddigon heriol, ond yn yr achos hwn, cafodd ei gymhlethu gan y gofyniad i gynnal a dim ond cael effaith gyfyngedig o'r Adeilad Rhestredig. Dyna pam yr oedd LoftCo ar flaen y gad o ran sicrhau mai'r adeilad ddylai fod y prif ddylanwad ar y rhagolygon masnachol ac nid y ffordd arall. Galluogodd hyn iddynt sicrhau busnes bywiog a chynaliadwy yn lleoliad mawreddog ac yng ngwead y Pumphouse.

**"Rhaid cadw mawredd yr adeilad os ydych chi'n gweithio ar dreftadaeth neu gofebion hanesyddol"**

Ymwelydd â'r cynllun




Tŵr y Pumphouse

## Agweddau mwyaf llwyddiannus y datblygiad

Mae'r Pumphouse wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda chaffi, bwyty a champfa'n agor yn yr adeilad, ochr yn ochr â gwerthu'r holl unedau byw/gweithio. Mae wedi helpu i adfywio ardal glannau'r Barri ac ystyrir hyn fel glasbrint ar gyfer ailddatblygiad cynaliadwy o lefel uchel. Bu'n gatalydd i'r ardal ehangach gyda dull tebyg yn cael ei gymryd mewn adeilad hanesyddol arall ar lannau'r Barri, sef y Goodsheds. Bydd hyn yn helpu ffurfio'r Stryd Fawr Drefol gyntaf newydd yn y DU sy'n estyniad o'r dull byw, gweithio chwarae 24/7 cynaliadwy.

Mae LoftCo. yn gweld mantais cynlluniau dan arweiniad y gymuned gan na allant sicrhau mwyach y bydd busnesau eisiau prydlesu lleoedd yn y tymor hir, felly mae eu hintegreiddio yn y gymuned yn cynnig sefyllfa llawer mwy cynaliadwy. Mae hyn yn y gobaith y bydd cyfleoedd a phobl eraill drwy'r amser a fydd am gymryd dros unrhyw leoedd segur gan ei fod yn rhan o'u 'cymdogaeth' leol ac felly pobl leol sydd yn y lle gorau i gael yr effaith fwyaf.

Mae'r cynllun hefyd yn esiampl o sut mae gan ddatblygwyr fwy o ddiddordeb mewn dull cynaliadwy gyda llifoedd incwm amrywiol, sydd yn meddu ac sy'n annog ôl troed carbon isel, trwy gymysgu defnyddiau gyda'i gilydd. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gweld manteision y cynllun adfywio hwn, yn hytrach na chwilio am denant un defnydd graddfa fawr, na fydd o reidrwydd yn aros o gwmpas yn y tymor hir ac yn dibynnu ar ddefnydd o geir.

Mae'r gymuned wedi bod ar flaen y gad yn y prosiect hwn a chyda strwythur annibynnol dan arweiniad y gymuned, roedd hi'n bwysig iawn bod pobl yn buddsoddi ynddo o'r diwrnod cyntaf un. Mae'r adeilad ei hun wrth wraidd llwyddiant y cynllun a gweithiodd y tîm dylunio'n agos gydag ef a galluogodd ei gyfaredd ei hun i ddod ag ansawdd ychwanegol i'r cynllun



Mynedfeydd i eiddo masnachol yn edrych dros y Sgwâr

# **Paintworks Phase III,** Bryste

**Lleoliad:**
Paintworks, Bryste, BS4 3AR

**Awdurdod Lleol:**
Cyngor Dinas Bryste

**Cleient:**
Crest Nicholson SW a Verve Properties Ltd

**Tîm dylunio:**
Pensaer Dylunio – Stride Treglown
Pensaer Adeiladu – Scott Brownrigg
Peiriannydd Saernïol – Reuby and Stagg
Peiriannydd M+E – Crouch Perry Wilkes
Penseiri Tirwedd – Pegasus Group
Tîm adeiladu – Crest Nicholson SW

**Dyddiad cwblhau:**
Diwedd 2018

**Gwerth y contract:**
oddeutu £50M

**Arwynebedd y safle:**
2.03 Hectar

**Dwysedd:**
Tua 108 dph

**Ffynhonnell gyllid:**
Preifat

**Gwobrau:**
Rhestr Fer Gwobrau Dylunio Tai 2018
Gwobrau eiddo Bryste 2018 – Cydenillydd y Datblygiad Preswyl Gorau
Gwobrau Insider 2018 – Enillydd y Datblygiad Preswyl Gorau

Golygfa o'r gogledd





Digwyddiad barbeciw ar y stryd

**Mae Paintworks Phase III yn gynllun preswyl a masnachol defnydd cymysg, ar safle tir llwyd yn edrych dros yr Avon ym Mryste. Mae'r datblygiad a ddyluniwyd gan Stride Treglown ac a ddatblygwyd a adeiladwyd gan Crest Nicholson, yn cynnwys 210 o gartrefi a fflatiau, 11 uned byw/gweithio a 6700metr sgwâr o le masnachol. Mae'r datblygiad cyfan wedi'i adeiladu ar bodiwm, gan alluogi rhwydwaith o strydoedd i gerddwyr, alïau, sgwariau cyhoeddus a iardiau i wasanaethu defnyddiau preswyl a gwaith. Mae meysydd parcio, systemau gwres canolog a gwasanaethau eraill wedi'u cuddio mewn maes parcio tanddaearol. Mae strydoedd cul, palet bensaernïol amrywiol ac amgylchedd rhydd o geir yn creu lle unigryw a hynod gymdeithasol i fyw a gweithio ynddo.**





Paintworks cam I/II

## Datblygu'r weledigaeth

Roedd cynllun y cysyniad yn destun mini gystadleuaeth ddylunio ar gyfer Crest Nicholson De Orllewin Lloegr gyda thri ymarfer pensaernïol yn cyflwyno cynigion cychwynnol. Dewiswyd Stride Treglown i symud y prosiect yn ei flaen oherwydd eu cysyniad/gweledigaeth dylunio cryf a fyddai'n cyflwyno lle arloesol i fyw a gweithio ynddo ac fe'i hystyriwyd yn fasnachol ymarferol. Wedyn gwerthwyd cysyniad y dyluniad i Verve Properties Ltd. sy'n berchen ar y safle ac a fyddai'n cymryd yr eiddo masnachol fel rhan o fargen y tir. Arweiniodd datblygiad dylunio pellach gan Stride Treglown at greu dyluniad masnachol ymarferol yr oedd gan Crest Nicholson a Verve frwdfrydedd i'w gyflwyno.

Ochr yn ochr â datbygu gweledigaeth unigryw ar gyfer y safle, roedd rhaid i Stride Treglown ystyried goblygiadau masnachol a chynaliadwyedd y cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyflawni'r dwysedd pennaf a fyddai'n hwyluso adeiladu strwythur y podiwm i greu'r amgylchedd i gerddwyr oedd yn rhan o'r weledigaeth.
- Cyflawni perthynas gytûn rhwng tai, fflatiau a lle masnachol gyda dyraniadau lle tynn.
- Cynnal cysyniad dylunio solar goddefol a chyfyngu ar gorgysgodi lleoedd gardd breifat a chyhoeddus yn erbyn y pwysau i gynnal a chynyddu dwysedd mewn rhai ardaloedd.
- Cyflwyno cymysgedd amrywiol o dai, fflatiau a lle masnachol.
- Cyflwyno lle masnachol a ddarparodd lleoedd wedi'u teilwra a'u hunan-frandio i Verve Properties er mwyn caniatáu unedau llai o faint yng Nghamau I a II i dyfu.
- Bodloni'r nifer fawr o heriau dylunio technoleg a godwyd ar hyd y ffordd, er enghraifft:
    - Gwneud i'r lefelau weithio'n effeithlon er mwyn lleihau swm y torri a llenwi
    - Dwyn ymlaen prosiect sy'n cydymffurfio â thân heb fynediad i gerbydau ar gyfer brigâd dân i'r rhan fwyaf o'r llety gan ei fod ar bodiwm
    - Adeiladu datblygiad mewn camau ar bodiwm gyda phreswyliaeth raddol a phobl sy'n byw ac yn gweithio mewn datblygiad dwys.

Adeiladodd Crest Nicholson y datblygiad, ac felly roeddent yn gallu gweithio'n agos gyda'r penseiri a'r peirianwyr i adeiladu'n union i'r lluniadau dylunio cynlluniau. Sicrhaodd hyn fod y cynllun yn cael ei adeiladu i'r safonau uchaf a bod yr holl gysyniadau dylunio a'r egwyddorion a gynhaliwyd gan Stride Treglown yn cael eu trosi'n uniongyrchol i'r cynllun terfynol.

Y rhwystr fwyaf i gyflawni'r weledigaeth oedd y 2 flynedd a gymerodd i gaffael caniatâd cynllunio. Roedd dwysedd y cynllun yn ofid i'r Awdurdod Lleol (ALI) ac roedd angen i bob agwedd ar y dyluniad gael ei chefnogi gan ddadansoddiad helaeth a dyluniad manwl pellach. Arweiniodd hyn at gyflwyniadau manwl pellach i esbonio bod y cynllun y tu hwnt i'r wybodaeth sy'n gofyn am gais cynllunio fel rheol. Fodd bynnag, gwnaeth y cwestiynau a'r dadansoddi dilynol ddatblygiad sy'n gweithio'n galed i greu lleoedd amrywiol sy'n gweithio i bob defnyddiwr, boed yn drigolion neu'n ymwelwyr mewn cynllun lle mae gofod ar bremiwm bob amser.

**"Prynodd Crest Nicholson SW y safle ac roedd yn awyddus i gyflwyno prosiect etifeddiaeth."**

Stride Treglown

## Deall ac ymateb i'r safle a'r cyd-destun

Paratowyd dadansoddiad safle cynhwysfawr gan Stride Treglown a'i osod yn y Datganiad Dylunio a Mynediad, a gyflwynwyd fel rhan o'r cais cynlluno. Roedd hyn yn cynnwys deall graen, teimlad a llwyddiant masnachol Paintworks Cam I a II, sydd â brand amlwg ac sy'n cael ei hoffi'n dda gan denantiaid. Roedd angen i'r penseiri hefyd ddeall tai lleol, mynwentydd hanesyddol, amgylchedd yr afon, cynigion masnachol lleol a lleoedd cyhoeddus.

Llywiodd y dadansoddiad o'r safle hwn y cysyniadau dylunio canlynol:

- Cyflwyno llwybr lletraws a fyddai'n cymryd pobl ar droed neu ar gefn beic o Gam I a II Paintworks i'r bont grog hanesyddol i gerddwyr sy'n croesi Parc Sparke Evans.
- Creu stryd ochr yn ochr â mynwent hanesyddol St Mary Redcliffe a fyddai'n cysylltu â'r strydoedd teras Fictoraidd cyfagos
- Creu promenâd afon sy'n cysylltu amryw gamau Paintworks I a II a'u cwblhau wrth i Gam IV gael ei gyflwyno.
- Y llwybrau niferus rhwng y podiwm, promenâd yr afon a'r strydoedd o amgylch i greu athreiddedd i gerddwyr
- Gosod adeiladau i ymateb i gyd-destun ac i greu amgylchedd cytûn




Paintworks cam I/II


Golygfa o'r awyr




Cynllun mawr darluniadol




Cynllun cyfyngiadau a chyfleoedd

## "Roedd ein pencampwyr yn gleientiaid a gredai yn y cynllun."

Stride Treglown




Cynllun cysyniad

## Ymwneud y gymuned a rhanddeiliaid

Yn ystod datblygiad yr uwchgynllun amlinellol yn 2012, cyflwynodd y datblygwyr y cynllun i Fforwm Dylunio Trefol Bryste a Siambr Fasnach Bryste. Cysylltwyd ag Avril Baker Consultancy (ABC) i gydlynu digwyddiad ymgynghori cymunedol ar gyfer y cyhoedd ac i randdeiliaid eraill adolygu'r cynigion a rhoi eu hadborth. Cynhaliwyd hyn ar safle Paintworks ym mis Tachwedd 2012 ar ffurf arddangosfa galw heibio. Dosbarthwyd llythyrau hysbysu ar raddfa eang i randdeiliaid allweddol, trigolion lleol a busnesau. Crynhowyd yr adborth o'r digwyddiad hwn mewn adroddiad ymgynghori gan ABC ac ystyriwyd y sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd yn dilyn y digwyddiadau hyn a'u hintegreiddio i'r cynigion lle bo'n briodol.

Yn dilyn cymeradwyaeth cynllunio'r cais amlinellol, symudwyd y cynllun ymlaen tuag at gais materion a gedwir yn ôl. Cyflwynwyd y cynllun datblygu i Gadwyn Mynediad Ffisegol Bryste sy'n rhoi cyngor mewn perthynas â mynediad i bobl anabl. Roedd hwn yn ddigwyddiad gwerthfawr a helpodd sicrhau y gallai cysyniad y podiwm gael ei weithredu'n llwyddiannus ac yn gynhwysol. Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiadau ymgynghori gyda'r BUDF (Ebrill 2013) a'r gymuned leol (Gorffennaf 2013) a ddangosodd datblygiad cadarnhaol y cynllun ac a wahoddodd sylwadau pellach. Crynhowyd eto'r adborth a dderbyniwyd gan ABC ac fe'i hymgorfforwyd yn y cynigion terfynol.

Cynhaliwyd yr arolwg ôl-breswylio gydag amryw drigolion y cynllun. Derbyniodd y rhain lawer o adborth cadarnhaol am y datblygiad. Trwy dudalen Facebook gymunedol, cafodd digwyddiadau parhaus fel rhannu gofal plant, partïon stryd, barbeciws haf eu trefnu yn y nifer fawr o leoedd ar y cyd o gwmpas caatrefi a gweithfannau pobl.

> **"Rydym wedi gweld y lleoedd sy'n cael eu defnyddio gan gymuned fywiog ac mae gweld drysau blaen agored a sgwteri plant y tu allan yn rhoi hyder i ni fod hon yn gymuned llawn ffydd."**
>
> Stride Treglown



Parcio tanddaearol islaw cysyniad y dec preswyl



Adran y safle

# Egwyddorion dylunio allweddol

Mae egwyddorion dylunio allweddol y cynllun yn cynnwys:

- Creu llwybr lletraws newydd trwy galon y safle i ffurfio cyswllt newydd rhwng datblygiad ehangach Paintworks a phont gerdded sy'n darparu mynediad dros yr afon, i lwybr beicio mawr ac ardal o barcdir deniadol. Mae hyn o fantais i drigolion newydd a'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r safle ac yn gwella mynediad i amwynderau lleol presennol. Mae'r meingefn lletraws yn croestorri patrwm stryd gogledd-de cyffredinol gan sicrhau patrwm stryd athraidd ond wedi'i ddiffinio'n dda.
- Manteisiwyd ar y safle ar lethr hwn i greu maes parcio tanddaearol mawr o dan bodiwm uchel. Adeiladwyd y datblygiad cyfan ar y podiwm uchel, gan ddarparu amgylchedd heb geir i'r holl anheddau ac unedau masnachol. Mae cyfleuster y maes parcio diogel yn darparu lle parcio digonol i geir a beiciau ar gyfer y datblygiad ac mae hefyd yn lletya lle storio i sbwriel a gwastraff ailgylchu. Mae nifer o lifftiau, grisiau a rampiau'n darparu mynediad diogel a chyfleus rhwng y podiwm, y maes parcio a'r safle amgylchynol.
- Nodweddir y cynllun gan y strydoedd i gerddwyr a lleoedd cyhoeddus agos, y defnydd o waith brics a deunyddiau diwydiannol eraill a'r defnydd chwareus o liw. Mae'r nodweddion hyn yn cyfeirio at ddefnydd diwydiannol hanesyddol y safle ac yn ymwneud yn gadarnhaol ag ailddatblygiad presennol Paintworks.
- Mae cynllun yr uwchgynllun wedi'i ddylunio i weddu i'r graen trefol lleol ac yn defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan nodweddion naturiol y safle. Trwy leoli adeiladau o fflatiau talach ar hyd Afon Avon, sy'n rhedeg ar hyd ffin yr ochr ogleddol, caiff gorgysgodi ei leihau. Ynghyd â'r patrwm strydoedd o'r gogledd i'r de, gwneir y mwyaf o dreiddiad yr haul i'r datblygiad a gellir cael golygfeydd o'r afon o'r rhan fwyaf o leoedd a llawer o anheddau.
- Ffurfia cyfresi o glosydd a sgwariau bwyntiau nodol wrth groesffyrdd rhwng y rhwydwaith o strydoedd ac alïau. Mae gan bob un o'r lleoedd hyn eu graddfa a'u cymeriad unigryw eu hunain gan ddarparu syndod a hyfrydwch wrth ddod ar eu traws. Mae adeiladau allweddol wedi'u lleoli mewn lleoliadau strategol yn y datblygiad i gynorthwyo gyda chyfeiriadedd a chanfod ffyrdd. Mae'r defnydd o liw, gorffeniadau allanol a nodweddion pensaernïol eraill wedi'u rheoli'n ofalus i greu canolbwyntiau a diffinio'r hierarchaeth o leoedd.



Amrywiaeth trwy lwybr lletraws



Unedau byw/gweithio



Sgwâr ganolog

## Hwyluso gweithgarwch yn y cynllun

Er mwyn creu cymuned amrywiol a chynaliadwy, mae'r datblygiad yn darparu ystod eang o wahanol fathau, deiliadaethau a meintiau o dai gan gynnwys unedau byw-gweithio a llety rhent fforddiadwy. Mae natur defnydd cymysg y cynllun yn darparu ystod o gyfleoedd ar gyfer cyfleusterau sy'n cynnwys siopau a chaffis yn ogystal â lle masnachol. Yn y cynllun adeiledig, mae'r adeiladau masnachol yn cynnwys oriel ac archif ffotograffwyr Sefydliad Martin Parr ochr yn ochr â swyddfeydd y Gymdeithas Ffotograffig Frenhinol, The Rose Shed Florist a pheirianwyr cynnyrch Crux. Mae lleoedd awyr agored wedi'u lleoli'n ofalus er mwyn darparu'r budd mwyaf i drigolion a gweithwyr fel ei gilydd.

Mae gan yr holl dai erddi diogel a phreifat ac, at ei gilydd, mae gan fflatiau lleoedd awyr agored ar ffurf balconïau neu derasau. Mae gan y tai ddrysau blaen sy'n agor yn uniongyrchol i'r strydoedd i gerddwyr gydag ardaloedd o blanhigion gerllaw er mwyn rhoi lle amddiffynnol a phersonoli. Mae'r trigolion hefyd wedi ychwanegu cymeriad a phersonoli at y lleoedd cymunedol trwy ddefnyddio, er enghraifft, baneri a fflagiau ar gyfer digwyddiadau, planhigion a seddau ac ati.

Mae cymysgedd o ddefnyddiau'n darparu defnydd 24/7 o'r datblygiad a, gyda busnesau bach wedi'u hymgorffori mewn cymuned leol, ymddengys bod ymdeimlad o falchder yn llwyddiant brand eu cwmni sy'n gysylltiedig â brand ehangach y datblygiad.




Amrywiaeth mewn uchderau

## Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at greu lleoedd da

Defnyddiodd yr Awdurdod Lleol Fforwm Dylunio Trefol Bryste i roi sylwadau ar Greu Lleoedd ochr yn ochr â'u Dylunwyr Trefol eu hunain. Roedd ffocws y datganiad Dylunio a Mynediad yn bennaf ar greu lleoedd a'r gofod rhwng adeiladau a sut mae pob adeilad yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol y datblygiad. Gan fod y cynllun mor ddwys, mae'r perethnasoedd cymhleth o adeiladau a defnyddiau wedi golygu bod angen i'r penseiri osod pob adeilad yn ofalus.

Trwy gydweithio, roedd y datblygwr preswyl (Crest Nicholson) a'r datblygwr masnachol entrepreneuraidd (Verve Properties), yn allweddol i gyflwyno datblygiad defnydd cymysg mor gymhleth. Ysgogon nhw'r angen am adeiladau wedi'u hunan-frandio wedi'u teilwra, sy'n rhoi hyfywedd ariannol i leoedd maint/siâp heb fod yn sefydliadol bach anodd eu defnyddio, er budd y cynllun.

Roedd y fargen ar y tir hefyd yn allweddol wrth wneud i bob un o'r defnyddiau weithio'n ariannol. Wrth werthu tir o Verve Properties i Crest Nicholson, roedd yn cynnwys trosglwyddo perchnogaeth o'r holl adeiladau masnachol mewn cyflwr cragen a chraidd i Verve Properties a aeth ymlaen i werthu nhw i gyd i'r tenantiaid.

Mae deiladaeth a gwerthiant 100% o'r eiddo masnachol yn brawf bod y weledigaeth fasnachol wedi gweithio.

Penodwyd y tîm dylunio ar gyfer y prosiect trwy'u sail sgiliau a'r angen am ymatebion creadigol i heriau'r cynllun, yn hytrach na dim ond ar sail ystyriaethau ariannol. Yn ei dro, rheolwyd y tîm gan Crest Nicholson a hyd at gyflwyno'r cais cynllunio, ymgorfforwyd proses helaeth o brofion technegol, ariannol, marchnata a chyflawni. Canlyniad y cynllun gorffenedig hwn yw bod popeth yr un fath â'r caniatâd cynllunio cymeradwy ac nid oes angen newidiadau dylunio i wneud iddo weithio.

Mae Dinas Bryste bellach wedi cynnwys astudiaeth o Paintworks Cam III yn eu Sail Dystiolaeth SPD Byw Trefol, fel enghraifft o Greu Lleoedd da.



Y brif fynedfa o gam I/II



Strydoedd cul heb geir



Seddau a chynwysyddion planhigion wedi'u hintegreiddio ar y stryd

## Yr agweddau mwyaf llwyddiannus ar y datblygiad

Mae natur ddwys y cysyniad dylunio wedi golygu y bu rhaid i'r penseiri ystyried cyfansoddiad, ffenstri a golygwedd pob adeilad mewn cryn fanylder. Golygai hyn edrych drosodd/dadansoddi perthynas helaeth, astudiaethau ar led strydoedd, dadansoddiad o olau haul a golau dydd a diffiniad o orffeniadau a lleoliadau/gorffeniadau ffenestri i bob ffin. Mae hyn yn hynod berthnasol lle mae edrych drosodd a chamddefnydd potensial o le cyhoeddus yn cael ei ganfod yn broblem gan yr Awdurdod Lleol. Arweiniodd hyn at gynllun sy'n cael ei hunan-blismona gan y gymuned gyda phob ardal sy'n cael eu hedrych drostynt ar y lefel mynediad a lefel y podiwm. Mae'r cymysgedd o ddefnyddiau gwaith a phreswyl yn ychwanegu at hyn gyda rhyngweithio wedi'u cydblethu rhwng y ddwy set o ddefnyddwyr.

Mae'r broses hon o argyhoeddi'r Awdurdod Lleol y byddai'r cynllun, ar y dwysedd a ddyluniwyd, yn lle llwyddiannus i fyw a gweithio ynddo, wedi cymrryd cwpl o flynyddoedd o drafod helaeth.

Mae Paintworks Cam III, gyda'i faes parcio tanddaearol a llwybrau i gerddwyr i ddrysau blaen, wedi cyflwyno egwyddorion dyluniad Cydletya (Cymuned o gartrefi wedi'u clystyru o gwmpas lle cymunedol). Mae'n rhaid i'r trigolion a'r gweithwyr i gyd basio drysau blaen eu cymdogoion ac mae'r egwyddor Cydletya o weld eich cymydog a dal i fyny wedi'i hymgorffori yn y dyluniad. Mae canopïau dros y drysau blaen a chynwysyddion planhigion i eistedd arnynt, yn caniatáu cyfarfodydd achlysurol wrth i chi adael gartref neu ddod adref. Mae'r penseiri, y cleientiaid a'r trigolion yn cytuno mai dyma fu gwir lwyddiant y cynllun.

Cynyddwyd lled y stryd gan 1m ar gais yr Awdurdod Lleol. Dadleuodd y penseiri y byddai cadw'r 1m yn y pellteroedd cefn wrth gefn wedi bod o fwy o fantais gwerthfawrogol gan y byddai'r gerddi ychydig yn fwy o faint. Arweiniodd hyn at bellteroedd blaen wrth flaen o 8m ac oddeutu 12-14m o bellteroedd cefn wrth gefn. O'u hadborth nhw, nid yw'r pellteroedd tynnach a byw'n agosach wedi cyflwyno unrhyw broblemau i drigolion ac mewn gwirionedd, ymddengys ei fod wedi meithrin mwy o ryngweithio cymunedol.

Mae'r gwaith celf integredig ar hyd y lleoedd cyhoeddus wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac mae wedi bywiogi a chyfoethogi'r cynllun.

Ni lwyddodd nifer o gysyniadau dylunio i'w gwneud hi trwy'r broses ddylunio, gyda Stride Treglown yn galarnadu eu colled i'r cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Roedd y cynigion dylunio cychwynnol yn cynnwys ateb ynni CHP canolog, wedi'i letya mewn ystafell waith sydd i'w gweld o'r Sgwâr. Byddai hyn wedi rhoi'r cysyniad fod byw cynaliadwy wrth wraidd y cynllun ac yn caniatáu mwy o ddealltwrwiaeth o'r cynllun i drigolion lleol. Fodd bynnag, newidiwyd hyn i waith boeler canolog a golygai ei faint llai ei fod yn ffitio i mewn i'r islawr ac nid oedd angen iddo fod yn 2 lawr o uchder, felly, yn anffodus, ni ellir ei weld mwyach.
- Roedd y penseiri am ddarparu rhywfaint o amwynder cyhoeddus ar bromenâd yr afon a dyluniwyd cyfres o blatfformau bargodol dros yr afon fel lle deinamig i eistedd a darllen llyfr neu ddim ond ymlacio. Yn y pen draw gwelodd amryw resymau technegol a chost hyn yn cael ei hepgor o'r cynllun
- Yn ogystal, rhagwelodd y cynigion dylunio gaffi yn y Sgwâr yn defnyddio'r teras bargodol mawr sy'n edrych dros yr afon fel lle eistedd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ymarferol felly mae gan y teras bellach lai o bwrpas yn y cynllun cyffredinol.

# "Byddwn i'n hapus i ddod i fyw yma."

Ymwelydd â'r cynllun

# **Tŷ Pawb,** Wrecsam

**Lleoliad:**
Stryd y Farchnad, Wrecsam, LL13 8DA

**Awdurdod Lleol:**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Cleient:**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Tîm Dylunio:**
Pensaer – Featherstone Young
Tîm Dylunio – Sarah Featherstone, Benedetta Rogers, Ed Soden
Penseiri'r Prosiect – Benedetta Rogers, Ed Soden
Peiriannydd Saernïol – Civic/Haltec
Contractwr Adeiladu – Waynne Construction

**Dyddiad cwblhau:**
Mai 2018

**Gwerth adeiladu:**
£4m

**Arwynebedd Mewnol Gros:**
354 metr sgwâr

**Ffynhonnell ariannu:**
Cyngor Celfyddydau Cymru, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru a Chyngor Wrecsam

**Gwobrau:**
Enillydd Cyffredinol ac Enillydd Diwylliannol Gwobr AJ Retrofit 2019, Enillydd Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol, Gwobr yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, Rhestr Fer (enillydd i'w gyhoeddi) ar gyfer Gwobr RIBAJ MacEwan Er Lles Pawb

Crëwyd lleoedd cymdeithasol newydd





Lle i'r gymuned gyfan

**Mae Tŷ Pawb yn ganolfan gelfyddydol a diwylliannol, sydd wedi'i hymgorffori'n neuadd farchnad bresennol ac yn faes parcio aml-lawr yng Nghanol Tref Wrecsam. Fe'i dyluniwyd gan Featherstone Young Architects ac mae'n cynnwys orielau celf, stondinau marchnad, lle perfformio, canolfan ddysgu, caffis a bariau. Mae stiwdios ac ystafelloedd cyfarfod i arlunwyr a staff yr oriel yn edrych dros leoedd uchder dwbl newydd eu creu.**

## Datblygu’r weledigaeth

Dioddefodd Wrecsam o lefelau uchel o dlodi ac amddifadedd ac yn 2015, lluniodd y Cyngor uwchgynllun i adfywio’r dref. Nodwyd Marchnad y Bobl, maes parcio aml-lawr a neuadd farchnad o’r 1980au, fel adeilad allweddol ar gyfer adfywiad a sicrhawyd ei ddyfodol pan ddyfarnwyd cyllid gan brosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Wrecsam i ehangu Oriel Wrecsam a chreu canolfan gelfyddydau a diwylliannol newydd yn yr adeilad.


Cynhaliwyd arfarniad opsiynau ar sawl safle yn y dref gan y penseiri Ash Sakula a’r ymgynghorwyr busnes Bop Consulting. Adeilad Marchnad y Bobl oedd y dewis a ffafriwyd gan gynnig mwy o le i ehangu i’r dyfodol a lleoliad canolog da. Enillodd y Featherstone Young Architects y comisiwn trwy dendr cystadleuol ym mis Awst 2015.

Lluniwyd brîff y cleient gan dîm celfyddydau Oriel Wrecam dan arweiniad Adran Treftadaeth ac Adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd y brîff yn helaeth ac yn canolbwyntio ar gyfleuster celf gyda nifer o leoedd celf ymroddedig penodol oedd yn cynnwys tri lle oriel traddodiadol, lle perfformio, sinema, canolfan ddysgu a stiwdios i arlunwyr. Nodwyd bod y rhan ar wahân i stondinau’r farchnad bresennol. Nododd ymgynghoriad cynnar gyda masnachwyr y farchnad a’r gymuned ehangach bryderon efallai nad yw’r ddau weithgaredd yn eistedd yn dda gyda’i gilydd. Fodd bynnag, gan gydnabod bod yna fuddiannau potensial y gallai’r ddau ddod at ei gilydd, awgrymodd Featherstone Young y gellir ailedrych ar y brîff a’u bod yn cynnig dim ond un lle oriel pwrpasol gyda chyfres o leoedd llacach, llai diffiniedig y gallai’r farchnad a chanolfan y celfyddydau eu rhannu.


Cyfeiria FYA at hyn fel y cysyniad ‘lle llac’, lle mae dylunwyr a churaduron yn creu fframwaith cyffyrddiad ysgafn sy’n galluogi pobl eraill i lenwi’r bylchau. Yn nes ymlaen, aeth y cysyniad ‘lle llac’ hwn i gael ei fabwysiadu gan raglennu celfyddydau, adeiladu mewn lle llacach o gwmpas yr arddangosfeydd teithio sefydlog ar gyfer arddangosfeydd teithio byrrach, mwy di-oed sy’n ymateb i faterion lleol pwysig, sydd bellach yn cael ei adnabod fel y rhaglen ‘Angenrheidiau’.

Cafodd dull FYA ei gymell hefyd gan y cyfleoedd a gynigir gan y strwythur maes parcio cadarn enfawr. Er gwaethaf cynllun dwfn a lleoedd tywyll yr adeilad, aeth FYA i’r afael â’r strwythur trwy wneud yn amlycach y soffitiau concrit cerfluniol a’r trawstiau rhesog a ddiffiniodd y maes parcio ar ramp uwchben. Cliriwyd y lle ar y llawr gwaelod o lanastr a gwaith mecanyddol i ddatgelu’r strwythur a defnyddiodd yr FYA adain deulawr is i greu lleoedd uchder dwbl wedi’u goleuo a ddygodd i mewn mwy o oleuni ac uchder i’r lleoedd a arferai fod yn dywyll ac yn dadgysylltiedig. Fodd bynnag, ardal ehangach y safle a’r cyd-destun cymdeithasol chwaraeodd y rhan fwy o faint gan ddylanwadu ar y weledigaeth ddylunio ac ymarferoldeb y prosiect a grynhoir yn y cysyniad ‘lle llac’.

> **“Trawsnewidiad ysbrydoldedig o adeilad cyhoeddus sylweddol, sy’n defnyddio cymedroldeb rhyfeddol, nid dim ond o ran ei gyllideb ond yn ysgafnder cyffyrddiad yr ymyriad pensaernïol.”**
>
> Golygydd pensaernïaeth yr Architects’ Journal, Rob Wilson




Cynigion




Y daith drwy'r gofod

## Deall ac ymateb i'r safle a'r cyd-destun


Ar un tro, roedd Wrecsam yn dref farchnad ffyniannus gyda sawl adeilad marchnad gwych ond, yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn parciau adwerthu y tu allan i'r dref sy'n haws eu cyrraedd yn y car, dirywiodd craidd hanesyddol y dref. Collwyd llawer o'i fasnach a'i fywiogrwydd a dymchwelwyd nifer o'r adeiladau marchnad hyn.

Cyflwynodd Tŷ Pawb gyfle i ailsefydlu hunaniaeth farchnad y dref trwy adfywio'r farchnad, ac roedd gan ei lleoliad strategol rhwng canol y dref ac atyniadau ar gyrion y dref, y potensial hefyd i ailgysylltu gwahanol rannau'r dref a denu cynulleidfa ehangach i ganol y dref.

Caiff yr ochr fewnol ei thrin fel estyniad o strydlun Wrecsam gan greu sgwariau a strydoedd dan do, sy'n dwyn i gof yr arcedau a'r marchnadoedd hanesyddol a boblogai Wrecsam ar un tro. Yn fewnol, mae'r defnydd o arwyddbyst, byrddau poster, celfi stryd a phalet o ddeunyddiau grymus crai yn atgyfnerthu triniaeth yr adeiladau fel estyniad o strydlun Wrecsam.

**"Ein huchelgais yw creu rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddeialog gyda'r gymuned leol. Mae gan Tŷ Pawb wreiddiau lleol ac mae'n wynebu'r byd ac wedi rhagori ar niferoedd yr ymwelwyr a gafodd eu darogan yn y flwyddyn gyntaf."**

Jo Marsh, cyfarwyddwr creadigol, Tŷ Pawb







Dadansoddiad hanesyddol

## Ymwneud y gymuned a'r rhanddeiliaid


I ddechrau, sylweddolodd FYA a'r tîm celfyddydau bod rhai pobl leol, yn enwedig masnachwyr presennol y farchnad, ychydig yn fwy gelyniaethus a nerfus tuag at y rhagolwg o gyflwyno canolfan gelfyddydau newydd i mewn i'r adeilad a'r dref. Yng nghyd-destun toriadau mewn gwasanaeth, dirywiad y marchnadoedd a'r stryd fawr a diweithdra uchel, rhoddwyd poster dienw i fyny yn y dref yn datgan nad oedd '90% o bobl yn Wrecsam eisiau Canolfan Gelf...gallwch fynd i Gaer os ydych chi eisiau celf'. Yn erbyn y gefnlen hon, aeth tîm y prosiect ati i ddatblygu lle a rhaglen a allai fod yn fwy defnyddiol i'r dref. Ymddangosodd model diwylliannol newydd sy'n ymateb i bryderon pobl leol mewn ffyrdd ystyrlon ac sy'n gosod y celfyddydau mewn lleoliad ehangach.

Talodd y dull hwn ar ei ganfed ac ym Mharêd agoriadol y Pasg, gwelodd Tŷ Pawb dros 10,000 o bobl yn dod trwy ei ddrysau. Croesawyd masnachwyr y farchnad  yn ôl i fasnachu ochr yn ochr ag adwerthwyr bwyd newydd yn y lleoedd newydd. Mae pobl bellach yn pasio trwy'r lleoedd am brofiad gwahanol iawn: cyfeintiau llachar a llawn lle wedi'u hanimeiddio gan weithgareddau diwylliannol ac, yn fwy rhyddieithol, oriau masnachu hwy sy'n cynnwys coffi cynnar yn y bore a diodydd hwyr yn y nos.

Mae llawer o fasnachwyr wedi llwyr gofleidio'r ethos ar y cyd newydd hwn gan gyflwyno gwahanol agweddau ar eu harlwy adwerthu safonol, er enghraifft rhedodd masnachwr bwyd weithdai pizza yn y sgwâr fwyd, a chymerodd fasnachwyr eraill ran mewn llwybr celfyddydol lle cafodd gwrthrychau eu hymgorffori yn eu stondinau.

Mae ymwneud y gymuned wedi bod yn annatod ers cychwyn y prosiect trwy ei weithgareddau cwblhau a dydd-i-ddydd erbyn hyn. Gweithiodd y disgyblion ysgol gynradd ar y patrymau a dorrwyd i mewn i flychau arddangos y Siop / Shop; adeiladwyd meinciau neuadd y farchnad gan fyfyrwyr y coleg lleol; gwnaeth grŵp gwaith coed durnio coesau'r bwrdd trestl ar gyfer Sgwâr y Bobl a chymerodd aelodau'r cyhoedd ran mewn gweithdai i greu graffigau ar y cadeiriau. Mae aelodau'r cyhoedd a masnachwyr y farchnad yn rhan o'r panel sy'n dewis yr arlunydd i ddylunio'r gwaith celf blynyddol ar gyfer y byrddau poster mawr yn Wal Pawb.

Mae'r dull ar y cyd hwn yn creu cyfraniad hynod gadarnhaol ac amlwg i etifeddiaeth Tŷ Pawb ac mae wedi creu cyfres o leoedd democrataidd lle'r oedd pob gweithgaredd: y farchnad a'r celfyddydau, ar droedle cyfartal. Mae ethos y model celfyddydau newydd wedi'i adeiladu ar ddefnyddioldeb gweithgareddau'r farchnad a'r maes parcio i wneud celf yn rhan o fywyd pob dydd pobl. Mae wedi rhoi cyfle i fasnachwyr y farchnad adfywio'u harlwy ac atgyfnerthu hunaniaeth farchnad y trefi.




Cynllun y lleoliad

## Egwyddorion dylunio allweddol

Mae cysyniad 'lle llac' FYA yn rhoi ar waith fframwaith rhydd sydd, yn yr achos hwn, wedi esblygu i'r strydlun estynedig. Cynigia'r fframwaith hwn gyfres o leoedd rhydd, sef safon o strydoedd a sgwariau dan orchudd, sy'n gwahodd pobl i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac sy'n ddigon hyblyg iddynt ychwanegu at y lleoedd a'u haddasu. Mae coreograffi gofalus o'r gwahanol leoedd yn sicrhau y caiff didwylledd a hylifedd eu creu ar hyd yr adeilad. Mae'r toriadau mawr yn lloriau a waliau'r adeilad yn agor y lleoedd ac yn rhoi'r holl weithgareddau o fewn golwg. Defnyddir isradniadau rhydd, fel llenni pyb lled-dryloyw a sgriniau rhwyd grymu, er mwyn osgoi rhwystrau a drysau caeedig.

Mae Wal Pawb yn esiampl dda o hyn, gan newid beth allai fod wedi bod yn wal rannu fawr rhwng y farchnad a'r brif oriel yn elfen ryngweithiol. Mae'n cynnwys seddau wedi'u hymgorffori, ffenestri slot gyda chipolygon i'r oriel a bwrdd poster mawr sy'n cynnwys comisiwn celf gyhoeddus newidiol, a ddewiswyd gan banel sy'n cynnwys masnachwyr y farchnad a'r gymuned leol. Profodd y comisiwn cyntaf gan Katie Cuddon a'r ail un gan Kevin Hunt i fod yn gefnlenni bywiog yn Nhŷ Pawb, sydd yn aml yn cael eu cynnwys ym mhostiadau cyfryngau cymdeithasol yr ymwelwyr.

Mae'r strydlun yn darparu dwy 'sgwâr' fewnol ganolog, un yw Sgwâr y Bobl, mewn lleoliad strategol yng nghanol yr adeilad, ar y llwybr byr trwy'r adeilad. Mae ei lenni tryloyw trawsnewidiol yn galluogi amrywiaeth o ffyrdd o isrannu'r gofod a gellir ei weithredu gany bobl sy'n dewis eu defnyddio. Mae'r lle wedi darparu cyfuniad o'r celfyddydau, marchnadoedd a digwyddiadau eraill, e.e. dawnsfeydd te, gweithdai microffon ar eu traed a gweithdai celf.



Gofod celfyddydau hyblyg

## Hwyluso gweithgareddau o fewn y cynllun

Cefnogir y brif oriel gelf a lleoedd arddangos/digwyddiadau mwy rhydd gan ystod o gyfleusterau eraill gan gynnwys lle perfformio, canolfan ddysgu, siop gelf (Siop/Shop), caffis a stiwdios. Saif y rhain yn y brif neuadd farchnad a grëir yn ofodol fel estyniad o strydlun Wrecsam.

Yn ystod ymchwil gynnar, sylweddolodd FYA fod yr adeilad wedi darparu llwybr byr wedi'i ddefnyddio'n dda ar draws y dref y penderfynon nhw ei ddefnyddio i'w mantais i ddenu mwy o bobl. Mae'r dyluniad yn gwella'r llwybr hwn trwy agor mynedfa uchder dwbl newydd, mawr yng nghefn yr adeilad sy'n wynebu y tu allan i'r dref ac yn nodi dwy gornel allweddol o'r adeilad y mae pobl yn mynd i mewn iddynt.

## Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at greu lleoedd da

Roedd mabwysiadu dull ar y cyd rhwng y penseiri, tîm celfyddydau Oriel Wrecsam, adran Dreftadaeth ac Adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a defnyddwyr y lle, yn allweddol i'w llwyddiant. Roedd y ddau gyfarwyddwr creadigol a redodd y tîm celfyddydau, Steffan Jones-Hughes i ddechrau ac yna Jo Marsh, yn allweddol wrth wthio am greadigrwydd a dyluniad ansawdd uchel. Llywiodd Becky Lowri, Rheolwr Tretadaeth ac Adfywio CBSW y prosiect, gan sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau o fewn y gyllideb ac ar amser a hyrwyddodd y Cynghorydd Hugh Jones fanteision y prosiect i'r gymuned ehangach. Roedd ymwneud y Cyngor Celfyddydau hefyd yn allweddol i lwyddiant y prosiect a sicrhaodd aseswyr monitro eu hunain, Harry James a Richard Pritchard, fod arian y celfyddydau yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn cyflwyno ansawdd.

Ystyrir fod yr allwedd i greu lleoedd da wedi ac mi fydd yn parhau i gael ei benderfynu gan y bobl a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yno. Mae digwyddiadau cymunedol graddfa fach a mawr yn cael eu treialu yn Nhŷ Pawb ac un o'r rhai mwyaf poblogaidd yw Dydd Iau Cymunedol sy'n cynnal digwyddiadau wythnosol gan gynnwys dawnsfeydd te, gweithdai i blant, canu ar y stryd a chyngherddau amser cinio am ddim sy'n cael eu perfformio o gwmpas neuadd y farchnad. Ar raddfa lawer mwy o faint, roedd Tŷ Pawb yn gallu lletya Focus Wales, sef gŵyl gerddorol flynyddol sydd fel rheol mewn nifer o leoliadau ar draws Wrecsam, fel ei brif leoliad.

Mae'r gorgyffwrdd rhwng y celfyddydau, y gymuned a'r farchnad yn llwyddiannus iawn ac wrth symud ymlaen, mae dal llawer mwy o gyfleoedd ar y cyd i'w harchwilio. Sefydlwyd y rhaglen 'Angenrheidiau' i wneud hyn ac mae eisoes yn rhedeg nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys Nascent Inclinations a roddodd blatfform i raddedigion celfyddyd gain leol a grŵp celfyddydol lleol o'r enw Undergun yn cymryd drosodd am un wythnos.

Mae ei gydnabyddiaeth gynyddol yn y sîn gelfyddyol ryngwladol yn rhedeg ochr yn ochr â phrosiectau celfyddydol a chymunedol lleol Tŷ Pawb. Gyda'r oriel manyleb uchel 250 metr sgwâr newydd, mae Tŷ Pawb bellach yn gallu cynnal arddangosfeydd cenedlaethol mawr. Mae'r gwaith o ehangu cyfleuster y celfyddydau wedi rhoi Wrecsam ar y map rhyngwladol a phenodwyd Tŷ Pawb yn Brif Sefydliad ar gyfer Cymru yn y Venice Biennale 2019, er mwyn cyflwyno rhaglen arddangos a chyhoeddus  a roddodd ethos cynhwysedd wrth ei gwraidd.

**"Mae'n groesawgar, animeiddiedig, agored, gwylaidd ac amryfal, gan fod yn bwyllog ac urddasol hefyd. Os na all hyn ddwyn celf a bywyd pob dydd ynghyd, dydw i ddim yn gwybod beth fydd."**

Rowan Moore beirniad pensaernïaeth ar gyfer yr Observer

## Agweddau mwyaf llwyddiannus y datblygiad

Mae Tŷ Pawb yn esiampl o fodel ariannu'r celfyddydau arbrofol, sy'n arddangos 'torri' confensiynau. Ar ddechrau datblygiad y prosiect, roedd swyddogion CCC yn archwilio cynllun cost gychwynnol Cam 3 a nodwyd ganddynt fod dros 50% o'u cyllid yn mynd i le celfyddydol heb ei ddynodi, h.y. neuadd farchnad a lleoedd llacach, a rennir. Gallai hyn fod wedi cyflwyno problem, oherwydd dylai cyllid y celfyddydau fod ar gyfer lleoedd celfyddydol penodol. Fodd bynnag, roedd FYA yn gallu eu calonogi bod y gweithgareddau eraill oedd yn cael eu darparu'n hanfodol wrth ddenu cynulleidfa ehangach a gwneud i'r prosiect celfyddydol hwn lwyddo mewn tref lle na fyddai llawer o bobl fel rheol yn cymryd rhan yn y celfyddydau nac yn rhan ohonynt.

Mae brîff canolog y prosiect a themâu ailddefnyddio a chreu lle ar y cyd yn eu hunain yn gynaliadwy yn y bôn, ac felly wedi'u weirio'n galed i bob cam o'r dylunio. Roedd yr adeilad presennol yn cael ei danddefnyddio ac yn flinedig, ond roedd y strwythur concrit sylweddol a'r waliau brics mewn cyflwr da. Trwy ailbwrpasu ardaloedd sylweddol o'r adeilad presennol, mae'r prosiect wedi osgoi'r egni a'r gwastraff deunyddiau diangen sydd ynghlwm â dymchwel ac ailadeiladu yn ogystal â dangos y ffordd y gall adeilad esblygu ac addasu i weddu i amodau cymdeithasol newidiol ac anghenion y gymuned.

Mae ailddefnyddio hen Farchnad y Bobl yn hytrach nag adeiladu o'r newydd nid yn unig wedi cael effaith gadarnhaol ar ein hamgylchedd ond mae hefyd yn diogelu cymeriad yr adeilad ac ymdeimlad y dref o le. Nod FYA yw bod yn ysgafndroed a gweithio gyda'r hyn sydd yno'n barod a gweld cyfle i ddefnyddio cysyniad y 'lle llac' sydd wedi galluogi pobl i addasu'n rhwydd i leoedd, meithrin perchnogaeth ac ymdeimlad o hunaniaeth.

Mae Tŷ Pawb wedi gwneud cyfraniad enfawr at les a cymdeithasol a hunaniaeth y dref, gyda'i gydnabyddiaeth gyhoeddus trwy wobrau a sylw yn y wasg leol sy'n arwain at gychwyn digwydd Balchder Dinesig y Maer. Mae hwn yn dathlu'r llwyddiannau hyn a llwyddiannau eraill Wrecsam. Gall Tŷ Pawb frolio Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol am Bensaernïaeth , a hefyd am fod yn Enillydd Cyffredinol Gwobrau AJ Retrofit. Fe'i cyhoeddwyd fel model celfyddydau enghreifftiol yn 'The Future of Museum and Gallery Design', llyfr a gyhoeddwyd gan Routledge sy'n cynnwys pennod wedi'i chyd-ysgrifennu gan Sarah a cheleint Jo Marsh a Chyfarwyddwr Creadigol Tŷ Pawb.



Lleoedd arddangos/cyfarfod



Amlygu'r strwythur




Golwg allanol

**“Mae Tŷ Pawb yn gynnig cyffrous; mae’n creu cyfleoedd newydd i gynulleidfa llawer ehangach na chanolfan gelfyddydol draddodiadol... a dylai ddarparu model cyffrous i bobl eraill ei ddilyn.”**

Harry James, aseswr Pensaernïaeth ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru




Mynedfa



Oriel

# **Lawrenny,** Sir Benfro

**Lleoliad:**
Lawrenny, Cilgeti,
Sir Benfro

**Awdurdod Lleol:**
Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro

**Cleient:**
Cyngor Sir Penfro

**Tîm dylunio:**
Emmett Russell Architects

**Dyddiad cwblhau:**
Heb Gwblhau Eto

**Gwerth y contract:**
I'w gwblhau

**Arwynebedd y safle:**
1.8 Ha

**Ffynhonnell ariannu:**
Cyllid Preifat

Cynllun o'r Awyr









Safle presennol

**Mae Lawrenny yn ddatblygiad preswyl gan mwyaf o 33 o gartrefi ar safle hen fferm laeth yn Lawrenny, ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro. Gadawodd y gwaith o symud y fferm laeth safle tir llwyd sylweddol yn y pentref ac felly, fe'i clustnodwyd ar gyfer tai yng Nghynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dyluniwyd y cynllun gan Emmett Russel Architects trwy gystadleuaeth a drefnwyd gan yr RSAW a RIBA. Roedd y 35 o dai'n cynnwys ystod o feintiau a deiliadaethau, ochr yn ochr ag unedau gweithdy newydd ar gyfer busnesau bach. Wedi'i gynnwys hefyd mae system wresogi cymuned bio-más newydd, sgwâr bentref newydd a rhwydwaith gwell o lwybrau a chysylltiadau i gerddwyr o gwmpas y pentref.**

## Datblygu'r weledigaeth

Mae Lawrenny ar benrhyn ar Foryd Cleddau, yng nghanol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fel llawer o bentrefi gwledig, mae Lawrenny wedi gweld ei boblogaeth a'i weithgareddau'n pylu ers ei anterth yn y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif. Collodd y pentref ei gastell yn y 1950au, yr ysgol yn y 1960au, ac mae wedi gweld cynulleidfa'r eglwys yn dirywio i ychydig o bobl. Yn 2006, collodd ei Swyddfa Bost.

Arweiniodd colled y Swyddfa Bost at ailfeddwl sut gallai'r pentref gynnal ei hun. Cafwyd nifer o deuluoedd ifanc yn symud i mewn i'r pentref ac roedd sawl busnes gweithgar yn gweithio o'r pentref, gan achub mantais ar y cyfleoedd newydd a gynigiwyd gan y rhyngrwyd. Roedd yna ymdeimlad ymhlith y tirfeddianwyr lleol pe gallai barhau i ddenu teuluoedd, gallai gynnal ei hyfywedd a'i fywyd pentref.

Daeth safle tir llwyd gwag mawr yng nghalon y pentref (a wagiwyd gan siediau godro oedd yn gwasanaethu fferm laeth organig, a symudwyd y tu allan i'r pentref) ar gael at ddibenion datblygu. Roedd y safle'n eiddo i deulu Lort-Philips, a fu'n dirfeddianwyr lleol ers yr oes Fictoraidd a dechreuodd adfywiad y pentref yn y 1970au. Mae dwy genhedlaeth o'r teulu wedi bod yn gweithio ar welliannau i'r pentref ers yr adeg honno a lansiwyd cystadleuaeth bensaernïol i ailddatbygu'r safle yn 2008.

Gofynnodd y gystadleuaeth bensaernïol i'r cystadleuwyr feddwl am gynigion am dai cynaliadwy ar gyfer y pentref. Rhoddodd y gystadleuaeth gyfle i'r penseiri fynd i'r afael â dwy broblem yn ymwneud â chynaliadwyedd gwledig. Mae a wnelo'r cyntaf â lleoliad a hygyrchedd a sut y gellir datblygu tai a busnesau newydd mewn pentref gwledig i gefnogi bywyd y pentref, heb gynyddu teithiau mewn ceir a'r gollyngiadau carbon cysylltiedig. Roedd yr ail gwestiwn yn gysylltiedig â phensaernïaeth tai cynaliadwy a sut mae'n effeithio ar gymeriad lleol.

Enillodd Emmett Russel Architects (ERA) y gystadleuaeth gyda chynnig oedd yn mynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd gwledig hyn, gyda gweledigaeth a ddangosodd y canlynol:

– gall datblygiad tai cynaliadwy wedi'i ystyried yn dda mewn cymuned wledig wedi'i hen sefydlu gyfrannu'n gadarnhaol at leihau gollyngiadau carbon yn ogystal â sicrhau bywyd parhaus y pentref.

– ac; nad oes rhaid i gartrefi ynni isel fod yn ddieithr ac yn orddangosiadol o reidrwydd ond gallant fod yn rhan o ymdeimlad lleoliad, a chyfrannu at ymeimlad lleoliad o le a hanes.

**"Ystyriwyd y prosiect bob amser yn rhan o esblygiad tymor hir iawn y pentref."**
Emmett Russel Architects



Cynllun lleoliad y safle

## Deall ac ymateb i'r safle a'r cyd-destun

O'r cychwyn, sylwodd ERA fod a wnelo cymeriad y pentref gymaint â'r dirwedd amgylchynol a'r ffordd yr oedd y golygfeydd wedi'u fframio, ag â'r adeiladau eu hunain. Felly dechreuodd eu dadansoddiad gyda golwg ofalus ar y dirwedd ac ar hanes y pentref.

Cydnabyddodd y penseiri fod gan adeiladau hŷn Lawrenny a'r ardaloedd o'i amgylch ymdeimlad o berthyn yn agos at eu lle. Esblygodd adeiladau traddodiadol Sir Benfro gwledig dros y canrifoedd mewn ymateb uniongyrchol i'r amodau lleol. Defnyddiodd yr adeiladau hyn ddefnyddiau lleol i ddiogelu'r trigolion rhag yr hinsawdd leol.

Sylweddolodd dîm y prosiect fod y materion a godwyd gan drafodaethau cyfoes o ddatblygiad cynaliadwy ddim yn wahanol i'r rhai a wynebir gan drigolion yr ardaloedd mwyaf gwledig ers canrifoedd. Sut gallwn ddefnyddio'r deunyddiau sydd ar gael yn lleol (fel y garreg o'r chwarel lleol) i adeiladu cartrefi sy'n gynnes yn y gaeaf, yn oer yn yr haf ac yn ymarferol i'w defnyddio?

Yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwasanaethodd y pentref fel pentref ystâd oedd yn cefnogi Castell Lawrenny a'r tir amgylchynol. Darparodd y castell, a adeiladwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan George Lort-Phillips, ffocws ar gyfer bywyd y pentref a'r brif ffynhonnell waith ar gyfer y pentrefwyr. Datblygwyd y pentref dros sawl canrif i gefnogi Ystâd Lawrenny. Pan gafodd Castell Lawrenny ei ddymchwel yn y 1950au, gadawodd le yn y dirwedd ac yn hunaniaeth y pentref. Yn sgil hyn, cadarnhaodd ERA mai un o brif nodau'r prosiect ddylai fod i gynnig lle newydd a allai ddod, fel y castell, yn ganolog i fywyd y pentref.

**"Gallai'r datblygiad hwn, sy'n dysgu llawer o'i wersi o'r gorffennol, wasanaethu fel model a bod yn gymhelliant i ddatblygu cymunedau gwledig eraill yn y dyfodol."**

Tom Emmett




Cynllun hanesyddol Lawrenny



Castell Lawrenny

## Ymwneud gan y gymuned a rhanddeiliaid

Mae'r prosiect wedi tyfu ers cyfnod hir, gyda'r gystadleuaeth wreiddiol yn cael ei chynnal yn 2008. Mae datblygwyr y prosiect yn byw yn lleol ac yn rhedeg y fferm leol ac mae ganddynt wreiddiau yn y pentref sy'n mynd yn ôl sawl cenhedlaeth. Yn ei sgil, cafwyd sgyrsiau estynedig a pharhaus am y cynigion gyda phobl leol dros y deuddeng mlynedd diwethaf. Yn ystod yr amser hwnnw, mae pobl leol wedi gallu cyfrannu at y broses gystadlu a beirniadu, yn y cynigion a ddaeth o'r gystadleuaeth ac maen nhw wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ac arddangosfeysdd gan arwain at gynllun a roddwyd gerbron yr adran gynllunio.

Ers hynny, cafwyd trafodaethau parhaus am y math o weithgareddau a allai gael eu hwyluso yn y sgwâr bentref newydd.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ar 19 Gorffennaff 2016 yn Neuadd Bentref Lawrenny. Cafodd trigolion y pentref a'r ardaloedd cyfagos ynghyd â chynghorwyr lleol a grwpiau budd wahoddiad. Roedd presenoldeb da yn y digwyddiad a'r ymateb yn gadarnhaol, gyda dim ond mân ddiwygiadau'n angenrheidiol i'r dyluniad yn dilyn yr ymgynghoriad. Dyma oedd yr achos hefyd ar gyfer adolygiad 2016 Comisiwn Dylunio Cymru.

Trwy seilio dyluniad y cynllun ar ffurf y pentref presennol ddoe a heddiw, mae'r cynllun yn estyniad naturiol i'r pentref, a chan osgoi dod â dylanwadau mawr o'r tu allan i mewn, teimla'r trigolion lleol yn gysurus ac yn gyfarwydd â'r cynigion.



Cynllun arfaethedig y safle

## Egwyddorion dylunio allweddol

Ffurfiwyd yr egwyddorion dylunio ar gyfer y cynllun o gyd-destun y safle a hanes y pentref. Roedd y penseiri'n awyddus i ddefnyddio dim ond elfennau o'r pentref presennol neu ei orffennol wrth ddatblygu'r egwyddorion dylunio ar gyfer ei ddyfodol. Ymhlith yr egwyddorion dylunio allweddol mae:

- **Golygfeydd:** Mae golygfeydd allweddol o dirwedd amlwg Lawrenny wrth wraidd y cynigion. Cynigia'r safle gyfle i sefydlu lle cyhoeddus newydd wrth wraidd y pentref gyda golygfeydd o Afon Cresswell a golygfa wedi'i fframio o dŵr yr eglwys.
- **Llinellau Dymuniad a Lleoedd Cyhoeddus:** Mae prif gyfleusterau cyhoeddus Lawrenny wedi'u gwasgaru o gwmpas ymyl y pentref. Trwy greu llwybrau cerdded newydd ar hyd y llinellau dymuniad sy'n cysylltu'r lleoedd hyn, gallai'r lle wrth wraidd y cynllun newydd greu ffocws newydd ar gyfer bywyd y pentref. Y 'Sgwâr Bentref' newydd.
- **Gerddi â Wal o'u Cwmpas Lawrenny:** Yng ngweddillion gerddi â wal o'u cwmpas Castell Lawrenny, canfu Emmett Russel Architects fodel pensaernïol cymhellol ar gyfer y prosiect. Mae'r cynnig yn dychmygu'r tai fel cyfres o erddi â wal o'u cwmpas gyda'r tai wedi'u hadeiladu yn y waliau calchfaen perimedr a gyda haenau o erddi preifat ac ar y cyd ynddynt.
- **Cyfeiriadedd:** Yn y gerddi â wal o'u cwmpas mae tai wedi'u trefnu i fanteisio ar agwedd ddeheuol ffafriol y safle. Mae'r tai wedi'u trefnu gyda mynedfeydd i'r Gogledd a lleoedd byw yn agor i'r gerddi sy'n wynebu cyfeiriad y De. Mae hyn yn galluogi manteision ar y cyd o olygfeydd i Afon Cresswell a budd solar goddefol ar gyfer pob tŷ.
- **Parth Heb Geir:** Datblygodd y penseiri (a ysbrydolwyd gan un o gerddi Dylan Thomas) gynllun sy'n blaenoriaethu plant a cherddwyr dros draffig ac sy'n creu ardal heb geir yng nghanol y pentref.
- **Gerddi ar gyfer bwyd a phleser:** Mae gerddi sydd wedi cael gofal da yn nodwedd bwysig ar y pentref presennol. Felly, byddai gerddi â wal o'u cwmpas arfaethedig, preifat yn wynebu'r de yn cynnig lle i ymlacio a lle i arddio a thyfu ffrwythau a llysiau.



Egwyddorion Dylunio

## Hwyluso gweithgarwch o fewn y cynllun

Bydd y cynigion presennol yn darparu 35 o dai a phedwar fflat gydag ystod o feintiau a deiliadaethau. Yn ogystal â'r cartrefi newydd, bydd y prosiect yn cynnwys unedau gweithdy newydd i fusnesau bach, system wresogi gymunedol newydd, sgwâr bentref newydd a rhwydwaith gwell o lwybrau a chysylltiadau i gerddwyr o gwmpas y pentref. Bydd y cymysgedd hwn o ddefnyddiau a hyrwyddiadau'n sicrhau y bydd y cynllun yn cael ei integreiddio'n ffisegol ac yn gymdeithasol i mewn i'r pentref.

Datblygwyd y strategaeth barcio i flaenoriaethu chwarae'r plant a defnydd y cerddwyr o'r strydoedd wrth ddatblygu a lleihau effaith ceir wedi'u parcio. Lletywyd lle parcio'n bennaf o gwmpas perimedr y cynllun sy'n gadael sgwâr y pentref ac mae'r strydoedd yn rhydd o geir gan mwyaf. Mae mynediad i gerbydau ar gael o bedwar cyfeiriad ond mae symud cerbydau ar draws y safle wedi'i leihau. Mae lleihau parcio yn y prif strydoedd wedi caniatáu i'r strydoedd fod yn gymharol gul ac anffurfiol mewn ffordd sy'n ymateb i gymeriad gwledig y pentref.

Dynododd y dadansoddiad cychwynnol o'r safle bod y cyfleusterau cymunedol presennol o gwmpas y pentref yn cynnwys y neuadd bentref, gerddi â wal o'u cwmpas, eglwys, siop y pentref a'r clwb criced. Cymerwyd hyn fel man cychwyn i ddatblygu strategaeth i annog symudiadau o gwmpas y pentref ar ffurf gweithgarwch cymunedol a chymdeithasol. Mae sgwâr y pentref yng nghanol y safle sy'n cysylltu llwybrau newydd i gerddwyr ar hyd y llinellau dymuniad gan gysylltu cyfleusterau cyhoeddus Lawrenny. Bydd y sgwâr yn cael ei defnyddio ar wahanol adegau o'r flwyddyn ar gyfer amryw weithgareddau cymunedol. Gall ddarparu strwythurau dros dro a all darparu ar gyfer digwyddiadau fel ffeiriau pentref a phriodasau.

Bydd adeiladau gweithdy newydd i gyfeiriad y gogledd o'r safle arfaethedig yn cynyddu symudiadau i'r clystyrau cymdeithasol hyn ac ohonynt.



Sgwâr y Pentref

## Ffactorau allweddol sy’n cyfrannu at greu lleoedd da

Cred ERA ei bod hi’n hollbwysig bod manteision y datblygiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i breswylwyr y tai newydd a thuag at gymuned y pentref cyfan. Gellir dod o hyd i ‘ymdeimlad o le’ Pentref Lawrenny yn y pentref presennol. Felly, nid oes angen dwyn i mewn weledigaeth allanol ar gyfer y cynllun gan ei bod hi’n bosibl gweithio gyda’r hyn sydd yno eisoes.

Dros y degawd neu ddau ddiwethaf, mae datblygiadau mewn technoleg gyfathrebu wedi caniatáu sifft yn y ffordd y gall pobl weithio. Roedd gan Lawrenny eisoes economi leol gref sy’n cofleidio’r cyfleoedd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio, gan achub mantais ar y sifft o economi amaethyddol tuag at ddiwydiannau creadigol, crefft a gwybodaeth yn y pentref. Cynigia’r prosiect gyfle i ddatblygu ymhellach yr economi leol a hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio wrth leihau’r defnydd o geir ar yr un pryd. Byddai’r cynigion newydd yn darparu:

– Hyblygrwydd yn y mathau newydd o dai i ganiatáu gweithio o adref a thelegymudo.

– Gweithdai newydd yn y datblygiad i alluogi twf busnesau lleol.

– Dyfodol mwy diogel a chynaliadwy ar gyfer siop y pentref a chyfleoedd i fusnesau a gwasanaethau newydd eraill yn y pentref.

Dyluniwyd pob tŷ o gwmpas y syniad o addasrwydd a hyblygrwydd dros einioes y tŷ a’i breswylwyr. Gwnaed hyn i ganiatáu pobl i aros yn y pentref pan fo’u hamgylchiadau’n newid er mwyn iddynt allu parhau i gyfrannu at yr hanes ac felly ymdeimlad o le’r pentref. Cyflawnwyd hyn trwy:

– Alluogi ar gyfer anghenion ymarfer beunyddiol bywyd teuluoedd gyda lle amlbwrpas ystyriol a hael, pantri oer, lle sychu a storio.

– Mae dyluniad y tai a’u trefniant ar y safle’n caniatáu cyfleoedd i ymestyn i’r dyfodol er mwyn darparu ardaloedd gweithio neu le teuluol wedi’i ymestyn.



Y Sgwâr Newydd

**“Now as I was young and easy under the apple boughs, About the lilting house and happy as the grass was green...”**

Fern Hill, Dylan Thomas

## Agweddau mwyaf llwyddiannus y datblygiad

Nid yw'r datblygiad wedi'i adeiladu eto felly mae'n anodd profi beth sydd wedi neu beth sydd heb brofi'n llwyddiannus. Fodd bynnag, agwedd allweddol ar y prosiect oedd mynd i'r afael â dau gwestiwn a sefydlwyd yng ngham y gystadleuaeth ddylunio:

1. Sut gallwch ddatblygu tai a busnesau newydd mewn pentref gwledig, i gefnogi bywyd gwledig, heb gynyddu teithiau yn y car a'r gollyngiadau carbon cysylltiedig?

2. Sut ydych chi'n datblygu tai sy'n defnyddio deunyddiau lleol a ffurfiau pensaernïol, sy'n adlewrychu eu lle, ond sydd hefyd yn mabwysiadu technoleg y cartref carbon isel sy'n dod i'r amlwg?

Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, edrychodd tîm y prosiect yn ofalus ar y defnydd o ynni yn holl ardaloedd bywyd y pentref. Trwy bosibiliadau ailastudio ar gyfer patrymau gweithio newydd, cynhyrchiant bwyd lleol, cyflenwad ynni cynaliadwy, cludiant lleol a defnyddio adnoddau lleol ar gyfer adeiladu, credant na all y cynigion ddim ond lliniaru effeithiau'r datblygiad newydd, ond lleihau ôl troed carbon y pentrefwyr presennol hefyd. Mae cyflwyno unedau busnes, gwrsogydd bio-más cymunedol a defnyddio deunyddiau lleol, mae llafur ac adnoddau i gyd yn cyfrannu at hyn. Byddai'r datblygiad newydd yn denfyddio adnoddau a defnyddiau lleol Lawrenny mewn adeiladu a chynhyrchu ynni trwy ddefnyddio:

- Carreg o'r chwarel leol
- Pren caled o'r coetiroedd amgylchynol a reolir.
- Teneuon pren meddal fel tanwydd i'r system wresogi bio-más cymunedol arfaethedig.
- Sgiliau a llafur lleol.



Golygfa o'r cynigion o Broad Lane

Mewn ymateb i'r ail gwestiwn, edrychodd ERA i mewn i greu model newydd ar gyfer pensaernïaeth wledig gynaliadwy. Sicrhaon nhw fod y cynigion yn ymateb i'r lleoliad ac yn dysgu o'r adeiladau a esblygodd yn y pentref. Ceisia'r dyluniadau briodi doethineb wedi'i etifeddu tŷ gwledig Cymru gyda thechnoleg gyfoes y cartref di-garbon.

Mae'r cynigion yn ceisio ymateb i'r gorchymyn i 'feddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol'. Mae'r dylunwyr wedi mynd ati i ddatblygu model ar gyfer tai gwledig lle mae pum egwyddor yn sail iddynt:

1. **Gerddi â Wal o'u Cwmpas:**
   Mae pob bloc o dai wedi'i ddychmygu fel gardd â wal o'i chwmpas. Fel hen ardd â wal o'i chwmpas Lawrenny, mae'r ffurf hefyd yn adleisio buarthau a chlosydd stabl y rhan hon o Sir Benfro. Mae gallu'r calchfaen lleol i ymdopi â'r hinsawdd arfordirol garw'n ei wneud yn ddeunydd delfrydol ar gyfer y tŷ cynaliadwy.

2. **Dulliau Rheoli Naturiol:**
   Yn nhraddodiad gorau'r mathau o dai gwledig, bwriad y tai oedd defnyddio strategaethau rheoli'r amgylchedd naturiol 'technoleg isel' fel y man cychwyn ar gyfer y dyluniad. Mae hyn yn cynnwys gosod ystafelloedd trigiannol ar ochrau deheuol yr adeiladau i wneud y mwyaf o fudd solar.

3. **Amlen Perfformiad Uchel:**
   Bydd gan bob tŷ amlen adeilad wedi'i uwch-inswleiddio i leihau colli gwres.

4. **Deunyddiau Cynaliadwy:**
   Mae defnyddio calchfaen wedi'i chwarelu'n lleol yn rhoi parhad gyda'r adeiladau hŷn yn y pentref.

5. **Tŷ am Oes:**
   Dyluniwyd pob tŷ o gwmpas y syniad o addasrwydd a hyblygrwydd dros oes y tŷ a'i breswylwyr.



Darlunio'r cynllun terfynol o'r awyr

# Canol Tref Cil-y-coed, Sir Fynwy

**Lleoliad:**
Canol Tref Cil-y-coed, Sir Fynwy

**Awdurdod Lleol:**
Cyngor Sir Fynwy

**Cleient:**
Cyngor Sir Fynwy

**Tîm dylunio:**
Pensaer, Uwchgynllunydd, Dylunydd Trefol - Roberts Limbrick Architects: Tîm - Chris Gentle, Clara Koehler, Tom Wakeman

Rheolwr Creu Lleoedd a Phrosiectau: Chris Jones

Manylion Adeiladu: Capita

**Dyddiad cwblhau:**
Parhaus


**Gwerth adeiladu:**
£4m hyd yma

**Ffynhonnell ariannu:**
Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy

Gofod Cyhoeddus y Cross: Gofod cyhoeddus deniadol gyda gwell ymdeimlad o gyrraedd a gwella hygyrchedd i gludiant cyhoeddus.



**1964**




**1985**




Cil-y-coed: Twf sylweddol dros gyfnod o 20 mlynedd

Comisiynwyd Roberts Limbrick Architects ym mis Tachwedd 2015 gan Gyngor Sir Fynwy i baratoi Adroddiad Gweledigaeth a Chynllun Datblygu ar gyfer adfywiad Canol Tref Cil-y-coed i'r dyfodol. Gosododd hwn weledigaeth ar gyfer y Dref ynghyd â chyfres o brosiectau adfywio.

Yn 2017, penodwyd Chris Jones Regeneration, gan gynnwys Roberts Limbrick, i baratoi Strategaeth Gyflawni i symud y Weledigaeth gychwynnol yn ei blaen. Cwblhawyd hon ac mae nifer o'r prosiectau a awgrymwyd ynddi bellach ar amryw gamau cyflawni o ddyluniadau cysyniad, canllawiau dylunio a cheisiadau cynllunio i adeiladu a chyflawni ar y safle.

Yn groes i'r trefi marchnad hŷn yn Sir Fynwy, mae Cil-y-Coed yn dref gymharol newydd sydd wedi tyfu o bentref un stryd bach i ganol tref modern mewn cyfnod byr iawn o amser. Gwelodd Cil-y-coed gynnydd sydyn yn y boblogaeth o'r 1960au ymlaen, a achoswyd yn sgil agor Gwaith Dur Llanwern ym 1962 a Phont Hafren ym 1966. Cyrhaeddodd y dref anterth ei thwf yng nghanol yr 80au ond, ers hynny, mae wedi aros yn ei hunfan gydag ychydig weithgarwch ac eithrio'r siop Asda gymharol ddiweddar a'r ysgol uwchradd newydd fel yr unig ymyriadau nodedig. Mae Canol y Dref ei hun wedi gweld dirywiad graddol ac mae'n edrych yn flinedig a hen.

# Datblygu'r weledigaeth


Mae Cil-y-coed wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwlewyr ers i archfarchnad newydd Asda agor, yn agos iawn at ganol y dref. Rhan o gynllun Asda oedd cynnwys gwell cyswllt rhyngddo a chanol y dref yn y gobaith o ddenu defnyddwyr Asda i mewn i ganol y dref. Er gwaetha'i fwriadau da, dim ond llwyddiant cyfyngedig sydd i hyn. O ymgymryd â'u dadansoddiad, casglodd y tîm dylunio nad oedd yr arlwy yng nghanol y dref o safon ddigon uchel i ddenu unrhyw ymwelwyr pellach. Mewn gwirionedd, roedd yn colli nifer yr ymwelwyr i Asda.

Aeth Chris Jones a Roberts Limbrick, mewn cydweithrediad â'r cleient a rhanddeiliaid allweddol, ati i sefydlu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y dref. Roedd y weledigaeth yn llawer mwy pellgyrhaeddol na dim ond gwead y lle ac roedd yn cynnwys materion a gwasanaethau lleol fel addysg, iechyd a defnyddiau cymunedol. Cydnabyddodd y tîm y dylid dylunio'r lle ffisegol i helpu creu cysylltiad rhwng y lle, y bobl, a'i wasanaethau a chyfleusterau. Roedd y weledigaeth yn seiliedig ar yr hyn a welsant fel rôl a swyddogaeth y dref neu'r 'pentref' fel y cyfeirir atynt:

**Y Pentref**
Lle y mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn iddo p'un a ydynt yn drigolion wedi'u hen sefydlu neu'n rhai newydd. Mae canol y dref yn cynnig ystod o wasanaethau lleol a gweithgareddau sy'n cefnogi bywyd dyddiol Cil-y-coed a chymuned fywiog a chryf.

**Canol Tref yr 21ain Ganrif**
Buddsoddiad mewn addysg, gwasanaethau iechyd a chymunedol sydd o fewn cyrraedd pawb ac sy'n canolbwyntio ar les trwy gyfleoedd adloniadol, chwaraeon, diwylliannol a chymunedol.

**Canol Tref Cysylltiedig**
Lleoliad strategol yn ne-ddwyrain Sir Fynwy sy'n gysylltiedig â ffyrdd, rheilffyrdd a chludiant cyhoeddus, sy'n integreiddio hefyd â llwybrau cerdded/beicio cenedlaethol a lleol. Fe'i hystyrir hefyd yn isadeiledd ddigidol sy'n cefnogi busnes sefydledig ac yn ei wneud yn ddeniadol ar gyfer busnesau newydd.




Dadansoddiad canol tref

## Deall ac ymateb i’r safle a’r cyd-destun

Oherwydd natur y prosiect, cynhaliodd y tîm dylunio ddadansoddiad o ganol y dref a edrychodd yn fwy nag ar yr elfennau ffisegol y gellir eu gweld yn hawdd fel gwead yr adeilad a pharth y cyhoedd. Roedd y rhain yn sylfeini pwysig ar gyfer y dadansoddiad ond ystyriodd y tîm dylunio’r canlynol hefyd:

- Perfformiad cyfredol y dref a sut roedd busnesau lleol yn perfformio.
- Y cymysgedd lleol o drigolion lleol a defnyddwyr canol y dref ar wahanol ddiwrnodau ac ar wahanol amserau o’r dydd.
- Sut defnyddiwyd canol y dref a’r mathau o leoedd a gweithgareddau sy’n digwydd yn y dref.
- Economeg a gofynion marchnad canol y dref a pha fecanweithiau cymorth busnes sydd ar gael.
- Y cyfleoedd i deithio a symud i mewn i ganol y dref, allan ohoni ac o’i chwmpas.
- Y cyfleusterau a’r cyfleoedd addysg, iechyd a lles yn y canol a beth allai gael ei sefydlu yno o bosibl.
- Sut cafodd atyniadau a chyrchfannau canol y dref eu hyrwyddo a’u defnyddio gan drigolion lleol a phobl oedd yn teithio o bellach i ffwrdd.
- Y defnydd o fannau agored cyhoeddus a hyd a lled yr isadeiledd gwyrdd yng nghanol y dref, sut mae hyn yn cysylltu â’r ardal ehangach a sut gallai gefnogi mentrau iechyd yn y dref.

Helpodd yr uchod i osod yr olygfa o ran beth oedd gan y dref i’w chynnig, beth oedd yn ei cholli a sut oedd yn cael ei defnyddio. Yn dilyn hyn, cynhaliodd y tîm dylunio adolygiad ffisegol mwy cydnabyddedig i ddeall sut cyfrannodd gwead y lle at y ffordd yr oedd yn cael ei ddefnyddio. Gosododd y dadansoddiad hwn gyfres o haenau gwybodaeth a helpodd ddynodi’r prif faterion, cyfleoedd a chyfyngiadau’r dref a’i gyd-destun di-oed. O gynnwys hyn, y cynlluniau datblygu ymroddedig, ansawdd yr amgylchedd adeiledig, symudiad cerddwyr a beiciau, parcio a phyrth cyrraedd.

Arweiniodd hyn at faterion cyffredinol a diagram cyfleoedd a set syml o ‘Beth sy’n gweithio?’ a ‘Beth nad yw’n gweithio?’. Creodd hyn ffocws ar gyfer cyfres o gynigion ac ymyriadau i helpu adeiladu ar gyfleoedd a datrys materion.



Cartrefi newydd yn y dref

# Ymwneud y gymuned a'r rhanddeiliaid

TCynhaliodd y grŵp cleientiaid a'r tîm dylunio raglen dreigl o ymgynghori cynhwysfawr. Digwyddodd hyn trwy oes y prosiect, ar amryw gamau cynnydd. Profodd y broses ymgynghori arf hollbwysig wrth gyrraedd cynigion yr oedd y rhanddeiliaid, masnachwyr, landlordiaid a thrigolion a defnyddwyr y 'Pentref' yn hapus i gymryd perchnogaeth ohonynt.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y camau cynnar iawn o'r weledigaeth gychwynnol a cham y cynllun datblygu. Canolbwyntiodd hyn ar y materion a chyfleoedd y dref a galluogodd ddefnyddwyr y dref i nodi'r materion yr oeddent yn teimlo'u bod yn effeithio mwyaf ar eu profiad o ganol y dref.

Wedyn, dilynodd cyfres o ymarferion ymgynghori ac adborth ffisegol ac ar-lein ar y cynigion sy'n dod i'r amlwg cyn y weledigaeth derfynol a'r cynllun datblygu.

Cam nesaf y prosiect oedd paratoi strategaeth gyflawni. Roedd y broses hon yn destun sawl digwyddiad ymgynghori ledled yr astudiaeth i helpu cytuno dewislen o brosiectau i'w symud ymlaen i'r cynigion ariannu ac, yn y pen draw, cyflawni. Helpodd y broses ymgynghori i flaenoriaethu prosiectau a osodwyd yn erbyn cynllun gweithredu.

O'r fan hon, dechreuodd y prosiectau a flaenoriaethwyd ganddynt i ddod ymlaen fel cynllun dylunio hollol fanwl. Aeth pob prosiect sy'n dod i'r amlwg drwy ei broses ymgynghori ei hun hyd at y pwynt y dechreuon nhw ar y safle.


Diolch i'r broses ymgynghori barhaus a gychwynnwyd gan y grŵp cleientiaid a'r tîm dylunio, mae prosiectau bellach yn cael eu cyflawni ar y safle gyda chefnogaeth lawn y rhanddeiliaid a'r gymuned leol. Rhagwelir, y tro hwn, y bydd y gefnogaeth hon yn esblygu i berchnogaeth, a fydd, yn ei thro, yn esblygu o ran balchder yn y lle a'i ddyfodol.




Enghraifft o un o nifer fawr o setiau ymgynghori

## 5.2 OUTPUTS & OUTCOMES

The following chart illustrates the range of outputs and outcomes that could be generated as part of any future investment in the town centre.




**Vision**

"Caldicot - A Diverse Town Centre for All"

**Goals**

1. **Local Prosperity** - opening up opportunities for local & regional enterprise and building a sense of place
2. **Connected Community** - a place that is inclusive, mobile & sustainable, and is a hub to explore from
3. **Cohesive & Healthy** - smart integration of assets that provides a good quality of life for all

**Themes**

### Prosperous Caldicot

- Reformatting retail space
- Creating social space
- In-town living
- Dynamic public space-public realm
- Co-working space
- Caldicot Town Team Plus

### Connected Caldicot

- Mobile communities
- Public transport
- Active travel
- Digital community
- In-town living
- Destination management
- The Cross
- Caldicot Castle
- Living Levels

### Healthier Caldicot

- Well-being spaces:
  - -Play
  - -Grow
  - -Cohesion
- Local Routes
  - -Key corridors
  - -Green trails
- Leisure/school/town linkages
- Biodiversity, environment & community outreach

### Learning in Caldicot

- 21st Century Schools
- Community Hub-learning
- Test town trading-link to schools
- Catering better for school links in the town centre

**Focus**

- Creating a diverse place with a strong local identity
- Developing an accessible place that is attractive for business, residents and visitors
- Linking healthy assets ensuring equal access to positive lifestyles and outlooks for all
- Building on 21st century school investment and community learning

**Measuring Success:**

Diversity of Town Centre Uses, Business Start Ups, People Living in Town Centre, Community Engaged in Learning, Healthy Residents, Inter-Generational Activity, Local Facilities in Demand




Gweledigaeth gyffredinol a chroestoriadol

## Egwyddorion dylunio allweddol

Gosododd y tîm dylunio gyfres o amcanion a chanlyniadau allweddol: Beth yr oedden nhw, y grŵp cleientiaid, rhanddeiliaid ac ymgyngoreion eraill eisiau i Gil-y-coed fod. Roedd y dull hwn yn estyniad clir o'r weledigaeth a phrosiectau a strategaethau dynodedig a fyddai'n cyfrannu at ganlyniadau'r weledigaeth ac yn mynd i'r afael â nhw. Heb y dull hwn, teimlodd y tîm dylunio fod yna wir berygl y gallai'r prosiectau gael eu dynodi er lles prosiectau gan arwain at gyfres o ymyriadau ar wahân, gydag ychydig iawn o effaith gyffredinol yn y pen draw. Yn dilyn hyn, profwyd pob prosiect sy'n dod i'r amlwg, boed hynny yn y tymor byr neu hir, yn erbyn y canlyniadau hyn a ddymunir. Dyma oedd y canlyniadau hyn:


– **Lle amrywiol gyda hunaniaeth leol gryf:** prosiectau a fyddai'n helpu cryfhau'r ystod o ddefnyddiau yn y dref neu gyflwyno defnyddiau newydd ac angenrheidiol. Hefyd prosiectau sy'n helpu cryfhau a gwella nodweddion a hunaniaeth unigryw'r dref.

– **Lle hygyrch sy'n ddeniadol i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr:** prosiectau a fyddai'n gwella lleoedd gyda'r nod o greu lleoedd deniadol a wellodd hygyrchedd, a gryfhaodd y gymuned leol a defnydd o gludiant cyhoeddus.

– **Asedau iach sy'n sicrhau mynediad cyfartal i ffordd o fyw a golygweddau cadarnhaol i bawb:** prosiectau a greodd cyfleoedd i bobl fyw ffyrdd o fyw iach a gweithgar.

– **Adeiladu ar fuddsoddiadau yn ysgolion yr 21ain Ganrif a dysgu cymunedol:** prosiectau sy'n gwella llwybrau i addysg a chymwysterau a chyflogadwyedd cynyddol.

Yn gyflym iawn, creodd y dull seiliedig ar ganlyniadau berthnasoedd a chysylltiadau rhwng gwahanol brosiectau. Golygai hefyd fod sawl prosiect na chyrhaeddodd y cynllun gweithredu terfynol, gan gwympo i mewn i'r bwced 'prosiectau er lles prosiectau'. Helpodd y broses gyfan i sicrhau bod yr amser, ymdrech ac yn y pen draw, arian/cyllid yn canolbwyntio ar yr ymyriadau hynny a fyddai wir yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r dref a fyddai'n helpu diwallu'r weledigaeth. Defnyddiwyd y siart perthnasoedd deilliannol hefyd i gynorthwyo dulliau ariannu i Lywodraeth Cymru. Ceir perthynas glir rhwng prosiectau gyda llwyddiant y cyfan yn dibynnu ar gyflawni'r rhannau.




Gwella Church Road a'i gysylltiadau gyda chanol y dref

## Hwyluso gweithgareddau yn y cynllun

Mae Cil-y-coed wedi gweld cwymp yn nifer yr ymwelwyr â siop Asda ac arlwy sector seiliedig ar wasanaeth yn bennaf yn sgil arferion siopa newidiol. Arweiniodd hyn at ganol tref heb fawr o atyniad tymor hir: ychydig reswm sydd i aros.

Mae canol trefi llwyddiannus yn addasu i fod yn lleoedd o weithgareddau cymdeithasol. Roedd ysgogi gweithgarwch yng Nghil-y-coed yn edefyn croestoriadol hanfodol i weledigaeth thema'r timau dylunio ar gyfer y dref ac mae pob prosiect dynodedig yn targedu hyn.

**Cil-y-coed Ffyniannus:**

– Ailfodelu'r stoc adwerthu bresennol i roi mwy o ddewis i ddarpar breswylwyr.

– Cyflwyno byw preswyl i ganol y dref i helpu ysgogi economi'r dydd a'r nos.

– Adfer lleoedd i aros a chymdeithasu ynddynt drwy leoedd cyhoeddus safon uchel gyda defnyddiau gweithgar wrth eu hymyl.

– Gosod lle cydweithio i helpu ysgogi gweithgarwch busnes.

**Cil-y-coed Cysylltiedig**

– Gwelliannau i gyfleusterau cludiant cyhoeddus.

– Creu strategaeth deithio weithgar sy'n amrywio o leihau dominyddiaeth ceir i helpu creu llwybrau mwy diogel i gerdded – bysus ar gyfer plant ysgol.

– Creu strydoedd a sgwariau gwâr i helpu rhwyddhau symudiadau ar droed ac ar gefn beic.

**Cil-y-coed Iachach:**

– Darparu cyfleusterau parcio a storio beiciau diogel yng nghanol y dref i siopwyr a gweithwyr.

– Gwella cysylltiadau i gyfleusterau hamdden.

– Gweithredu strategaeth isadeiledd gwyrdd.

**Dysgu yng Nghil-y-coed:**

– Ailfodelu'r llyfrgell yn ganolfan gymunedol i gynnig dysgu a hyfforddiant i oedolion.

– Creu cysylltiadau masnachu rhwng ysgol uwchradd newydd yr 21ain ganrif a chanol y dref gyda lleoliadau rheolaidd a dysgu yn y gwaith

– Mae'r uchod i gyd wedi'u gosod a'u dylunio i helpu ysgogi gweithgarwch yng nghanol y dref. Gallai hyn fod yn llythrennol ar ffurf cynnydd yn nifer yr ymwelwyr neu economaidd trwy, er enghraifft menter a thwf busnes.

## Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at greu lleoedd da

Ar ddechrau datblygiad y weledigaeth, nododd y tîm dylunio fod y lle'n ddim heb bobl: pobl sy'n creu lleoedd. Dylai creu lleoedd ymhél â chreu amgylchedd (ffisegol, cymdeithasol neu economaidd) lle gall pobl ffynnu. Yng nghyd-destun canol tref Cil-y-coed, aeth y tîm ati i wneud yn iawn y cynhwysion a'r ymyriadau a fydd yn helpu pobl i ffynnu. Roedd hyn yn golygu dewislen eang ei hystod o brosiectau sydd â gwahanol amcanion dan arweiniad lleoedd. O'u cyfuno, mae'r prosiectau unigol hyn yn cyfrannu at ansawdd ac arlwy cyffredinol canol y dref. Amrywia'r prosiectau hyn o ailfodelu graddfa fawr o unedau adwerthu i greu cyfluniadau lle gwahanol, llawer mwy hyblyg ar gyfer darpar weithredwyr a masnachwyr i'r ôl-ffitio cymharol fach o elfennau yn Church Road i helpu ei drawsnewid o heol i stryd.

Gan ddefnyddio prosiect Church Road fel enghraifft, hyd yn oed o fewn prosiectau unigol, lle'r oedd cyfleoedd am nifer fawr o fuddiannau seiliedig ar leoedd. Mae'r ffordd yn gymharol brysur gyda chyflymderau traffig cymharol uchel, llawer o rodfeydd preswyl ac mae'n rhoi mynediad i'r Castell. Yn ogystal, dyma'r prif fan casglu a gollwng ar gyfer yr ysgol gynradd leol sy'n creu gwrthdrawiadau cerbydau a phobl. O safbwynt priffyrdd, gallai ateb syml ac iwtilitaraidd gyflwyno'n syml poncydd cyflymder neu ehangiad concrit/tarmac i leihau cyflymderau traffig. Fodd bynnag, ni fyddai hyn wedi cyfrannu at hunaniaeth leol gref neu ganlyniadau lleoedd hygyrch a sefydlwyd yn y weledigaeth. Felly, edrychodd y tîm dylunio ar hyn fel cyfle i ychwanegu budd creu lleoedd trwy ateb dylunio cynhwysfawr ac amlddisgyblaeth:

- Mae llwybrau cerdded wedi'u lledaenu a blaenoriaeth yn gwella'r amgylchedd i gerddwyr
- Cyflwynwyd estyniadau fel gerddi glaw
- Draenio trefol cynaliadwy
- Mwy o fioamrywiaeth a chreu cynefinoedd
- Cyfleuster addysgol natur a newid hinsawdd ar gyfer plant ysgol lleol
- Rhesymoli cyfleoedd parcio ar y stryd

Mae'r dull 'ennill lleoedd' hyn o ddylunio'n cael ei hyrwyddo'n gyson gan y tîm dylunio yn ystod yr esblygiad o uwchgynllun canol y dref, strategaeth gyflawni a thrwyddo i'r dyluniad a'r adeiladwaith manwl. Mae felly'n ychwanegu gwerth trwy atebion wedi'u dylunio'n holistaidd, seiliedig ar leoedd, yn hytrach nag ymyriadau iwtilitaraidd sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i ffynnu.



Yr olygfa ar hyd Church Road



Church Road: lleihau dominyddiaeth cerbydau, isadeiledd gwyr ac SDCau

## Agweddau mwyaf llwyddiannus y datblygiad

Ar adeg ysgrifennu, roedd yr uwchgynllun yn y camau cyflawni cynnar. Mae sawl prosiect yn cael eu symud ymlaen tuag at ddyluniadau a cheisiadau cynllunio manwl, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol. Mae prosiect gofod gwâr y Groes wrthi'n cael ei adeiladu ac mae eisoes wedu denu llawer o sylwadau cadarnhaol.

Mae'r Groes yn graidd hanesyddol i'r dref ac ar un tro, ffurfiodd sgwâr ar gyfer cynulliadau cymdeithasol a masnachu da byw. Gydag amser, mae ei ddefnydd a'i bwrpas wedi erydu oherwydd pwysau traffig a'r llanastr cysylltiedig. Dyfeisiodd y tîm dylunio gynllun croestoriadol i adfer y sgwâr fel man pwysig yng nghanol y dref. Mae'r gweithgareddau penodol yn cynnwys:

- Creu stryd 'waraidd' ar y cyd sy'n gwneud ardal y Groes a'i chyffordd â Sandy Lane, Chepstow Road a Church Road yn haws ei chyrraedd i gerddwyr a beicwyr, gan leihau dominyddiaeth cerbydau, ac eto'n darparu ar gyfer cludiant cyhoeddus;
- Gwell isadeiledd cludiant cyhoeddus yn y lleoliad allweddol yng nghanol y dref;
- Lleoliad gwell i fusnesau sydd o flaen y gofod gyda chyfleoedd i ddefnyddio'r lle ar gyfer gweithgareddau masnachol a chymdeithasol ychwanegol;
- Gwell hygyrchedd a symudedd i drigolion ac ymwelwyr sy'n cysylltu â'r rhwydwaith teithio gweithgar a gwelliannau i goridordau isadeiledd gwyrdd arfaethedig;
- Gwell isadeiledd gwyrdd, yn benodol coed, planhigion, ymylon a chyfleoedd am fioamrywiaeth mewn lle trefol;
- Gwell arwyddion a gwybodaeth i ymwelwyr ar gyfer canol y dref ac atyniadau pellennig i dwristiaid;
- Ar y cyfan, mae lle mwy gweithgar a chymdeithasol sy'n animeiddio tir blaen, yn ysgogi datblygiad economaidd lleol ac yn cyflwyno pwrpas o'r newydd i ardal y Groes: gan droi'r gofod yn 'lle'.

Bydd yr isadeiledd gwell yn helpu arwain at fuddiannau cymdeithasol ac economaidd i ganol y dref gan gynnwys:

- Lle digwyddiadau sy'n adeiladu'r sgiliau, yr uchelgais a chreadigedd sefydliadau'r dref i ddylunio, trefnu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ar draws y flwyddyn sy'n meithrin hunaniaeth, gweithgareddau a phrofiad;
- Gall lle integredig ac o safon fod yn ysgogiad i entrepreneuriaeth leol mewn perthynas â gweithgarwch dros dro/cyfamserol a threialu syniadau amserol yn y lle a'r amgylchedd di-oed, yn ogystal â threialu syniadau am gynhyrchion newydd i ymwelwyr e.e. Llogi Beiciau
- Gall busnesau ar flaen y lle elwa ar leoliad a chyfres gwell o diroedd blaen sy'n codi nifer yr ymwelwyr, anheddau, busnes dro ar ôl tro, teyrngarwch a chynaliadwyedd.



Yr olygfa o'r Groes i Church Road



Y Groes Bresennol: Llanastr gweledol a ffisegol:
Parth cyhoeddus pur



Llun o'r awyr yn dangos stryd a sgwâr waraidd arfaethedig



Golygfa o'r stryd waraidd



Stryd waraidd yn cael ei hadeiladu gydag ymyl bws uchel



# Atodiad

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

# Atodiad 1: Darllen pellach


**Teithio Llesol: Canllawiau, Llywodraeth Cymru**
https://llyw.cymru/teithio-llesol-canllawiau-dylunio

**Building with Nature**
https://www.buildingwithnature.org.uk/about

**Offer a Thechnegau Ymgysylltiad Cymunedol, Cymorth Cynllunio Cymru**
https://www.planningaidwales.org.uk/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-ymgysylltiad-cymunedol/?lang=cy

**Egwyddorion Cadwraeth, Cadw**
https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth

**Countryside Agency and Scottish Natural Heritage, 2002. Landscape Character Assessment.**
https://www.nature.scot/sites/default/files/2018-02/Publication%202002%20-%20Landscape%20Character%20Assessment%20guidance%20for%20England%20and%20Scotland.pdf

**Pecyn Cymorth Creu Mannau Chwarae Hygyrch**
https://www.playwales.org.uk/eng/publications/creatingaccessibleplayspaces

**Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, Iechyd Cyhoeddus Cymru**
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Creating%20healthier%20places%20spaces.pdf

**Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru – Pam, Beth a Sut**
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/datganiadau-dylunio-a-mynediad.pdf

**Enabling Healthy Placemaking, RTPI, 2020**
https://www.rtpi.org.uk/research/2020/june/plan-the-world-we-need/

**Enabling Healthy Placemaking, 2020, RTPI**
https://www.rtpi.org.uk/research/2020/july/enabling-healthy-placemaking/#conclusion

**Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau**
https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/11/FGCW-Framework.pdf

**Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**
https://futuregenerations2020.wales/

**Healthy Placemaking, Design Council, 2018**
https://www.designcouncil.org.uk/resources/report/healthy-placemaking-report

**High Streets Task Force**
https://www.highstreetstaskforce.org.uk/about/

**Cymeriad Hanesyddol, Cadw**
https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/nodweddion-hanesyddol

**Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar y stryd**
https://issuu.com/playwales/docs/sut_i_drefnu_sesiynau_chwarae_r_tu_

**Journey to Involvement, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**
https://www.futuregenerations.wales/journey-checker-involvement/

**LANDMAP, Cyfoeth Naturiol Cymru**
https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/evidence-to-inform-development-planning/landmap-the-welsh-landscape-baseline/?lang=cy

**Living Streets Resources**
https://www.livingstreets.org.uk/policy-and-resources/our-policy/walkable-neighbourhoods

**Manual for Streets, Yr Adran Drafnidiaeth a'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, 2007**
www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets

**Manual for Streets 2, Yr Adran Drafnidiaeth, 2010**
www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets-2

**Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru**
https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/nlca/?lang=cy

**Cyfoeth Naturiol Cymru. 2016. Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru Adroddiad Llawn. Tud 127, Atodiad 1.**
https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/green-spaces/urban-trees/?lang=cy

**Agor Strydoedd ar gyfer Chwarae**
https://issuu.com/playwales/docs/agor_strydoedd_ar_gyfer_chwarae

**Canllawiau Cynllun Cynefin**
http://www.placeplans.org.uk/cy/

**Polisi Cynllunio Cymru**
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf

**Plan the World we Need, RTPI, 2020**
https://www.rtpi.org.uk/research/2020/june/plan-the-world-we-need/

**Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy**
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/cynllunio-adeiladau-cynaliadwy_1.pdf

**Pecyn Cymorth Tiroedd Ysgolion, Chwarae Cymru**
https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/schoolsgroundstoolkit

**Secured by Design**
https://www.securedbydesign.com/

**Canllaw ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle**
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/canllaw-cyd-destun-safle.pdf

**Safonau statudol ar systemau draenio cynaliadwy**
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/safonau-cenedlaethol-statudol-ar-gyfer-systemau-draenio-cynaliadwy.pdf

**TAN 12: Dylunio**
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan12-dylunio.pdf

**The Craft of Collaborative Planning**
Bishop, J (2015), The Craft of Collaborative Planning: People working together to shape creative and sustainable places, RTPI Library, London: Routledge

**Transport for a Green Recovery, RTPI**
https://www.youtube.com/watch?v=YVTtRvb_XU0&list=PL72oqE9hHr98VJEkRZno9tcv5n_bp0sOT&index=11&t=0s

**Understanding and Supporting the Play Experience in Cities, RTPI, 2019**
https://www.rtpi.org.uk/research/2019/december/understanding-and-supporting-the-play-experience-in-cities/

**Urban Design Compendium, Homes and Communities Agency, 2000**
https://drive.google.com/file/d/0Bx1yF2IaHeBDNXI4Um5fR0ZTSG1WaU1GVUxDOXhwQQ/view

**Wildlife Trusts Wales. Green Infrastructure. A Catalyst for Wellbeing of Future Generations in Wales.**
https://www.wtwales.org/greeninfrastructure

# Diolchiadau

**Awduron:**

Ymchwiliwyd,ysgrifennwyd a datblygwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Tîm y Prosiect:**

Ysgrifennwyd gan Jen Heal, Ymgynghorydd Dylunio, DCFW

Cefnogwyd gan Efa Lois, Ymgynghorydd Lleoedd, DCFW

Goruchwyliwyd a rheolwyd y prosiect ar gyfer DCFW gan Carole-Anne Davies, Prif Weithredwr ar gyfer Comisiwn Dylunio Cymru, a gefnogwyd gan Sue Jones, Rheolwr Adnoddau a Chyllid yn DCFW a chan Max Hampton, Stuart Ingram a Jon Fudge ar gyfer Cyfarwyddiaeth Gyllunio Llywodraeth Cymru.

Gwnaed cyfraniadau gan Bartneriaeth Creu Lleoedd Cymru.

**Astudiaethau achos:**

Ymchwiliwyd i'r astudiaethau achos ac fe'u rhoddwyd at ei gilydd gan Roberts Limbrick. Darparwyd gwybodaeth a delweddau gan y bobl ganlynol:

Ashalnds - Kedrick Davies, Chris Gentle, DCFW.

The Pumphouse - Simon Baston, Loft Co.

Lawrenny - Tom Russel, Emmett Russell Architects

Loftus Garden Village - Mark Trounce, Grŵp POBL

Paintworks - Gary Milliner, Stride Treglown

Tŷ Pawb - Sarah Featherstone, FeatherstoneYoung Architects

Cil-y-coed – Chris Gentle, Roberts Limbrick

Pafiliwn Grangetown, Mhairi McVicar, Prifysgol Caerdydd

Uplands Market – Ben Reynolds, Urban Foundry

Railway Street – Rebecca Clark, Green Squirrel

Glannau'r Barri – Victoria Robinson, Cyngor Bro Morgannwg

Mae Comisiwn Dylunio Cymru'n diolch yn ddiffuant i'r rheiny o dimau prosiectau a ddarparodd ddeunyddiau i bob astudiaeth achos.

**Delweddau, diagramau a ffotograffau:**

Credydir delweddau lle maen nhw'n digwydd, fe'u cymerir o'r astudiaethau achos neu dônt o lyfrgell delweddau DCFW.

Mae'r darluniau gwreiddiol gan Efa Lois yn eiddo i DCFW.

**Cyfieithiad Cymraeg:**

Llinos Jones

**Dyluniad:**

Marc Jennings: www.theundercard.co.uk

ISBN 978-1-8381102-1-5

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

© Comisiwn Dylunio Cymru / Design Commission for Wales Ltd

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales